



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y broses bontio rhwng yr ysgol
ac addysg bellach i bobl ifanc ag
anghenion addysgol arbennig

Adroddiad terfynol

Mawrth 2016

Y broses bontio rhwng yr ysgol ac addysg bellach i bobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig

Adroddiad i nodi'r cryfderau a'r meysydd y gellid eu gwella mewn perthynas â'r trefniadau pontio o'r ysgol i addysg a hyfforddiant pellach ac uwch ôl-16 ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu.

Yr awduron: Dr Duncan Holtom, Dr Sarah Lloyd-Jones, Rhodri Bowen a Jack Watkins.

Uned Pobl a Gwaith
Uned 1 Loudoun
Plas Iona
Butetown
Caerdydd
CF10 5HW

Ffôn: 029 2048 8536

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol
Y Gyfarwyddiaeth Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a
Chymorth i Ddysgwyr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: additionallearningneedsbranch@cymru.gsi.gov.uk

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Methodoleg	5
3. Y broses o gynllunio pontio	11
4. Datblygu proses cynllunio pontio sy'n galluogi gwneud penderfyniadau hyddysg	18
5. Paratoi pobl ifanc, eu rhieni a'u gofalwyr a'u lleoliadau ar gyfer pontio	36
6. Cynorthwyo dilyniant dysgwyr ar ôl pontio	49
7. Data: monitro, gwerthuso a meincnodi	59
8. Casgliadau	66
9. Llyfryddiaeth	74
Atodiad 1: Diffiniadau	82
Atodiad 2: Nodweddion allweddol arfer effeithiol	84

Ffigurau

Ffigur 1: Cynllunio pontio fel proses – elfennau o arfer effeithiol	17
---	----

Tablau

Tabl 1: Nifer y rhanddeiliaid y cyfwelwyd â hwy ym mhob sector, gwasanaeth a lleoliad dysgu	7
Tabl 2: Cyfraddau cwblhau myfyrwyr ag AAD wedi'u cofrestru mewn sefydliadau AB o'u cymharu â myfyrwyr eraill	63
Tabl 3: Elfennau allweddol sy'n ymwneud â datblygu prosesau cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion	84
Tabl 4: Elfennau allweddol sy'n ymwneud â pharatoi pobl ifanc, rhieni a gofalwyr a lleoliadau dysgu, darparwyr a gwasanaethau ar gyfer pontio	90
Tabl 5: Elfennau allweddol yn ymwneud â sicrhau dilyniant a chyflawniad pobl ifanc ar ôl trosglwyddo	94
Tabl 6: Gwella data	97

1. Cyflwyniad

Pontio i bobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig, anawsterau a/neu anabledau dysgu

1.1. Gall pontio o'r ysgol i addysg bellach ac uwch fod yn amser anodd i unrhyw berson ifanc ond i'r rhai ag anghenion addysgol arbennig (AAA) neu anawsterau a/neu anabledau dysgu (AAD)¹ yn aml ceir heriau ychwanegol sy'n ymwneud, er enghraifft, â heriau o ran ymdopi â newidiadau lluosog yn y gwasanaethau y maent yn dibynnu arnynt ac yn y bobl sy'n eu cynorthwyo a'u haddysgu (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2007, 2009; LIC, 2010, 2013c).

Nod ac amcanion yr astudiaeth

1.2. Nod yr astudiaeth hon yw darparu gwybodaeth am drefniadau presennol ar draws Cymru ar gyfer pontio i bobl ifanc ag AAD o'r ysgol i addysg bellach (AB), addysg uwch (AU) a dysgu seiliedig ar waith, er mwyn nodi beth sy'n gweithio a lle y gellir gwneud gwelliannau.

1.3. **Amcanion** yr astudiaeth yw:

- ystyried sut y mae pontio'n gweithio'n ymarferol ym mhob awdurdod lleol (ALI) yng Nghymru;
- ystyried i ba raddau y mae asiantaethau, gan gynnwys addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, yn ymwneud yn gynnar â'r broses bontio;
- adolygu llenyddiaeth gefndir, gan gynnwys profiadau gwledydd eraill, canfyddiadau Pwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru a deilliannau o fentrau, prosiectau a grwpiau gorchwyl cysylltiedig blaenorol;
- nodi astudiaethau achos o arfer da o bob rhan o Gymru sy'n gyson â chynigion ar gyfer diwygio AAA;

¹ Mae'r diffiniadau statudol o AAA ac AAD yn debyg ac yn canolbwyntio ar anawsterau dysgu neu anabledau'r plentyn neu'r person ifanc a'r angen o ganlyniad i hynny am ddarpariaeth arbennig i gynorthwyo eu dysgu. Mae manylion llawn wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

- nodi rhwystrau, gwendidau neu fylchau yn y ffordd y mae trefniadau lleol ar gyfer pontio yn cael eu gwneud a chynnig atebion cost-effeithiol sy'n gyson â chynigion ar gyfer diwygio AAA;
- nodi mesurau meintiol ac ansoddol y gallai ALI a darparwyr ôl-16 eu defnyddio i feincnodi eu trefniadau pontio AAD.

Cyd-destun polisi

1.4. Mae Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (LICCC, 2004a) yn cwmpasu cynllunio pontio ar gyfer pobl ifanc ag AAA ac fe'i trafodir ymhellach yn adran tri. Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o ddiwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer AAA. Mae'r cynigion, sy'n cynnwys cyflwyno proses integredig, gydweithredol o asesu, cynllunio a monitro wedi'u hamlinellu yn y Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Mae hwn yn nodi uchelgais Llywodraeth Cymru i sicrhau deilliannau hirdymor gwell i blant a phobl ifanc ag AAA a sicrhau eu bod yn gwireddu eu potensial llawn.

2. Methodoleg

2.1. Astudiaeth ansoddol oedd hon yn bennaf, gan ganolbwyntio ar archwilio a deall sut, pam, i bwy, ac o dan ba amgylchiadau, roedd trefniadau pontio yn “gweithio”² – neu lle nad oeddent yn ‘gweithio’ (gweler e.e. Trysorlys ei Mawrhydi, 2011; Pawson a Tilly, 1997). Cafodd y dull hwn ei ategu gan ymchwil i ddarparu cyd-destun (gan ddefnyddio data eilaidd yn bennaf) i alluogi gwneud dyfarniadau ehangach ynghylch pa mor eang yw arfer effeithiol. Mae'r adran hon yn crynhoi'r ffynonellau a'r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu data ar gyfer yr astudiaeth ac yna'n trafod cryfderau a chyfyngiadau'r astudiaeth.

Adolygiad o'r ddesg o ddata

Adolygu data gweinyddol

2.2. Cynhaliwyd adolygiad o'r ddesg o bontio pobl ifanc o'r ysgol a'u profiadau o AB gan ddefnyddio data a gasglwyd drwy arolwg cyrchfan Gyrfaf Cymru³; Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)⁴; Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru⁵; Arolwg Llais y Dysgwr (mewn addysg bellach)⁶; a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)⁷.

² e.e. yn effeithiol, gan greu deilliannau cadarnhaol i bobl ifanc a chan olygu bod profiadau rhanddeiliaid yn gadarnhaol.

³ Defnyddiwyd hyn i ddarparu data ar gyrchfan pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol â datganiad a'r rhai heb ddatganiad ym mlynnyddoedd 12, 13 ac 14.

⁴ Defnyddiwyd hyn i ddarparu data ar nifer y bobl ifanc ag AAA, a'r math o AAA mewn ysgolion.

⁵ Defnyddiwyd hyn i ddarparu data ar gyfraddau cwblhau ar gyfer myfyrwyr ag AAD a heb AAD (hunanddatgan) mewn sefydliadau AB.

⁶ Defnyddiwyd hyn i ddarparu data ar sut y gwnaeth pobl ifanc a bontiodd i AB raddio eu profiad dysgu (Ipsos Mori, d.d.).

⁷ Defnyddiwyd hyn i ddarparu cyfraddau cwblhau ar gyfer pobl ifanc ag anabledd a phobl ifanc heb anabledd a oedd wedi pontio i AU.

Adolygiadau llenyddiaeth

- 2.3. Cynhaliwyd adolygiad llenyddiaeth ar arfer effeithiol mewn cynllunio pontio yn y DU a gwledydd a ddewiswyd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Chwiliodd wyth o gronfeydd data ar-lein ac, yn dilyn sifft o astudiaethau ar gyfer perthnasedd ac ansawdd, nododd 28 o erthyglau sy'n berthnasol i'r astudiaeth, a gafodd eu hadolygu.
- 2.4. Cafodd yr adolygiad llenyddiaeth ei ategu gan adolygiad bwriadus o astudiaethau diweddar yng Nghymru, gan gynnwys:
- adolygiadau a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2007); y Pwyllgor Addysg a Dysgu (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2009); a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar drefniadau'r dyfodol ar gyfer ariannu anghenion dysgu ychwanegol ôl-16 (LIC, 2010);
 - ymchwil i Ddarpariaeth Addysg Ôl-19 i Bobl Ifanc ag Anawsterau Dysgu Cymhleth (LIC, 2013a); y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid (LIC, 2014b); Cynlluniau Peilot Anghenion Dysgu Ychwanegol (LIC, 2013b); a Chynlluniau Peilot Gweithwyr Allweddol Pontio (LIC, 2013c⁸).

Adolygiad o bolisiau pontio

- 2.5. Cynhaliwyd adolygiad o'r ddesg o bolisiau pontio pob un o'r 22 o awdurdodau lleol⁹ a 12 o golegau addysg bellach yng Nghymru.

Gwaith maes (cyfweiliadau â rhanddeiliaid)

- 2.6. Cafodd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gyfrannodd at yr astudiaeth eu nodi drwy ymchwil gydag 14 o wasanaethau pontio awdurdod lleol a naw

⁸ <http://gov.wales/docs/caecd/research/130125-costs-benefits-transition-key-working-en.pdf>

⁹ Mae Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen yn rhannu polisi Gwent gyfan. Mae Conwy a Sir Ddinbych hefyd yn rhannu polisi.

astudiaeth achos seiliedig ar ardal, yn ne-ddwyrain, de-orllewin, canolbarth a gogledd Cymru. Rhoddodd y rhain ganolbwynt ar gyfer cyfweiliadau â:

- lleoliadau dysgu gan gynnwys ysgolion prif ffrwd ac arbennig, colegau AB, darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith a phrifysgolion;
- gwasanaethau sy'n ymwneud â chynllunio pontio, fel Gyrfa Cymru, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau iechyd ac addysg a sefydliadau gwirfoddol;
- pobl ifanc a'u rhieni a'u gofalwyr a oedd yn paratoi ar gyfer pontio o'r ysgol i'r coleg, neu a oedd wedi cwblhau'r pontio hwn.

2.7. Cynhaliwyd cyfanswm o 91 o gyfweiliadau â rhanddeiliaid (gan gynnwys cyfweiliadau â chwe pherson ifanc ag AAD a phum rhiant neu ofalwr) gan ddefnyddio cymysgedd o gyfweiliadau wyneb yn wyneb a chyfweiliadau dros y ffôn. Mae Tabl 1 yn rhoi crynodeb o broffil y rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth. Roedd y gwasanaethau pontio a'r ysgolion lle y cyfweiliwyd â rhanddeiliaid yn deillio o 17 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.¹⁰

Tabl 1: Nifer y rhanddeiliaid y cyfweiliwyd â hwy ym mhob sector, gwasanaeth a lleoliad dysgu

Sector	Nifer
Llywodraeth Cymru	6
Gwirfoddol	5
Gwasanaethau	Nifer
Gwasanaethau pontio*	23
Gyrfa Cymru	6
Byrddau Iechyd Lleol	2
Lleoliadau dysgu	Nifer
Colegau AB	12
Sefydliadau AU (prifysgolion)	5
Ysgolion arbennig**	9
Ysgolion uwchradd**	8
Darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith	5

¹⁰ Ac eithrio Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Sir Benfro, Castell-nedd Port Talbot a Blaenau Gwent.

**Mae'r lleoliadau gwasanaeth ar gyfer y rhain yn amrywio; er enghraifft, roedd rhai wedi'u lleoli mewn gwasanaethau cymdeithasol, eraill mewn addysg neu iechyd. Mewn rhai gwasanaethau cyfwelwyd â mwy nag un rhanddeiliad.*

***Penaethiaid, athrawon, cynorthwywyr addysgu a Chynghorwyr Gyrfaoedd neu Gydlynwyr AAA (ysgolion uwchradd yn unig).*

Cyfweliadau â phobl ifanc ag AAD a'u rhieni neu ofalwyr

- 2.8. Roedd yr astudiaeth yn bwriadu cyfweld â phum rhiant neu ofalwr ac 20 o bobl ifanc ag AAD. Gweithiodd y tîm gyda chyrrff cyfryngol i nodi pobl ifanc a oedd yn dymuno cyfrannu, gan gynnwys drwy ysgolion, colegau, grwpiau cymorth a sector gwirfoddol lleol a SNAP Cymru. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, dim ond chwe pherson ag AAD a gyfrannodd at yr astudiaeth.¹¹
- 2.9. Roedd y bobl ifanc y cyfwelwyd â hwy yn deillio o dair ardal ALI ac roeddent rhwng 14 ac 16 oed¹². Roedd y pum rhiant y cyfwelwyd â hwy yn deillio o dri awdurdod lleol¹³ ac roedd gan bob un ohonynt blant a oedd wedi cwblhau pontio ar ôl gadael yr ysgol. Roedd eu plant rhwng 17 ac 20 oed¹⁴.
- 2.10. Gwnaeth yr astudiaeth hefyd ddefnyddio tystiolaeth a ddarparwyd gan rieni a gofalwyr a phobl ifanc ag AAA neu AAD, a gasglwyd o'r gwerthusiad o ddeilliannau o'r Cynllun Gweithredu Strategol Anhwylder Sbectwm Awtistig i Gymru (LIC, sydd ar y gweill) a'r rhaglen o ymchwil gweithredu i gynorthwyo'r cynlluniau peilot ADY (LIC, 2013b).

¹¹ Roedd angen i'r astudiaeth weithio drwy gyfryngwyr (mewn cysylltiad â rhieni a gofalwyr) ac nid yw'n hysbys pam y dewisodd cyn lleied o rieni a gofalwyr gyfranogi. Er enghraifft, gwnaeth cais am gyfraniadau ar wefan SNAP Cymru arwain at un ymateb gan riant ac un ymateb gan grŵp cymorth i rieni a chanddo bron 400 o aelodau ond dim pobl ifanc

¹² Roedd tri yn 16 (yn pontio i'r brifysgol neu'r coleg), roedd dau yn 14 ac roedd un yn 15 oed (yn pontio i'r coleg).

¹³ Blaenau Gwent, Caerffili ac Abertawe.

¹⁴ Roedd anghenion yr 11 o bobl ifanc hyn (y chwech a gyfrannodd yn uniongyrchol a'r pump yr oedd eu rhieni wedi cyfrannu) yn amrywio. Roedd gan saith anhwylder ar y sbectwm awtistig ac roedd gan chwech o'r rhain anhawster dysgu ychwanegol hefyd, roedd gan un barlys yr ymennydd ac roedd gan un gyflyrau lluosog a oedd yn effeithio ar ddysgu a chyfathrebu cymdeithasol. Roedd anawsterau dysgu'r bobl ifanc yn amrywio o ddwys a difrifol i ysgafn.

Dadansoddi data a chyflwyno adroddiadau ar hyn

2.11. Cafodd y data sylfaenol (a gynhyrchwyd gan gyfweiliadau) a data eilaidd (fel y data a gynhyrchwyd gan yr adolygiadau o'r ddesg o lenyddiaeth) eu dadansoddi i nodi themâu allweddol ynghylch yr hyn sy'n arfer da (neu effeithiol) ac arfer gwael (neu aneffeithiol neu niweidiol). Defnyddiwyd y themâu hyn i:

- nodi nodweddion arfer effeithiol;
- nodi materion y mae angen i'r rhai sy'n gweithio yn y maes hwn eu hystyried (fel heriau posibl);
- archwilio a helpu i esbonio gwahanol brofiadau pobl ifanc a rhieni a gofalwyr;
- llywio'r broses o nodi meysydd ar gyfer gwella, yn gyson â'r diwygiadau ADY/AAA arfaethedig (LIC, 2014c).

Cryfderau a chyfyngiadau'r astudiaeth

2.12. Roedd gan yr astudiaeth gryfderau pwysig:

- darparodd yr adolygiad llenyddiaeth o'r ddesg dystiolaeth o gryfderau a gwendidau arfer yng Nghymru ac arfer da yng Nghymru a gwledydd eraill y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd;
- defnyddiodd yr astudiaeth brofiadau uniongyrchol a thystiolaeth gan y rhai sy'n cael profiad o bontio (neu â phrofiad diweddar ohono), neu drefnu pontio pobl ifanc, gan ddefnyddio tystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr astudiaeth hon ac astudiaethau eraill (gweler paragraff 2.10);
- roedd y cwmpas i gymharu profiadau'r rhai y cyfwelwyd â hwy â data o ffynonellau eraill, fel arolygon o bobl ifanc ym maes addysg bellach, wedi galluogi gwneud rhai dyfarniadau ynghylch pa mor gynrychiadol roedd profiadau rhanddeiliaid.

2.13. Roedd gan yr astudiaeth rai cyfyngiadau. Ni allai geisio darparu darlun cynhwysfawr o arfer ledled Cymru.¹⁵ Yn hytrach, roedd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar archwilio arfer yn fanwl i nodi'r hyn a oedd yn gweithio a'r hyn nad oedd yn gweithio a pham. Yn ogystal:

- roedd nifer y bobl ifanc ag AAD (chwech) a rhieni neu ofalwyr pobl ifanc ag AAD (pump) a oedd yn pontio, a gymerodd ran uniongyrchol yn yr astudiaeth hon, yn fach;
- nid oedd yr adolygiad o'r ddesg o bolisïau pontio a chyfweliadau â gwasanaethau pontio awdurdodau lleol wedi cynhyrchu cymaint o ddata a ddisgwyliwyd am bolisïau pontio ym mhob ardal awdurdod lleol¹⁶;
- dangosodd yr adolygiad o'r ddesg o ddata meintiol yr anawsterau o ran cysoni gwahanol setiau data sy'n cwmpasu ysgolion, addysg bellach ac addysg uwch (mater a drafodir ymhellach yn adran saith).

¹⁵ Adlewyrchodd hyn yr amrywiaeth mewn polisi ac, i raddau mwy, arfer mewn awdurdodau lleol, lleoliadau a gwasanaethau, sy'n ei gwneud yn anodd iawn datblygu sampl gynrychioliadol y gellid dod i gasgliadau ohoni.

¹⁶ Roedd dyfnder ac ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd gan y polisïau yn amrywio'n sylweddol. Mae gan bob awdurdod lleol yng Nghymru bolisi cyhoeddedig (weithiau ar y cyd â sir gyfagos) ond roedd rhai'n eithaf hen. Mae'r polisïau'n amlinellu'r broses bontio a phwy all fod yn cymryd rhan. Mae rhai'n nodi'r hyn y dylid ei gynnwys mewn cynllun pontio.

3. Y broses o gynllunio pontio

Egwyddorion cynllunio pontio: Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

3.1. Mae'r broses o gynllunio pontio ar gyfer pobl ifanc â datganiad AAA yn cael ei llywodraethu gan God Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru¹⁷. Mae'r Cod yn amlinellu:

- mae cynllun pontio yn cael ei lunio yn adolygiad blynyddol y dysgwr¹⁸ ym mlwyddyn naw ac ailedrychir arno mewn adolygiadau blynyddol dilynol;
- mae dysgwyr yn cael eu cynorthwyo i "gyfranogi'n llawn" a chaiff eu barn ei chynnwys;¹⁹
- cyflwynir gwybodaeth am opsiynau ôl-16 i bobl ifanc a'u teuluoedd²⁰;
- mae'r broses yn cynnwys, ac mae'r cynllun yn dwyn ynghyd, wybodaeth gan amrywiaeth o unigolion yn yr ysgol a thu hwnt (gan gynnwys Gyrfa Cymru a, lle y bo'n briodol, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol)²¹;
- mae'r cynllun pontio yn gyfannol²²;

¹⁷ "Mae'r Cod yn rhoi canllawiau ar bolisiau a dulliau gweithredu sydd â'r nod o alluogi disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) [sydd, at ddibenion yr astudiaeth hon, yn cael eu trin yn gyfystyr ag AAD] i gyrraedd eu llawn botensial, i gael eu cynnwys yn llawn yng nghymunedau eu hysgolion ac i gamu'n llwyddiannus i fywyd oedolyn." (t. 1, LICC, 2004).

¹⁸ Rhaid i bob datganiad o AAA ar gyfer pobl ifanc gael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn (h.y. "adolygiad blynyddol").

¹⁹ "Dylid ceisio a chofnodi barn y bobl ifanc eu hunain" (t. 130, LICC, 2004a).

²⁰ "Dylai arweiniad galwedigaethol a roddir gan yr ysgol neu gynrychiolydd Gyrfa Cymru gynnwys gwybodaeth am addysg bellach a chyrsgiau hyfforddi a dylent gymryd dymuniadau a theimladau'r person ifanc dan sylw i ystyriaeth. Dylai Gyrfa Cymru helpu'r person ifanc a'i rieni i benderfynu ar y ddarpariaeth fwyaf addas ar ôl cyrraedd 16 oed, dylai ddarparu gwasanaeth cwnsela a chefnogi, a dylai barhau i oruchwylio a derbyn gwybodaeth am y ddarpariaeth a ddewisir gan y person ifanc" (t. 131, LICC, 2004a).

²¹ Fel arfer, dylai cynlluniau pontio o flwyddyn naw ymlaen gynnwys y person ifanc, rhieni neu ofalwyr a gweithwyr proffesiynol fel Cydlynwyr AAA, athrawon a/neu staff cynorthwyol, a chynghorwyr Gyrfa Cymru. Lle y bo'n briodol, dylai staff o leoliadau ôl-16, gwasanaethau cynhwysiant a/neu seicoleg addysgol yr awdurdod lleol, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd gymryd rhan hefyd. (LICC, 2004a).

²² "Dylid ystyried holl anghenion y plentyn wrth gynllunio'r trawsnewid." (t. 130, LICC, 2004a)

- mae gwybodaeth am y dysgwr yn cael ei throsglwyddo o'r ysgol i leoliadau ôl-16 (yn amodol ar gytundeb gan ddysgwyr a rhieni), “mewn digon o bryd fel y gellir trefnu cefnogaeth briodol”;
- a lle y bo angen, mae'r cymorth sydd ei angen ar bobl ifanc i bontio'n llwyddiannus (fel gweithgarwch pontio neu gysylltu) yn cael ei roi ar waith²³ (tt. 130-132, LICC, 2004c).

3.2. I bobl ifanc ag AAA, ond sydd heb ddatganiad AAA, mae'r Cod Ymarfer yn amlinellu y dylai:

- pobl ifanc gael “help a chyfarwyddyd priodol” i'w galluogi i bontio'n llwyddiannus;
- Dylai Gyrfa Cymru roi “cyngor a chyfarwyddyd” i'r person ifanc a rhoi “gwybodaeth i ysgolion a fydd yn helpu'r myfyrwyr hyn i symud yn llwyddiannus i addysg, hyfforddiant neu waith ar ôl gadael ysgol”;
- dylai gwybodaeth am y dysgwr gael ei throsglwyddo o'r ysgol i leoliadau ôl-16 (yn amodol ar gytundeb gan ddysgwyr), mewn da bryd i roi darpariaeth briodol ar waith;
- “efallai y bydd ysgolion, mewn ymgynghoriad â chynrychiolydd Gyrfa Cymru, am lunio Cynlluniau Trawsnewid i gefnogi'r broses hon” (tt. 132-133, *ibid.*).

3.3. Mae'r Cod Ymarfer AAA dim ond yn cwmpasu pontio o'r ysgol ac nid yw'n cwmpasu pontio o addysg bellach i addysg uwch, na'r pontio o addysg i gyflogaeth, er enghraifft.

²³ Er enghraifft, fel y mae'r cod yn amlinellu: “... Mewn rhai achosion, efallai y bydd gan fyfyrwr sy'n nesáu at 16 oed anghenion addysgol arbennig sy'n debygol o olygu bod angen rhywfaint o gefnogaeth os bydd yn mynd ymlaen i addysg bellach neu hyfforddiant. I sicrhau bod y myfyrwyr hyn yn gallu gwneud penderfyniadau, ac i hwyluso trawsnewid llwyddiannus, mae'n bwysig eu bod yn cael help a chyfarwyddyd priodol. Gall hyn gynnwys darparu cyrsiau cyswllt ysgol/ coleg neu leoliadau gwaith a dylai gynnwys y gwahanol asiantaethau lleol y mae a wnelont â'r myfyrwr.” (t. 132, LICC, 2004a)

- 3.4. I bobl ifanc â datganiadau AAA y mae disgwyl iddynt fynd ymlaen i addysg a hyfforddiant ôl-16 ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol, cynhelir asesiad adran 140 yn ystod eu blwyddyn olaf yn yr ysgol. Cynhelir yr asesiad ar ran Gweinidogion Cymru gan Gyrfa Cymru ac mae'n nodi anghenion addysg a hyfforddiant ôl-16 y dysgwr a'r ddarpariaeth sy'n ofynnol er dwyn diwallu'r anghenion hynny, ar ffurf Cynllun Dysgu a Sgiliau.

Cynllunio ar gyfer pontio ar waith

- 3.5. Ar yr wyneb, mae'r Cod Ymarfer AAA yn sicrhau cynllunio pontio da. Er enghraifft, daeth adolygiad diweddar Estyn o Wasanaethau Cymorth i Ddysgwyr mewn colegau addysg bellach i ddysgwyr 16-19 oed (Estyn, 2015) i'r casgliad bod:

Y rhan fwyaf o golegau ac ysgolion yn rheoli trefniadau pontio'n effeithiol ar gyfer y dysgwyr hynny ag anghenion dysgu ychwanegol a gall fod angen cymorth arbenigol arnynt. Yn gyffredinol, mae staff mewn ysgolion, colegau a chynghorwyr Gyrfa Cymru yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod dilyniant y dysgwyr hyn wedi'i gynllunio'n dda o gam cynnar. Maent yn sicrhau bod addasiadau angenrheidiol neu gymhorthion dysgu yn eu lle mewn da bryd er mwyn i'r dysgwyr setlo yn y sefydliad yn gyflym a gwneud cynnydd da yn eu dysgu (t.6, ibid)

- 3.6. Serch hynny, erys gwendidau. Er enghraifft, fel y nododd adroddiad blynyddol diwethaf Estyn (2013-2014):

Er bod y pwyntiau trosglwyddo i ddysgwyr rhwng lleoliadau ac ysgolion cynradd, ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd, ac ysgolion uwchradd a darparwyr ôl-16, wedi bod yn ffocws llw o adolygiadau, adroddiadau a mentrau polisi, mae rhwystrau yn bodoli o hyd i rannu gwybodaeth am blant a phobl ifanc, ac ychydig iawn o enghreifftiau sydd o gynllunio ar y cyd yn systematig rhwng darparwyr ar draws y pwyntiau trosglwyddo (t.16, Estyn, 2015b).

ac

Mae trosglwyddo rhwng ysgolion a darparwyr ôl-16 yn adeg anodd yn aml i ddysgwyr ag AAA. Mewn ychydig o enghreifftiau, mae cynlluniau pontio yn helpu myfyrwyr i drosglwyddo'n hwylus o'r ysgol i addysg bellach. Fodd bynnag, anaml y bydd y datganiad o anghenion arbennig a'r cynllun addysg unigol yn trosglwyddo o'r ysgol i'r sefydliad addysg bellach (t. 42, ibid).

- 3.7. Mae adolygiadau diweddar eraill hefyd wedi nodi gwendidau o ran cynllunio ar gyfer pontio i rai grwpiau o ddysgwyr, fel dysgwyr ag anhwylderau yn y sbectrwm awtistig (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2010) neu anawsterau dysgu cymhleth (Townesley et al, 2013)
- 3.8. Mae'r astudiaeth hon yn nodi, yn rhannol, bod y problemau mae rhai dysgwyr yn eu hwynebu²⁴ yn adlewyrchu gwendid o ran gweithredu'r Cod Ymarfer AAA, lle er enghraifft, nad yw rhanddeiliaid allweddol ("unigolion") yn ymwneud â chynllunio pontio neu lle nad yw gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo mewn modd amserol o'r ysgolion i ddarparwyr ôl-16. Fodd bynnag, fel y dengys adrannau pedwar i chwech o'r adroddiad hwn, mae gwahaniaethau o ran effeithiolrwydd hefyd yn adlewyrchu materion nad yw'r Cod yn mynd i'r afael â hwy'n uniongyrchol, fel sut i gysoni buddiannau sy'n gwrthdaro â'i gilydd, a'r cyfyngiadau a roddir ar gynllunio pontio gan yr amrywiaeth o opsiynau ôl-16 sydd ar gael i bobl ag AAD.
- 3.9. At hynny, mae'r astudiaeth hon yn dangos er ei bod yn bosibl diffinio nodweddion allweddol arfer effeithiol, o ran egwyddorion (yr hyn ddylai ddigwydd - fel y mae'r Cod Ymarfer AAA presennol yn ceisio ei wneud), efallai y bydd angen i fanylion sut y mae i'w wneud yn ymarferol newid o un unigolyn i'r llall (neu o un broses i'r llall). Mae'r gofyniad hwn am hyblygrwydd ac ymatebolrwydd yn golygu bod angen i weithwyr proffesiynol ddefnyddio eu crebwyll gorau yn hytrach na dilyn rheolau anhyblyg (Chambers, 1997) ac mae'n nodwedd hanfodol o'r dull sy'n canolbwyntio ar y person sydd wrth wraidd arfer effeithiol mewn cynllunio ar gyfer pontio. Fodd bynnag, mae hefyd yn cynyddu'r risg o anghysondeb (a thrwy hynny, arfer a phrofiadau gwael i ddysgwyr a'u teuluoedd).

²⁴ Fel yr amlinellwyd uchod, ni chafodd Estyn fod yr holl ddysgwyr yn cael eu cynorthwyo'n dda - dim ond bod gan fwyafrif yr ysgolion a cholegau drefniadau da.

Cynllunio ar gyfer pontio fel proses

- 3.10. Mae'r Cod Ymarfer AAA yn canolbwyntio'n bennaf ar y cynllun pontio, a ddatblygir drwy gyfarfodydd²⁵. Fodd bynnag, mae'r llenyddiaeth a adolygwyd a'r cyfweiliadau a gynhaliwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn pwysleisio pwysigrwydd trin cynllunio pontio fel proses, yn hytrach na digwyddiad neu gyfres o ddigwyddiadau sy'n canolbwyntio ar, er enghraifft, adolygiadau blynyddol.
- 3.11. Os yw cynllunio yn cael ei drin fel proses yn hytrach na digwyddiad, gellir meddwl amdano fel dilyniant gyda nifer o gyfnodau (neu gamau), a ddangosir gan ffigur 1, gyda'r holl gamau'n arwain at weithredu a fydd yn llywio'r cam nesaf. Oherwydd bydd pobl ifanc yn aml yn gwneud mwy nag un cyfnod pontio, gall y prosesau fod yn gysylltiedig a'r camau'n ailadrodd sawl gwaith.

²⁵ Nid yw Cod Ymarfer AAA Cymru (LICC, 2004a) yn canolbwyntio ar y cynllun pontio yn unig. Fel yr amlinellir yn yr adran hon, mae hefyd yn pwysleisio, er enghraifft, y cymorth y gall fod ei angen ar bobl ifanc i bontio, ac ar drosglwyddo gwybodaeth. Serch hynny, mae'r pwyslais (yn y Cod) ar y cynllun a chyfarfodydd cynllunio yn bennaf.

Ffigur 1. Cynllunio pontio fel proses: elfennau o arfer effeithiol

Cynllunio ar gyfer gweithredu (troi dewisiadau a phenderfyniadau yn gamau gweithredu) canolbwyntio ar yr hirdymor (nid dim ond y cam nesaf); cydlynu; hyblygrwydd ac ymatebolrwydd (e.e. wrth i anghenion neu amgylchiadau newid); monitro a gwerthuso'r broses

Cam 1. Datblygu proses ar gyfer cynllunio pontio sy'n gynhwysol, yn canolbwyntio ar y person

(Gweler adran 4 am fanvlion)

Elfennau allweddol

- dechreuwch yn gynnar a defnyddiwch eich crebwyll gorau: nid oes un ffordd "gywir" o strwythuro cynllunio ar gyfer pontio;
- nodwch pwy ddylai gael eu cynnwys, pryd a sut i'w cynnwys;
- meithrin ymddiriedaeth.

Adnoddau Allweddol

- > The [Pecyn cymorth adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion](#)
- > [Cod Ymarfer AAA Cymru](#)

Cam 2. Galluogi pobl ifanc a rhieni/gofalwyr i wneud dewisiadau hyddysg am bontio (gweler adran 4)

Elfennau allweddol

- Rhowch y dysgwr yn gyntaf, canolbwyntiwch ar eu galluoedd a'u dyheadau tra'n ystyried diddordebau eraill;
- sicrhewch fod gwybodaeth, cyngor a chanllawiau'n hygyrch, yn gywir ac yn berthnasol;
- ystyriwch ddarparu cyngor a chymorth annibynnol;
- Nodwch a chyd-drafodwch rhwng buddiannau sy'n cystadlu â'i gilydd.

Adnoddau Allweddol

- > The [Pecyn cymorth adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion](#)

Cam 3. Paratoi dysgwyr, rhieni a gofalwyr a lleoliadau addysg ar gyfer y pontio a ddewiswyd (Gweler adran 5)

Elfennau allweddol

- Rhannu gwybodaeth am y person ifanc;
- sicrhau bod pobl ifanc, rhieni a gofalwyr a lleoliadau'n cael eu paratoi (gan gynnwys nodi rhwystrau posibl i bontio a mynd i'r afael â hyn);
- addasu darpariaeth a chymorth fel sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion pobl ifanc;
- cydweithio ac arfer arweinyddiaeth systemau.

Cam 4. Cynorthwyo dilyniant dysgwyr ar ôl pontio (gan gynnwys cynllunio ar gyfer pontio dilynol: Cam 1)(Gweler adran 6)

Elfennau allweddol

- Sicrhau bod asesiadau'n gyfannol ac yn canolbwyntio ar anghenion academiaidd, personol a chymdeithasol y dysgwr;
 - sicrhau bod asesu yn broses barhaus - nid digwyddiad yn unig;
 - nodi'r rhai sydd 'mewn perygl' o ymddieithrio (a gweithredu ar hynny);
 - sicrhau cynllunio effeithiol ar gyfer dilyniant dysgwyr.
- Adnoddau Allweddol**
- > [Y Fframwaith Ymgysylltu a](#)

4. Datblygu proses cynllunio pontio sy'n galluogi gwneud penderfyniadau hyddysg

- 4.1. Mae'r thempled sylfaenol ar gyfer cynllunio pontio wedi'i amlinellu yng Nghod Ymarfer AAA Cymru (LICC, 2004a). Fel yr amlinellwyd yn adran tri, mae'n disgrifio'r amrywiaeth o randdeiliaid y mae angen iddynt gymryd rhan ac mae'n amlygu'r angen i ddarparu gwybodaeth a chyingor.
- 4.2. Fodd bynnag, nid yw'r Cod Ymarfer AAA yn amlinellu sut y mae cyfranogiad rhanddeiliaid i'w alluogi a'i annog (heblaw am drwy gyfranogi mewn cyfarfodydd adolygu), ac nid yw'n disgrifio sut y dylid gwneud penderfyniadau. Felly mae'r adran hon yn disgrifio dulliau sydd wedi bod yn llwyddiannus ac yn amlygu materion allweddol sydd angen cael eu hystyried gan y rhai sy'n ymwneud â datblygu prosesu cynllunio pontio.
- 4.3. At hynny, er y gall fod nodweddion cyffredin (y mae llawer ohonynt wedi'u hamlinellu yng Nghod Ymarfer AAA Cymru), nid oes un proses na thempled ar gyfer cynllunio pontio a fydd yn briodol i bob rhanddeiliad²⁶. Felly'r cam cyntaf mewn cynllunio ar gyfer pontio yw datblygu proses gynhwysol sy'n galluogi pob rhanddeiliad allweddol i gyfranogi yn y broses gynllunio a gwneud penderfyniadau hyddysg. Mae elfennau allweddol o arfer effeithiol, materion i'w hystyried, ac enghreifftiau o arfer effeithiol wedi'u hamlinellu yn yr adran hon a cheir crynodeb ohonynt yn [Nhabl 3](#) yn yr atodiad.

Rhoi pobl ifanc yng nghanol y broses: cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion

Arfer effeithiol

²⁶ Fel y nota'r pecyn cymorth adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion (LIC, 2015e): "nid yw un maint yn ffitio pawb".

4.4. Y person ifanc yw'r rhanddeiliad pwysicaf yn y broses. Mae cyfranogiad pobl ifanc yn faes allweddol lle mae arfer wedi datblygu ers ysgrifennu'r Cod Ymarfer AAA dros ddeng mlynedd yn ôl²⁷, a chafodd yr astudiaeth hon fod yr holl weithwyr proffesiynol o'r farn bod cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion yn bwysig (ac yn un o nodweddion allweddol arfer effeithiol)²⁸. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ac adnoddau i gynorthwyo cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion. Mae'r rhain ar gael ar-lein yn <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/person-centred-reviews-toolkit/?skip=1&lang=cy>.

Materion i'w hystyried ac enghreifftiau o arfer effeithiol

4.5. Cytunodd y gweithwyr proffesiynol y cyfwelwyd â hwy ar gyfer yr astudiaeth fod cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion yn golygu dechrau gyda'r hyn y mae'r dysgwr yn ei ddymuno a'i angen, er bod y pwyslais a roddwyd ar agweddau gwahanol o ganolbwyntio ar unigolion a sut roedd yn effeithio ar eu harfer yn amrywio, fel nad oedd un dull o ddefnyddio cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion wedi dod i'r amlwg. Yn rhannol mae hyn yn adlewyrchu'r gwahaniaethau o ran anghenion a diddordebau pobl ifanc (nid yw un maint yn ffitio pawb) ac mae'r astudiaeth achos, isod, yn rhoi un enghraifft ymarferol o gynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion. Fodd bynnag, mae hefyd yn adlewyrchu gwahaniaeth barn o'r hyn yw cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion a gofynion hyn.

Cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion mewn ysgol arbennig

²⁷ Mae Cod Ymarfer AAA Cymru yn amlygu pwysigrwydd cynnwys myfyrwyr wrth wneud penderfyniadau, gan amlinellu y dylid "ceisio a chofnodi barn y bobl ifanc eu hunain ym mhob asesiad, ailasesiad ac adolygiad o Flwyddyn 9 ymlaen. Efallai y bydd angen cynrychiolwyr o Gyrfa Cymru; cynghorwyr, eiriolwyr neu gwnselwyr myfyrwyr; athrawon a staff ysgol eraill; gweithwyr cymdeithasol neu gefnogwyr cyfoedion i gefnogi'r person ifanc yn y broses hon." (t. 130, LICC, 2004a). Felly mae'n pwysleisio cynnwys myfyrwyr, ond ni ellid disgrifio hyn fel rhoi barn yr unigolyn ifanc yng nghanol y broses.

²⁸ Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, archwiliodd Kaehne a Beyer (2013) y defnydd o brotocolau ffurfiol yn y 22 o ardaloedd awdurdod lleol Cymru ac o'r 21 o brotocolau a gasglwyd a'u dadansoddi, nodwyd mai dim ond naw oedd yn cyfeirio at ddull sy'n canolbwyntio ar unigolion, a dim ond dau oedd yn amlinellu protocolau ar gyfer ymgorffori hyn mewn cyfarfodydd pontio.

Mae gan yr ysgol weithiwr cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion sydd â'r rôl o arwain cynllunio pontio ac adolygiadau blynyddol gyda phobl ifanc. Ceir hefyd ystafell bwrpasol yn yr ysgol gyda byrddau gwyn ar y wal wedi'u nodi yn nhrefn cynllun pontio / llwybr dysgu. Mae'r bobl sy'n bresennol mewn sesiynau adolygu neu gynllunio'n llenwi'r byrddau hyn a cheir lle iddynt hefyd nodi'r hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio. Mae hyn yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer proses fanwl sy'n arwain at gynllun gweithredu y cytunwyd arno.

Mae'r ystafell yn groesawgar. Mae'r gweithiwr cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion yn paratoi ar gyfer y sesiwn i sicrhau bod gan y grŵp fynediad at wybodaeth o'r adolygiad neu'r sesiwn gynllunio ddiwethaf, proffil y person ifanc, cynnwys datganiad y person ifanc, y tri CAU diwethaf a/neu gynllun pontio ac unrhyw wybodaeth fonitro ddilydol. Mae hyn yn sicrhau bod gan bawb yr un wybodaeth i weithio oddi wrthi, nad oes amser yn cael ei wastraffu yn aildrafod yr un hen beth, nad oes yn rhaid i bobl (yn enwedig y person ifanc a'i deulu) ailadrodd eu straeon a'u hanghenion a bod y sesiwn yn gwneud cynnydd. Mae'r sesiwn yn galluogi cael barn yr unigolyn yn ogystal â barn grwpiau, er mwyn i gyfranogwyr allu rhoi nodiadau post-it ar y wal i wneud sylwadau ar yr hyn maent yn teimlo sy'n bwysig. Mae'r person ifanc yn berchen ar y cynllun a, phan fydd wedi'i ddatblygu ac y cytunir arno, caiff ei ddsbarthu i bob parti, ond hyd yn oed ar y cam hwn mae'n waith ar y gweill, ac yn cael ei ddiweddarau'n gyson wrth i anghenion a diddordebau'r person ifanc ddatblygu, wrth i gyfleoedd newydd godi ac wrth i gyfleoedd eraill newid.

Nodi a chynnwys y rhanddeiliaid allweddol

Arfer effeithiol

- 4.6. Mae arfer effeithiol yn cynnwys nodi a chynnwys y rhanddeiliaid allweddol (neu'r bobl allweddol) y mae angen iddynt gyfrannu. Er enghraifft, fel y noda Pecyn cymorth adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion Llywodraeth

Cymru (LIC, 2015b)²⁹: “mae'n rhaid i'r broses a'r cyfarfod gynnwys y dysgwr, y bobl yr hoffent iddynt fod yno ac unrhyw bobl allweddol sy'n gorfod bod yno” (ibid., t.4). Mae hyn yn arfer effeithiol oherwydd, fel yr amlinellir yn yr adran hon, gall rhanddeiliaid allweddol fod â diddordebau a dyheadau gwahanol y mae'n rhaid eu cysoni ac oherwydd bod angen i randdeiliaid allweddol gydweithio er mwyn gwireddu diddordebau a dyheadau pobl ifanc.

Materion i'w hystyried

- 4.7. Fel yr amlinellwyd yn adran tri, er bod disgwyl i nifer o randdeiliaid allweddol gyfrannu at gynllunio pontio³⁰, bydd yr amrywiaeth llawn o randdeiliaid y mae angen eu cynnwys ar gyfer person ifanc unigol yn wahanol yn ôl anghenion ac amgylchiadau'r person ifanc. At hynny, gall y ffyrdd y maent yn cyfrannu fod yn wahanol hefyd (ac maent yn annhebygol o gael eu cyfyngu i gyfarfodydd cynllunio). Felly gall arfer effeithiol newid o unigolyn i unigolyn.

Cyfranogiad pobl ifanc yn y broses: Materion i'w hystyried ac enghreifftiau o arfer effeithiol

- 4.8. Mae arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion yn ei gwneud yn ofynnol bod dyheadau pobl ifanc, a'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy ac ar eu cyfer, yn ganolog i gynllunio pontio (LIC, 2015b). I raddau helaeth mae gallu a pharodrwydd pobl ifanc i gyfrannu (efallai y bydd rhai ohonynt yn dewis peidio â chyfrannu) yn dibynnu ar y ffyrdd y mae eu cyfranogiad yn y broses yn cael ei annog a'i alluogi. Gall hyn amrywio o gyfranogiad uniongyrchol, fel eu rhan mewn cyfarfodydd cynllunio a'u cyfraniad at y rhain, i gyfranogi anuniongyrchol lle, er enghraifft, mae eiriolwyr anffurfiol yn gweithredu ar eu rhan a/neu mae pobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i gyflwyno eu dyheadau a'u diddordebau gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau (fel ffilm neu lyfrynnau darluniadol).

²⁹ <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150909-reviews-toolkit-cy.pdf>

³⁰ Er enghraifft, fel yr amlinellir yng Nghod Ymarfer AAA Cymru, fel arfer, dylai cyfarfodydd cynllunio pontio o flwyddyn naw ymlaen gynnwys y person ifanc, rhieni neu ofalwyr a gweithwyr proffesiynol fel Cydlynwyr AAA, athrawon a/neu staff cynorthwyol, a chynghorwyr Gyrfa Cymru. Lle y bo'n briodol, dylai staff o leoliadau ôl-16, gwasanaethau cynhwysiant a/neu seicoleg addysgol, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd gymryd rhan hefyd. (LICC, 2004a).

- 4.9. Yn aml bydd angen cymorth ar bobl ifanc er mwyn iddynt allu cyfranogi. Mae cynnwys pobl y mae'r person ifanc yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt yn y broses gynllunio, ac sydd wedi, neu'n gallu meithrin perthynas â'r person ifanc yn hanfodol i ddatblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig iddo ac ar ei gyfer. Gallai hyn gynnwys gweithio gyda'r person ifanc i'w helpu i ystyried ei ddiddordebau a'i ddyheadau - yr hyn sy'n bwysig iddo ac ar ei gyfer - cyn cyfarfodydd. Fel y mae stori Bryn yn dangos isod, mae'r broses o nodi diddordebau a dyheadau pobl ifanc yn cymryd amser ac mae'n aml yn cynnwys ystyried yr hyn y mae pobl ifanc yn dweud y maent yn ei ddymuno ac sydd ei angen arnynt a'r hyn sy'n hysbys, neu yr awgrymir, am y person ifanc a'i ddiddordebau a'i ddyheadau.

**Cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion yn ymarferol: Cynllun pontio
Bryn**

Mae gan Bryn anghenion cymhleth, anawsterau dysgu a goddefgarwch isel ar gyfer pethau nad yw o ddiddordeb iddo. Fodd bynnag, mae ganddo ddiddordeb mawr mewn systemau trafnidiaeth a theithiau – a'i hoff weithgareddau yw teithiau ar y trê, ar y bws ac yn y car. Roedd y staff yn ei ysgol yn gwybod am ei ddiddordebau ac roeddent yn gallu adeiladu ar y rhain drwy gynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion.

Wrth ddatblygu ei gynllun pontio, gan ddefnyddio dull cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion, mabwysiadwyd model taith, gyda'r broses yn llythrennol yn cael ei mapio allan, gan blotio o ble roedd yn dechrau ohono ac i ble y gallai fynd, pa mor hir byddai'n ei gymryd i gyrraedd yno a lle y gallai fynd nesaf, gan nodi amserlenni ac, weithiau, yr angen am ddargyfeirio neu ddiwygio amserlenni. Gwnaeth y dull hwn ennyn diddordeb Bryn, gweithio ar ei gryfderau a'i ddealltwriaeth, a'i alluogi i gymryd rhan weithredol wrth ddatblygu ei gynllun ei hun. Gwnaed y gwaith y tu allan i'r cyfarfod. Nid oedd Bryn bob amser am fynd i gyfarfodydd adolygu ond pan y gwnaeth hynny roedd yn fodlon cyflwyno'r map teithio. Roedd yn teimlo ei fod yn berchen ar y

cynllun, ac o ganlyniad roedd ganddo lawer mwy o ddiddordeb mewn gweld sut y byddai'n gweithio.

- 4.10. Lle nad yw pobl ifanc yn gallu mynegi eu diddordebau a'u dyheadau'n uniongyrchol, mae'n bwysig i'r rhai sy'n adnabod y person ifanc i'w nodi (e.e. drwy arsylwi ar eu blaenoriaethau a'u hymddygiad).

Cyfranogiad rhieni a gofalwyr yn y broses: materion i'w hystyried

- 4.11. Mae arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion yn cynnwys nodi dyheadau rhieni neu ofalwyr person ifanc (LIC, 2015b). Mae eu diddordebau a'u dyheadau yn bwysig (am resymau cynhenid a hollbwysig³¹ ac mae angen eu hystyried. Fel pobl ifanc, bydd gallu a pharodrwydd rhieni a gofalwyr i gyfrannu yn dibynnu ar y ffyrdd y mae eu cyfranogiad yn y broses yn cael ei annog a'i alluogi. Mae angen iddynt wybod am y broses, gan gynnwys beth fydd yn digwydd mewn cyfarfodydd, a chael amser a chymorth i gyfrannu (ibid.; gweler hefyd Beyer, et al, 2014).

Rhan gweithwyr proffesiynol yn y broses: materion i'w hystyried

- 4.12. Mae gan weithwyr proffesiynol, fel athrawon, Cydlynwyr AAA, staff cymorth ysgolion a chynghorwyr Gyrfa Cymru rôl hanfodol i'w chwarae wrth gynllunio pontio. Gallant gyfrannu at ddealltwriaeth well o ddiddordebau, anghenion a dyheadau person ifanc ac maent yn hanfodol wrth lunio cynlluniau gweithredu (gan ganfod, er enghraifft, sut y gellir gwireddu dyheadau pobl ifanc) (LIC, 2015b). Mae rhieni a gofalwyr yn arbennig o bryderus am benderfyniadau'n cael eu gwneud gan bobl nad oedd wir yn adnabod eu plentyn a/neu yn gwneud penderfyniadau heb eu cynnwys.

³¹ Mae diddordebau a dyheadau rhieni a gofalwyr yn bwysig ynddynt eu hunain (felly mae iddynt werth cynhenid) ac maent yn bwysig oherwydd gallant effeithio ar wireddu diddordebau a dyheadau pobl ifanc (felly mae iddynt werth hollbwysig). Er enghraifft, gall cymorth rhieni a gofalwyr fod yn angenrheidiol i alluogi person ifanc i wireddu ei ddiddordebau a'i ddyheadau a gall y cymorth hwn gael ei ddal yn ôl os nad yw diddordebau a dyheadau rhieni a gofalwyr yn cael eu hystyried neu eu parchu yn y broses.

4.13. Nododd llawer o weithwyr proffesiynol fod cyfarfodydd yn cymryd llawer o amser ac roedd cyfranogiad rhai grwpiau, fel gweithwyr proffesiynol iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, mewn cyfarfodydd yn aml yn fylchog. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r gweithwyr proffesiynol y cyfwelwyd â hwy ar gyfer yr astudiaeth hon yn teimlo er bod angen iddynt gyfrannu at y broses (e.e. drwy adroddiadau ysgrifenedig) nid oedd yn angenrheidiol i bob rhanddeiliad fynd i bob cyfarfod cynllunio neu adolygu; er enghraifft, teimlwyd y gellid targedu a diffinio cyfranogiad gweithwyr iechyd proffesiynol yn y broses gynllunio, gan ganolbwyntio ar gyfarfodydd neu benderfyniadau penodol³². Yn yr un modd, gall cyfranogiad y gwasanaethau cymdeithasol fod yn angenrheidiol dim ond pan fydd angen gwneud penderfyniadau am gymhwysra ar gyfer darpariaeth arbenigol.

4.14. Fodd bynnag, cytunodd y gweithwyr proffesiynol y cyfwelwyd â hwy ar gyfer yr astudiaeth hon ei bod yn bwysig iawn bod y bobl gywir yn cymryd rhan weithredol pan fo angen. Teimlwyd bod llwyddiant lleoliadau o ran sicrhau cyfranogiad rhai gweithwyr proffesiynol yn y broses ac, yn benodol, sicrhau eu bod yn mynd i gyfarfodydd cynllunio, yn cael ei ddylanwadu gan nifer o ffactorau gan gynnwys:

- statws y broses gynllunio yn y lleoliad; er enghraifft, os yw ysgol yn cymryd y broses gynllunio o ddifrif ac yn buddsoddi yn y broses, mae gweithwyr proffesiynol eraill yn fwy tebygol o wneud hynny;
- arfer cydweithredol presennol (hynny yw, i ba raddau yr oedd staff yn gyfarwydd â gweithio gyda'i gilydd) a'r berthynas rhwng y lleoliad a gweithwyr proffesiynol eraill (a oedd ar y cyfan yn gryfach ar gyfer darpariaeth arbenigol, fel ysgolion arbennig, o gymharu ag ysgolion neu golegau prif ffrwd);
- y camau ymarferol a gymerwyd i hwyluso cyfranogiad gweithwyr proffesiynol (fel trefnu sesiynau cynllunio mewn ffordd arferol ac amserlennu nifer o sesiynau cynllunio pontio ar yr un diwrnod).

³² Awgrymwyd lle roedd yn bwysig i staff iechyd gymryd rhan (er enghraifft, lle roedd materion yn ymwneud â darparu therapi lleferydd ac iaith neu feddyginiaeth yn gysylltiedig ag opsiynau pontio), gellid cyfyngu'r cyfraniad i un cyfarfod, neu gellid dirprwyo rhywun o'r sesiwn gynllunio i ddarganfod beth oedd ar gael a'i gyflwyno yn y sesiwn nesaf.

Darparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd

Arfer effeithiol

4.15. Mae'r Cod Ymarfer AAA, cyfweleion a'r llenyddiaeth a adolygwyd ar gyfer yr astudiaeth hon (e.e. Beyer, et al, 2014; Sloper et al., 2010, Milsom et al., 2004) i gyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd yn y broses bontio. Dylai gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd effeithiol sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys pobl ifanc, yn gwybod beth yw'r opsiynau (neu'r dewisiadau), a dylai ddarparu sylfaen ar gyfer gwneud penderfyniadau hyddysg am lwybr pontio person ifanc.

Materion i'w hystyried

4.16. Mae cynnwys gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd a'r ffyrdd y maent yn cael eu cyfathrebu yn bwysig. Mae angen i wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd fod yn gywir, yn amserol ac yn berthnasol. Oni bai eu bod yn cael eu cyfathrebu mewn ffyrdd sy'n "briodol" i ddiwallu anghenion a diddordebau pobl ifanc a/neu eu rheini neu ofalwyr gellir eu camddeall, eu hanwybyddu neu eu gwrthod. Mae hyn yn aml yn golygu defnyddio mwy nag un ffordd o gyfathrebu gan gynnwys gwybodaeth wyneb yn wyneb, ysgrifenedig a chlywedol (LIC, 2015b)³³.

Meithrin ymddiriedaeth

Arfer effeithiol

4.17. Gwnaeth cyfweiliadau ar gyfer yr astudiaeth hon a rhywfaint o'r llenyddiaeth a adolygwyd (e.e. Llywodraeth Cymru 2013c) dynnu sylw at bwysigrwydd ymddiriedaeth. Mae meithrin ymddiriedaeth rhwng rhanddeiliaid allweddol, ac yn enwedig rhwng gweithwyr proffesiynol a rhieni neu ofalwyr, yn elfen

³³ <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150909-reviews-toolkit-cy.pdf>

allweddol, oherwydd bod yn rhaid i drafod a negodi fod yn broses ddwy ffordd (felly mae angen i'r ddwy ochr ymddiried yn y llall a chael perthynas â'i gilydd). Gall ymddiriedaeth hefyd wella profiadau rhieni a gofalwyr (e.e. drwy leihau gwrthdaro a phryder).

Materion i'w hystyried ac enghreifftiau o arfer effeithiol

- 4.18. Ystyriwyd bod prosesau agored a thryloyw o rannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau yn elfennau allweddol o ran meithrin ymddiriedaeth. Gall pontio fod yn anodd, ac roedd rhieni a gofalwyr a rhai pobl ifanc y cyfwelwyd â hwy ar gyfer yr astudiaeth yn gwerthfawrogi'n arbennig barhad cysylltiad â rhywun y gallent siarad â hwy pan oedd ganddynt bryder³⁴. Mae meithrin ymddiriedaeth yn arbennig o bwysig os oedd rhieni a gofalwyr wedi profi prosesau gwael o ran gwneud penderfyniadau yn y gorffennol, am eu bod yn llai tebygol o ymddiried yn y broses o wneud penderfyniadau nawr.
- 4.19. Nodwyd bod cyfranogiad rhywun sy'n annibynnol ar leoliadau dysgu penodol, fel gweithiwr allweddol neu gynghorydd Gyrfa Cymru, yn helpu'r broses bontio ac yn sicrhau bod anghenion a dyheadau'n cael eu cyfathrebu'n effeithiol. Gall hefyd helpu i feithrin ymddiriedaeth rhwng rhieni, gofalwyr, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol a chynnig y cwmpas ar gyfer cymorth cymdeithasol ac emosïynol (gweler hefyd LIC, 2013c). Fodd bynnag, gall fod yn galetach cynnal y berthynas honno ac nid oedd rhieni yr ymgynghorwyd â hwy yn yr astudiaeth hon yn ymwybodol, er enghraifft, y gellid cysylltu â chynghorwyr Gyrfa Cymru ar ôl pontio.

Gwneud penderfyniadau am lwybr pontio person ifanc

Arfer effeithiol

³⁴ Yn achos pobl ifanc, gellid dweud bod y rôl hon yn debyg i rôl "oedolyn y gellir ymddiried ynddo" (ODPM, 2005).

- 4.20. Mae pontio'n cynnwys dewisiadau. Mae'r cyfweiliadau â gweithwyr proffesiynol addysg a rhieni ar gyfer yr astudiaeth hon yn pwysleisio bod datblygu prosesau sy'n galluogi trafod penderfyniadau a'u gwneud (neu gytuno arnynt) gan wahanol randdeiliaid allweddol yn un o nodweddion allweddol arfer effeithiol.
- 4.21. Mae arfer effeithiol yn cynnwys dechrau gyda'r diddordebau a'r dyheadau a fynegwyd gan y dysgwyr, ac yna ystyried diddordebau a dyheadau rhanddeiliaid eraill (yn unol â chynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion). Lle mae diddordebau neu ddyheadau'n gwrthdaro, er enghraifft ynghylch y ddarpariaeth ôl-16 fwyaf addas ar gyfer person ifanc³⁵, mae angen proses ar gyfer eu cysoni (rhoddir enghraifft o hyn isod). Mewn rhai achosion helpodd gweithwyr cymorth i gyfryngu rhwng gwahanol randdeiliaid, gan helpu i ddatrys gwrthdaro³⁶. Fel yr amlinellir isod, mae arfer effeithiol hefyd yn cynnwys nodi'r ffactorau sy'n cyfyngu ar ddewis, trafod hyn yn agored ac yn onest, a meddwl yn greadigol am y ffordd orau o wireddu diddordebau a dyheadau pobl ifanc.

Nodi a chyd-drafod rhwng buddiannau sy'n cystadlu â'i gilydd: Materion i'w hystyried ac enghreifftiau o arfer effeithiol:

- 4.22. Fel y nodwyd uchod, pwysleisiodd rhai cyfweleion werth cael cynghorwyr pontio annibynnol a all ymgymryd â rôl "brocer gonest", ac nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw un lleoliad dysgu. Fel y mae'r enghraifft isod yn dangos, gall cynghorydd o'r fath dreulio amser yn siarad â rhieni, gofalwyr a phobl ifanc er mwyn deall problemau a gwrthdaro sylfaenol, a rhoi cyngor annibynnol cyn ac yn ystod pontio.

Stori Sarah a Karen

³⁵ Er enghraifft, mae arolwg Kaehne a Beyer (2009) o ymarferwyr AAA a phartneriaid eraill sy'n ymwneud â phontio o addysg uwchradd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, yn awgrymu bod ymarferwyr yn gwro'n eang o ran eu cydnabyddiaeth o ddeilliannau dymunol cynllunio ar gyfer pontio. Yn yr un modd, mae Franklin (2013) yn tynnu sylw at y diffyg cyfatebiaeth posibl rhwng yr hyn y mae pobl ifanc a'u teuluoedd yn eu nodi fel blaenoriaethau a'r blaenoriaethau a nodir gan wasanaethau.

³⁶ Gweler er enghraifft, LIC, 2013c ar werth gweithwyr allweddol pontio.

Esboniodd un o gynghorwyr Gyrfa Cymru fod Sarah'n gwbl argyhoeddedig bod yn rhaid i'w merch, Karen, fynd i goleg preswyl. Drwy dreulio amser gyda Sarah a gwranddo ar ei phryderon, roedd yn gallu nodi mai'r broblem go iawn oedd bod ofn arni na allai reoli ymddygiad ei merch gartref mwyach.

Am nad oedd rôl y cynghorydd wedi'i chyfyngu gan yr hyn y gallai lleoliad penodol ei gynnig roedd yn gallu ymateb mewn ffordd gyfannol, gan gynnwys cael gwasanaethau tai â chymorth i chwarae rhan yn y broses o gynllunio pontio, a threfnu i Sarah a'i merch ymweld â'r coleg lleol. Yn y diwedd aeth Karen i mewn i dai â chymorth, gyda chlodiant yn cael ei drefnu i'r coleg ac ymunodd â chwrs yn ei choleg lleol. Mae Sarah yn fodlon bod ateb parhaol wedi'i ganfod a bod ei merch yn agos ac yn cael ei chynorthwyo i fyw'n annibynnol.

- 4.23. Roedd rhai o'r ymatebwyr i'r astudiaeth yn teimlo bod plant sy'n derbyn gofal o dan anfantais o ran pontio³⁷. Mynegwyd pryderon yn benodol am y gwrthdaro buddiannau posibl lle y byddai'n rhaid i'r rhiant corfforaethol (yr awdurdod lleol) benderfynu a ddylid cyllido darpariaeth ddrud i'r dysgwr, a phwysigrwydd yn sgil hynny o gynnwys asiantaethau eraill a allai herio penderfyniadau yn y broses gynllunio. Rhoddwyd enghreifftiau o sut y gallai pobl ifanc sy'n derbyn gofal fod wedi profi sawl achos o symud yn ystod cyfnodau allweddol gyda tharfu ar ddysgu o ganlyniad i hynny a all wneud eu pontio yn llawer mwy cymhleth ac anodd. Fel y mae profiad Carl (a drafodir isod) yn ei ddangos, gall eiriolaeth annibynnol fod yn bwysig yma o ran sicrhau bod budd plant sy'n derbyn gofal yn cael eu hyrwyddo yn y broses o gynllunio pontio.

Stori Carl: gweithredu er budd pennaf plentyn sy'n derbyn gofal

Mae Carl yn derbyn gofal gan yr ALI ac mewn cyfarfod adolygu teimlwyd y

³⁷ Mae cyfran y plant sy'n derbyn gofal (gydag anabled neu anhawster dysgu neu heb hynny) y mae'n hysbys eu bod yn 'NEET' yn 19 oed (40%) yn llawer uwch na'r gyfran o'r holl bobl ifanc 19 oed a hŷn (Ffynhonnell StatsCymru: y rhai sy'n gadael gofal ar eu 19fed pen-blwydd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth fesul awdurdod lleol a gweithgaredd, 2015).

byddai ei fuddiannau wrth bontio'n cael ei fodloni orau gan goleg arbenigol. Ar gyfer y gweithiwr cymdeithasol dan sylw roedd hyn yn creu gwrthdaro oherwydd, er y gall yr angen gael ei gydnabod, roedd yn pryderu y byddai ei adran yn cwestiynu'r gost dan sylw. Felly roedd yn bwysig iawn i Carl a'r gweithiwr cymdeithasol bod y broses gynllunio'n cynnwys pobl o asiantaethau eraill a allai eirioli ar ran Carl ac a oedd yn gallu bod yn annibynnol ar y broses o wneud penderfyniadau ariannol. Roedd y ffaith bod proses o wneud penderfyniad grŵp, amlasiantaeth hefyd yn sicrhau bod y cynllun pontio'n datblygu ac yn cael ei drin o ddifrif ac y gweithredwyd arno.

- 4.24. Mae dewisiadau'n cael eu llywio gan amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys anghenion pobl ifanc, eu diddordebau a'u dyheadau a'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael iddynt. Lle mae prin yw'r dewisiadau, efallai fod rhieni'n credu bod cyfleoedd yn cael eu “dogni” neu eu cuddio. Er enghraifft, er bod nifer bach o raglenni, fel rhaglen Hyfforddeiaeth Llywodraeth Cymru, sy'n cynnig darpariaeth cwbl hyblyg i bobl ifanc â rhwystrau lluosog neu gymhleth, nodwyd bod gwendidau penodol o ran argaeledd opsiynau dysgu seiliedig ar waith i bobl ifanc ag AAD (gweler hefyd e.e. Beyer, et al, 2014). Golygai hyn bod dibyniaeth ar golegau AB i ddiwallu bron pob angen. Fel y dywedodd un cynghorydd pontio: *“os nad mynd i'r coleg, beth all pobl [ifanc] ei wneud?”*. Dywedodd llawer o'r rhanddeiliaid fod mynd i'r coleg yn opsiwn diofyn oherwydd diffyg opsiynau eraill ac, er ei fod y tu hwnt i gwmpas yr astudiaeth hon, ymddengys fod datblygu dewisiadau eraill yn lle darpariaeth AB yn faes i'w ddatblygu (gweler e.e. Beyer, et al, 2014).
- 4.25. Mae anhyblygrwydd peth o'r ddarpariaeth hefyd yn cyfyngu ar bontio. Rhoddwyd enghreifftiau o bobl ifanc yn gadael yr ysgol arbennig yn gynharach nag y byddent wedi dewis gwneud fel arall er mwyn cael mynediad i ddysgu seiliedig ar waith pan oeddent yn dal yn 18 oed, am na fyddent yn gallu cael mynediad i'r ddarpariaeth pe baent yn hŷn.
- 4.26. Gall dewisiadau ar gyfer rhai grwpiau o ddysgwyr fod yn fwy cyfyngedig na'r rhai ar gyfer grwpiau eraill, neu gallant ymddangos yn fwy cyfyngedig; er enghraifft, nododd adolygiad diweddar Estyn o rwystrau rhag prentisiaethau (Estyn, 2014a) amrywiaeth o rwystrau sy'n atal dysgwyr ag anableddau (a hefyd y rhai o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig) rhag ymgymryd â rhaglenni prentisiaeth; maent yn cynnwys:
- “diffyg ymwybyddiaeth o brentisiaethau gan rieni, cyflogwyr a dysgwyr eu hunain;

- ychydig iawn o fodolau rôl prentisiaeth o blith y cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig neu grwpiau pobl anabl;
- anawsterau o ran dod o hyd i leoliadau gwaith addas, yn enwedig lle mae cyflogwyr o'r farn y bydd angen darparu cymorth ychwanegol i ddysgwyr;
- gwahaniaethu go iawn neu ganfyddedig;
- diffyg manteisio ar y cymorth sydd ar gael i ddysgwyr neu beidio â'i ddefnyddio'n llawn;
- pryder rhieni na fydd y bobl ifanc yn gallu ymdopi o bosibl; a
- chydlynu annigonol rhwng ysgolion, cyflogwyr, darparwyr DYYG a sefydliadau cymunedol lleol i hyrwyddo prentisiaethau" (Estyn, 2014a, t.3).

4.27. Er y gall yr opsiynau fod yn gyfyngedig, bydd pontio addysgol bob amser yn cynnwys rhywfaint o ddewis (gan gynnwys y dewis i beidio â pharhau mewn addysg). Mae meddwl yn greadigol am y ffordd orau o wireddu diddordebau a dyheadau pobl ifanc, a gweithredu ar lefel strategol i gynyddu dewis (trafodir hyn isod mewn perthynas ag arweinyddiaeth systemau), hefyd yn bwysig.

Llunio Cynlluniau Gweithredu

Arfer effeithiol

- 4.28. Pan fydd penderfyniadau am ddewis pontio'r person ifanc wedi'u gwneud, y cam nesaf yw llunio cynllun gweithredu ac mae'r Cod Ymarfer AAA, cyfweleion a'r llenyddiaeth a adolygwyd ar gyfer yr astudiaeth hon (e.e. Sloper et al., 2010) i gyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd hyn. Mae llunio cynlluniau gweithredu yn un o nodweddion allweddol arfer effeithiol am ei fod yn galluogi ac yn sicrhau y gellir gweithredu penderfyniadau ac adolygu cynnydd.
- 4.29. Mae llunio cynlluniau gweithredu sy'n cysylltu nodau â champau gweithredu i'w gwireddu; yn nodi rhwystrau a risgiau ac yn cynllunio sut i'w lleihau neu eu rheoli; ac yn ymgorffori proses o adolygu (er enghraifft, i fonitro cynnydd ac, os yw'n angenrheidiol, i ddiwygio'r cynllun), i gyd yn nodweddion arfer effeithiol.

Materion i'w hystyried ac enghreifftiau o arfer effeithiol

- 4.30. Mae angen i'r rhanddeiliaid allweddol gytuno ar y nodau a'r camau gweithredu sy'n angenrheidiol i wireddu dyheadau pobl ifanc a diogelu a pharchu diddordebau rhanddeiliaid, a bydd hyn fel arfer yn cael ei gofnodi mewn cynllun pontio. Fel y mae stori Dwynwen (isod) yn dangos, gall diddordebau a dyheadau pobl ifanc, a'r opsiynau sydd ar gael iddynt, newid. Felly, dylai cynllun pontio fod yn ddogfen fyw sy'n llywio ac yn arwain camau gweithredu. Dylai'r cynllun gael ei adolygu'n rheolaidd ac, os yw'n angenrheidiol, dylid ei ddiwygio.

Stori Dwynwen

Mae Dwynwen, sy'n astudio Safon Uwch yn yr ysgol yn myfyrio'n gadarnhaol ar ei chynllun pontio, gan ei ddisgrifio fel cynllun "*manwl, cynhwysfawr a chefnogol*". Roedd yn teimlo ei bod wedi cael ei chynnwys yn llawn yn y broses a'i bod yn cael ei hannog gan yr ysgol i leisio'i barn. Roedd yn bwysig iddi bod y cynllun yn cael ei weld fel rhywbeth y gellir ei newid a'i ddatblygu dros amser, am ei bod wedi penderfynu dilyn llwybr gyrfa gwahanol (ac felly dewisiadau pwnc gwahanol) na'r hyn a benderfynwyd ganddi yn wreiddiol. Roedd yn hefyd yn hapus bod ei rhieni'n fodlon ar y dewisiadau a wnaed ganddi. Nododd Dwynwen sut roedd y cymorth gan y staff allweddol yn yr ysgol (yn yr achos hwn, y Cynghorydd Gyrfaoedd, y Cydlynnydd AAA a'r Pennaeth) wedi gwneud y cynllun yn werth chweil; er enghraifft, amlinellwyd sgiliau cyfweld fel maes allweddol ar gyfer ei datblygiad a rhoddwyd ffug gyfweliadau iddi er mwyn helpu gyda hyn.

- 4.31. Mae angen i'r broses o lunio cynlluniau gweithredu ystyried systemau cyllido a strwythur y cyfleoedd sydd ar gael. Mae'r canlynol ymhlith y ffactorau i'w hystyried:

- yr amrywiaeth o opsiynau ôl-16 sydd ar gael yn lleol a sut y maent yn cydfynd â diddordebau, anghenion ac oedran dysgwyr;
- y cyllid sydd ar gael a'i hyblygrwydd, a all fod yn gymhleth lle mae angen cyllid ar y cyd ar gyfer gofal personol neu ddarpariaeth breswyl arbenigol³⁸;
- i ba raddau y mae lleoliadau a phrosesau'n canolbwyntio ar y gwasanaeth, yn hytrach na'r unigolyn; a/neu
- effeithiolrwydd cydweithio rhwng rhanddeiliaid.

Cydlynu

Arfer effeithiol

4.32. Mae'r Cod Ymarfer³⁹, y cyfweiliadau a'r llenyddiaeth a adolygwyd ar gyfer yr astudiaeth hon (e.e. Llywodraeth Cymru 2013c; Sloper et al, 2010) i gyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydlynu (neu reoli) o ran y broses cynllunio pontio. Dyma un o nodweddion allweddol arfer effeithiol oherwydd yr amrywiaeth o randdeiliaid sy'n ymwneud â'r broses a'r angen i gydlynu a monitro eu cyfraniad at gynllun a chamau gweithredu. Gall cydlynu effeithiol hefyd helpu i sicrhau bod gweledigaeth a rennir y gall pawb dan sylw ei deall ac y maent yn gweithio tuag ati, a bod canolbwynt ar y nod hirdymor a'r camau canolraddol sydd eu hangen i'w gyrraedd⁴⁰.

Materion i'w hystyried ac enghreifftiau o arfer effeithiol

³⁸ Er enghraifft, nododd astudiaeth ddiweddar o ddarpariaeth yng Nghymru ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth "complexity, uncertainty and fragility of the funding arrangements for personal support of students attending FE provision" (Townshley et al., 2013, t.152) a nododd adolygiad 2010 o gyllid i bobl ifanc ag ADY mewn ysgolion ac addysg bellach: "mae natur gymhleth y broses gyfredol yn golygu na wneir penderfyniadau prydlon bob amser yn ymwneud â dewisiadau dysgwyr ar gyfer eu dyfodol" (LIC, 2010, t.2).

³⁹ O dan God Ymarfer AAA Cymru, mae'r cyfrifoldeb ar gyfer cydlynu wedi'i rannu: "Pennaeth yr ysgol sy'n gyfrifol am oruchwylio a chydlynu'r gwaith o weithredu'r cynllun trawsnewid. Gyrfa Cymru fydd â'r rhan arweiniol yn y gwaith o sicrhau bod yr elfennau o'r Cynllun Trawsnewid sy'n ymwneud â'r newid ym mywyd y person ifanc i addysg bellach neu waith" (t 130, LIC, 2004a).

⁴⁰ Er enghraifft, efallai y bydd gan weithwyr proffesiynol, pobl ifanc a rhieni bersbectif amser gwahanol o ran llinell amser. Yn aml mae gan weithwyr proffesiynol safbwynt o ran deiliant – i ble y bydd y person ifanc yn mynd nesaf. Mewn gwrthgyferbyniad, mae rhieni a phobl ifanc yn fwy tebygol o feddu ar safbwynt effaith – h.y. pa wahaniaeth y bydd y deiliant hwnnw yn ei wneud a lle y bydd y person ifanc yn ei gyrraedd yn y pen draw.

- 4.33. Gall nifer o bobl gydlynu'r broses. Dylai'r person sy'n fwyaf priodol i ymgymryd â'r rôl fod yn rhywun sy'n rhoi budd y person ifanc yn gyntaf, sy'n meddu ar y sgil, yr awdurdod a'r amser sydd eu hangen i gydlynu'r broses, ac sy'n cael cymorth y rhanddeiliaid allweddol yn y broses. Gellir dweud bod y rôl yn debyg i un "gweithiwr proffesiynol arweiniol" (ODPM, 2005)⁴¹ ac, fel y dengys yr enghraifft isod, gall gweithwyr allweddol pontio chwarae rhan allweddol yma.

Prosiectau Peilot y Gweithiwr Allweddol Pontio

Ym mis Mehefin 2008, gwahoddwyd awdurdodau lleol i wneud cais i Lywodraeth Cymru am gyllid i ddod yn safleoedd peilot gweithio allweddol pontio. Sefydlwyd pum cynllun peilot. Sefydlodd pedwar o'r safleoedd wasanaeth gweithiwr allweddol dynodedig, yn cynnwys gweithwyr proffesiynol wedi'u cyflogi'n benodol i ymgymryd â rôl gweithio allweddol pontio. Datblygodd y cynllun peilot arall fodel gweithiwr allweddol heb ei ddynodi. Roedd hyn yn cynnwys naill ai (a) gweithwyr proffesiynol yn darparu gwasanaeth gweithio allweddol i rai teuluoedd tra hefyd yn ymgymryd â'r rôl y maent wedi'i chyflogi ynddi yn bennaf, fel nyrs gymunedol, neu (b) rieni neu ofalwyr sy'n darparu gwasanaeth gweithio allweddol ar gyfer eu plentyn.

Dangosodd adroddiad ar gostau a manteision pum prosiect gweithiwr allweddol pontio yng Nghymru (LIC, 2012) fod pobl ifanc ag anawsterau dysgu a/neu anabledau a'u teuluoedd yn teimlo ar y cyfan bod eu profiad o bontio wedi'i wella drwy rôl y gweithiwr allweddol. Roedd ganddynt well gwybodaeth ac yn gwerthfawrogi'r cymorth emosiynol ac ymarferol a gynigir. Roedd llai o dystiolaeth o effaith ar ddeilliannau pontio o'r cynlluniau peilot gweithio allweddol, yn rhannol oherwydd prin oedd y deilliannau o bontio o gynlluniau peilot allweddol, yn rhannol oherwydd prin oedd y bobl ifanc a oedd yn rhan o'r peilot a oedd wedi gadael addysg neu hyfforddiant, ond hefyd oherwydd

⁴¹ Mae rôl y gweithiwr proffesiynol arweiniol yn canolbwyntio ar sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cydgysylltu, bod gwybodaeth yn cael ei rhannu, ac yn helpu i: gadw "tirwedd" y gwasanaeth yn syml ar gyfer y person ifanc (t. 76, ODPM, 2005; SEU, 1999, t.85)

bod y dewisiadau sydd ar gael i bobl ifanc yn aml yn gyfyngedig.

- 4.34. Mewn rhai achosion, gall rhiant neu ofalwr fod yn y sefyllfa orau i gydlynu'r broses bontio. Fodd bynnag, nododd rhai rhieni y cyfwelwyd â hwy gan yr astudiaeth hon eu bod wedi'u gorfodi i ymgymryd â'r rôl am nad oedd unrhyw arall yn ei gwneud. Nid yw rhieni o reidrwydd yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a/neu'r amser i gydlynu'r broses. Nodwyd hefyd nad oedd unrhyw werth mewn cael rhywun annibynnol i gydlynu oherwydd y potensial y gall diddordebau a dyheadau'r person ifanc a'r rhiant/gofalwr wrthdaro â'i gilydd.

5. Paratoi pobl ifanc, eu rhieni a'u gofawyr a'u lleoliadau ar gyfer pontio

- 5.1. Ar ôl i benderfyniadau am bontio person ifanc gael eu gwneud (e.e. i ba ddarparwr ac i ba gwrs), mae'n bwysig paratoi pobl ifanc, rhieni a gofawyr a lleoliadau ôl-16 ar gyfer y llwybr pontio a ddewisir. Mae elfennau allweddol arfer effeithiol, materion i'w hystyried, ac enghreifftiau o arfer effeithiol wedi'u hamlinellu yn yr adran hon a cheir crynodeb ohonynt yn Nhabl 4 yn yr atodiad.

Paratoi a grymuso pobl ifanc a rhieni a gofawyr

Arfer effeithiol

- 5.2. Mae'r Cod Ymarfer, cyfweleion a'r deunydd darllen a adolygwyd ar gyfer yr astudiaeth hon (e.e. Sloper, et al, 2010) i gyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd paratoi pobl ifanc a rhieni a gofawyr ar gyfer pontio. Mae hyn yn nodwedd allweddol o arfer effeithiol oherwydd bod pontio o angenrheidrwydd yn cynnwys newid. Mae'n bwysig nodi effaith bosibl newidiadau (gan gynnwys rhwystrau posibl i bontio) a pharatoi pobl ifanc a rhieni a gofawyr ar gyfer y rhain. Fel yr amlinellir yn ddiweddarach yn yr adran hon, mae hefyd yn gallu bod yn bwysig lleihau'r tarfu ar ddysgwyr wrth bontio drwy, er enghraifft, baratoi'n effeithiol, gan gynnwys gwneud newidiadau i ddarpariaeth a chymorth, er mwyn diwallu anghenion dysgwyr.⁴²
- 5.3. Mae grymuso dysgwyr yn nodwedd bwysig o baratoi oherwydd bod dysgwyr eu hunain yn chwarae'r rôl allweddol wrth gynnal pontio a dilyniant mewn addysg. Er nad yw'n nodwedd gref o'r Cod Ymarfer a phrin y cafodd ei amlygu gan gyfweleion ar gyfer yr astudiaeth hon, mae sgiliau cymdeithasol ac emosïynol dysgwyr, fel hunaneffeithiolrwydd, wedi'u nodi gan ymchwil arall fel

⁴² Gellir ystyried hyn fel dull sy'n canolbwyntio ar y "person" yn hytrach na'r 'gwasanaeth', sy'n newid darpariaeth a chymorth i ddiwallu anghenion pobl ifanc, yn hytrach na disgwyl i bobl ifanc addasu i wasanaethau (neu ddarpariaeth),

elfennau sy'n arbennig o bwysig (Milsom et al., 2004; Cummings, Maddux a Casey, 2000).

Materion i'w hystyried ac enghreifftiau o arfer effeithiol

- 5.4. I bobl ifanc ag AAD a'u rhieni neu eu gofalwyr, mae'r syniad o adael yr ysgol yn gallu bod yn gythryblus iawn. Fel mae stori Arwenna (isod) yn dangos, mae pontio o ysgol arbennig, neu uned anghenion arbennig, i goleg prif ffrwd yn gallu bod yn heriol iawn i rai dysgwyr.

Stori Arwenna

Am y pum mlynedd ddiwethaf, roedd Arwenna wedi bod mewn dosbarth gyda'r un pum disgybl arall. Roeddent yn adnabod ei gilydd yn eithriadol o dda ac roedd tîm cefnogol iawn yn gweithio gyda hwy. Er ei bod mewn ysgol brif ffrwd, roedd Arwenna'n treulio'i holl amser yn yr uned anghenion arbennig fach ac annibynnol. Roedd hi'n edrych ymlaen at bontio ac ymwelodd â dau goleg. Dewisodd y coleg y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yr ysgol yn mynd iddo a'r cwrs maen nhw fel arfer yn ei ddilyn. Fodd bynnag, pan ddechreuodd hi roedd y nifer yn y dosbarth, ac ymddygiad hwyliog rhai o'r myfyrwyr eraill, yn drech na hi'n llwyr. Allai hi ddim ymdopi ac roedd hi bron â rhoi'r gorau iddi, ond roedd ei mam yn gallu ymyrryd a symudodd hi i gwrs arall gyda grŵp llai, tawelach o fyfyrwyr gyda chymorth pwrpasol yn yr ystafell ddosbarth.

- 5.5. Mae'r problemau mae rhai dysgwyr yn gallu eu cael yn ystod pontio'n aml yn tarddu o rwystrau fel:
- materion yn ymwneud ag agwedd neu gymeriad sy'n gysylltiedig â sut mae dysgwyr yn meddwl a'u teimladau, fel ofn a phryder am newid;
 - materion cymdeithasol ac emosiynol sy'n ymwneud â gorfod addasu i bobl newydd ac uniaethu â myfyrwyr eraill;
 - materion sefydliadol yn ymwneud â sut mae'r lleoliad yn cael ei drefnu, fel y cymorth sydd ar gael;
 - materion o ran sefyllfa sy'n ymwneud ag anghenion ac amgylchiadau dysgwyr, fel yr angen i deithio a gallu person ifanc i deithio'n annibynnol.

5.6. Ar ôl eu nodi a'u deall, fel mae'r astudiaeth achos coleg (isod) yn dangos, gellir mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn drwy, er enghraifft:

- roi gwybodaeth a chynghor i ddysgwyr a'u rhieni neu eu gofalwyr;
- gweithio gyda dysgwyr i'w grymuso drwy feithrin eu sgiliau (fel hunaneffeithiolrwydd) a'u cadernid, gan olygu y gallant oresgyn rhwystrau eu hunain yn well; a/neu
- gweithio gyda lleoliadau dysgu, darparwyr a gwasanaethau i wella'u harferion (mynd i'r afael â rhwystrau sefydliadol a gwella'r cymorth a gynigir i ddysgwyr).

Cynnwys rhieni wrth baratoi i bontio i'r coleg

Disgrifiodd un coleg yr amrywiaeth o gamau a gymerir i sicrhau bod y person ifanc a'r rhieni/gofalwyr yn cael digon o wybodaeth a bod ganddynt berthynas dda â'r coleg. Roedd y camau hyn yn cynnwys:

- anfon staff y coleg i ysgol y dysgwr i weld sut mae'r dysgwr yn gweithio yn amgylchedd yr ysgol (hyd at bum diwrnod gwaith);
- ymweliadau tymor yr haf â'r campws gan y gofalwyr/rhieni a'r person ifanc i ymgyswrtu â'r adeiladau a'r amgylchedd cyffredinol;
- darparu gweithiwr cymorth y mae ganddo ddiddordebau tebyg i'r person ifanc, (e.e. hobiau fel celf); mae gan y gweithwyr cymorth hyn rifau ffôn symudol rhieni/gofalwyr hefyd fel y gellir cysylltu â nhw'n hawdd, sy'n digwydd yn aml yn y misoedd cyntaf;
- rhieni'n ymweld â'r coleg am ddau gyfnod ar eu pennau eu hunain a gwylio'u plentyn yn y coleg er mwyn rhoi adborth ar welliannau y gallai'r coleg eu gwneud;
- annog rhieni i gwrdd, siarad â'i gilydd a chefnogi ei gilydd.

Soniodd ymgynghorydd pontio y bu'n gweithio gyda choleg arall i gynnal sesiynau anffurfiol i rieni ar ôl blwyddyn pan oedd pontio wedi'i drin y wael.

Roedd hi'n gwybod y byddai rhieni efallai'n clywed straeon gwael o'r flwyddyn flaenorol, felly gweithiodd gyda'r coleg i sicrhau na fyddai'r un

camgymeriadau'n digwydd eto, ac i roi sicrwydd i rieni y byddai eu profiadau'n wahanol.

- 5.7. Pan fydd lleoliadau'n cydweithio gellir goresgyn llawer o rwystrau i bontio. Roedd yr holl randdeiliaid o'r farn bod partneriaethau rhwng lleoliadau, fel ysgolion a cholegau, yn bwysig. Mae cydweithio ac arweinyddiaeth systemau (y mae'r ddau'n sail i waith partneriaeth effeithiol) yn cael eu trafod ymhellach yn ddiweddarach yn yr adran hon.

Gweithgareddau pontio a chysylltu: materion i'w hystyried ac enghreifftiau o arfer effeithiol

- 5.8. Yr enghreifftiau o nodwyd amlaf o sut mae rhwystrau i bontio'n cael eu goresgyn oedd gweithgareddau pontio a chysylltu (a ddangosir gan yr enghreifftiau isod), y gwelwyd eu bod yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ac, mewn rhai achosion, eu rhieni neu eu gofalwyr, i ymgylchwyddo â'r amgylchedd newydd a magu hyder y tu mewn iddo.

Enghreifftiau o weithgareddau cysylltu a phontio

Soniodd coleg ei fod yn trefnu ymweliadau coleg i ddysgwyr ag AAD er mwyn rhoi mwy o gyngor i ddysgwyr, gadael iddynt gwrdd â darpar fyfyrwyr a chael ymdeimlad go iawn o fywyd yn y coleg. Mae'n gallu darparu chwech neu saith sesiwn yn y coleg cyn i ddysgwyr ddechrau eu cwrs newydd i'w helpu i addasu i fywyd coleg. Mae rhai ysgolion yn anfon gweithiwr cymorth y mae'r dysgwr yn ei adnabod i sicrhau bod wyneb cyfarwydd yno iddo yn yr ychydig ymweliadau cyntaf. Maent hefyd yn annog rhieni i ddod â dysgwyr i'r coleg i ddefnyddio'r cantîn a chyfleusterau eraill, fel eu bod nhw'n gallu arfer ag amgylchedd cyfan y coleg.

Mae pobl ifanc o un ysgol yn dechrau ymweld â'r coleg lleol ym Mlwyddyn 10. Maen nhw'n cymryd rhan mewn sesiynau rhagflas a gweithgareddau coleg, fel defnyddio'i gegin ar gyfer gwersi coginio. Yn nes ymlaen yn y flwyddyn,

bydd y dysgwyr yn cymryd rhan mewn dau ddiwrnod sefydlu coleg a fydd yn cynnwys cael eu codi yn yr ysgol gan fws mini'r coleg a chwrdd â staff a dysgwyr eraill sy'n gwneud cais am y cwrs. Yn hanfodol, maen nhw hefyd yn cael y cyfle i gwrdd a siarad â chyn-ddisgyblion sydd bellach yn mynd i'r coleg am eu profiadau. Mae gan y coleg gyfleuster addysgu arbenigol a thîm astudiaethau â chymorth, y mae dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr yn cael gwybod amdanynt, sy'n helpu i leddfu pryderon ynghylch pontio ymhellach.

Mae ysgol arall yn cynnal digwyddiadau cymdeithasol i ddod â dysgwyr o nifer o ysgolion arbennig sy'n bwriadu mynd i'r un coleg at ei gilydd fer mwyn iddynt allu dod i adnabod ei gilydd cyn pontio.

Mewn trydedd ysgol, mae staff yn cefnogi dysgwyr i fynd i gyfweiliadau a sesiynau rhagflas mewn colegau a phrifysgolion. Ar gyfer pontio llwyddiannus, maent o'r farn bod perthynas dda â staff allweddol yn bwysig yn y sefydliadau hyn gan ei fod yn hwyluso proses trefnu gweithgareddau pontio. Anogir cyswllt anffurfiol â staff allweddol, sy'n parhau pan fo'r person ifanc yn dal i ymgyfarwyddo â'r sefydliad. Lle y bo'n ymarferol bosibl, mae'r ysgol yn addasu ei lefel o gymorth yn ôl yr angen; er enghraifft, cafodd un person ifanc ag anghenion penodol 20 o ymweliadau â'r coleg cyn pontio, gan fynd o sefyll y tu allan i'r coleg i ddechrau, i fynd ymlaen i gwrs rhagflas.

- 5.9. Yn ogystal â gosod gweithgareddau pontio sy'n canolbwyntio ar y lleoliad, sy'n helpu dysgwyr i baratoi i symud, mae gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar y math o rwystr y mae ADD penodol yn ei gyflwyno; er enghraifft, mae gan Brifysgol Caerdydd raglen i ddysgwyr ag anhwylderau'r sbectwm awtistig i'w helpu i baratoi at AU a bywyd myfyriwr, gan gynnwys mynd i ysgol haf⁴³ sy'n canolbwyntio ar agweddau cymdeithasol a hunanreoli bywyd prifysgol.

Cludiant i ddysgwyr: Materion i'w hystyried ac enghreifftiau o arfer effeithiol

- 5.10. Ystyriwyd bod cludiant a theithio'n ffactor pwysig ym maes cynllunio pontio; er enghraifft, fel y nododd un coleg: "mae cludiant yn rhwystr mawr, os nad yw

⁴³ <http://www.cardiff.ac.uk/news/view/33005-summer-school>

dysgwyr yn gallu defnyddio cludiant cyhoeddus neu os nad yw eu rhieni am iddyn nhw wneud hynny". Hefyd, nodwyd bod maint rhai colegau, sydd yn aml yn recriwtio o sawl ALI â pholisïau gwahanol ar fynediad i gludiant, yn achosi problemau i rai dysgwyr.

- 5.11. Yn 2011, comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil i ymchwilio i ddarparu cludiant i bobl ifanc 19-25 oed ag anghenion ychwanegol (Thorntwaite, 2011). Nododd yr ymchwil, a nodwyd yn Townsley et al. (2013) y canlynol:
- mae'n anodd dod o hyd i gludiant i'r coleg ac oddi yno a'i ariannu i bobl ifanc 19 a hŷn;
 - mae gan awdurdodau lleol reolau gwahanol am ddarparu a/neu ariannu cludiant;
 - yn aml, nid yw awdurdodau lleol yn deall anghenion pobl ifanc yn llwyr wrth wneud penderfyniadau am ariannu cludiant ai peidio;
 - mae penderfyniadau gan awdurdodau lleol am gymhwystra ar gyfer cludiant i'r coleg yn gallu cael eu gwneud yn hwyr iawn ac, weithiau, ddyddiau cyn dechrau'r tymor newydd;
 - mae rhai colegau'n ddarparu cludiant ac, weithiau, mae hyn yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir i bob coleg;
 - mae diffyg gwybodaeth i egluro'r cynnig lleol a wneir gan golegau ac awdurdodau lleol;
 - yn absenoldeb cyllid ar gyfer cludiant, gofalwyr teuluol sy'n gyfrifol am hyn. Weithiau, mae hyn yn golygu na fydd dysgwyr yn gallu derbyn lleoedd yn y coleg a gynigiwyd iddyn nhw".
- 5.12. Yn ychwanegol at y rhwystrau hyn, efallai na fydd gan y dysgwyr ddigon o hyder neu sgiliau i ddefnyddio gwasanaethau cludiant. Pwysleisiodd rhieni a gweithwyr proffesiynol werth prosiectau fel *Cyfleoedd Gwirioneddol* a ddarparodd hyfforddiant teithio sy'n helpu dysgwyr i ddatblygu'r hyder a'r sgiliau i ddefnyddio cludiant cyhoeddus.

Paratoi lleoliadau ar gyfer pontio

Arfer effeithiol:

5.13. Mae'r Cod Ymarfer AAA, y cyfweleion a'r llenyddiaeth a adolygwyd ar gyfer yr astudiaeth hon (Milson, Akos a Thompson 2010, Sloper et al. 2010) i gyd yn amlygu pwysigrwydd lleoliadau ôl-16 yn paratoi ar gyfer pontio dysgwyr. Mae hyn yn nodwedd allweddol o arfer effeithiol oherwydd y bydd colegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a phrifysgolion efallai'n gorfod paratoi ar gyfer dysgwyr ag AAD mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys:

- addasiadau ffisegol (er enghraifft, sicrhau mynediad i gadeiriau olwyn);
- newidiadau mewn arferion gwaith (er enghraifft ymateb i anghenion rhai dysgwyr ar gyfer manau dysgu tawelach);
- newidiadau mewn gweithluoedd (fel recriwtio a hyfforddiant i sicrhau bod cymorth digonol a bod gan y staff y wybodaeth angenrheidiol).

5.14. Ar gyfer paratoi mae angen dealltwriaeth drwyadl o anghenion dysgwyr, (e.e. drwy gyfnewid gwybodaeth ag ysgolion) ac amser i roi newidiadau ar waith, yr ydym yn ei drafod ymhellach isod. Mae cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith wrth drefnu bod eu darpariaeth yn hygyrch i ddysgwyr ag AAD.

Cyfnwid gwybodaeth: Materion i'w hystyried ac enghreifftiau o arfer effeithiol

5.15. Y ffyrdd a nodwyd amlaf roedd colegau'n paratoi at bontio oedd cael gwybod am ddyheadau ac anghenion y person ifanc. Fel mae'r enghraifft isod yn dangos, gwnaed hyn drwy fynd i gyfarfodydd adolygu, rhannu cynlluniau a dogfennau, fel cynlluniau unigol, Cynlluniau Dysgu a Sgiliau⁴⁴, pasbortau cyfathrebu personol a datganiadau AAA a thrafod â chydlynwyr AAA. Er enghraifft, esboniodd ymgynghorydd Gyrfu Cymru y bydd Cynlluniau Dysgu a Sgiliau *“yn cynnwys gwybodaeth am unrhyw gefnogaeth y mae ei hangen*

⁴⁴Fel yr amlinellwyd yn Adran 3, cynhelir asesiad Adran 140 gan Gyrfu Cymru ar ran Gweinigogion Cymru, i bobl ifanc â datganiad AAA y disgwylir iddynt bontio i addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae ansawdd asesiadau'n dibynnu i raddau helaeth ar ansawdd y wybodaeth a roddir, er enghraifft, gan ysgol ac, fel yr esboniodd un athro, roeddent yn gweithio'n agos gyda Gyrfu Cymru “i sicrhau bod y Cynllun Dysgu a Sgiliau'n iawn”.

arno [y person ifanc] wrth fynd ymlaen i'r coleg" ac, fel yr esboniodd un coleg: *"mae'r cyfarfodydd â'r ysgolion wedi gwella pontio'n sylweddol"*. Mewn nifer bach o achosion, nododd gweithwyr proffesiynol enghreifftiau hefyd o lle roeddent wedi treulio amser gyda'r person ifanc, trefnu dod i'w lleoliad a/neu siarad â rhieni neu ofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill, wrth baratoi i'r dysgwr bontio.

- 5.16. Nodwyd bod y cyfnewid gwybodaeth hwn weithiau'n parhau ar ôl pontio; er enghraifft esboniodd un ysgol: *"mae cysylltiadau'n parhau y tu hwnt i'r cyfnod pontio ac mae cyswllt anffurfiol yn parhau am ychydig o fisoedd wrth i'r person ifanc ymgysylltu. Mae'r cydlynnydd AAA wedi ymweld â'r coleg ar adegau i fynd i'r afael â materion penodol gyda dysgwr"*.

Nodi pontio dysgwyr a pharatoi ato

Esboniodd un coleg ei fod e'n mynd yn ôl at yr ysgol coleg am fwy o wybodaeth os bydd ymgeisydd yn rhoi AAD ar ei gais. Mae'n ceisio mynd i gynifer o adolygiadau ag y bo modd a cheisio cwrdd â'r cydlynnydd AAA yn yr holl ysgolion yn ei ranbarth (oddeutu 30 i gyd) a bydd hefyd yn e-bostio ysgolion i gael mwy o wybodaeth.

Bydd yn trafod ei holl ddysgwyr ag ADD ag ysgolion a beth yw eu gofynion. Mae hyn yn cynnwys cael gwybod eu hanghenion cymorth mynediad arholiadau, pa gymorth mae'r ysgol yn meddwl y bydd ei angen ar y myfyriwr, a nodi a oes unrhyw beth ychwanegol y gallai'r ysgol ei ddweud wrtho a fyddai'n cynorthwyo wrth ei helpu i ddiwallu anghenion y dysgwr. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar y cymorth a roddwyd i'r dysgwr yn y ddwy flynedd ddiwethaf i sicrhau bod ei hymagwedd yn berthnasol ac yn gyfoes.

Esboniodd coleg arall ei fod e'n mynd i'r ysgolion ym Mlwyddyn naw pan gaiff wybodaeth o adolygiadau blynyddol AAA. Ym Mlwyddyn 10, maent yn cael eu cynnwys yn fanylach. Mae tiwtoriaid personol a'r tîm cymorth pontio'n ymweld ag ysgolion i gasglu cymaint o wybodaeth ag y bo modd. Maent yn casglu

gwybodaeth gan yr ysgolion, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ac asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r person ifanc. Nodwyd bod ganddynt rwydwaith ardderchog â'u partneriaid ond mae mynd i'r holl gyfarfodydd yn gallu bod yn heriol.

- 5.17. Roedd y mathau o wybodaeth a werthfawrogwyd yn arbennig gan weithwyr proffesiynol yn cynnwys dewisiadau'r person ifanc yn ogystal â'i anghenion (fel "Dwi'n hoffi.. Dwi ddim yn hoffi....") a gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio iddynt hwy (fel dulliau ac ymagweddau addysgu).
- 5.18. Nododd prifysgolion anawsterau mwy wrth sicrhau'r wybodaeth angenrheidiol i gynllunio cefnogaeth dysgwyr. Os nad yw darpar fyfyrwr yn manylu ar ei anghenion yn y cais, efallai na fydd gwybodaeth gan y brifysgol tan ar ôl iddo ddechrau ei gwrs. Esboniwyd bod y prosesau a ddefnyddir wrth nodi anghenion mewn prifysgol yn gallu bod yn araf iawn ac mae mantais bendant i fyfyrwyr sy'n mynd i'r brifysgol gyda thystiolaeth o anghenion sydd wedi'i dogfennu'n briodol.

Yr amser angenrheidiol i baratoi: materion i'w hystyried ac enghreifftiau o arfer effeithiol

- 5.19. Soniodd rhieni a gofalwyr nad yw dysgu a datblygu sgiliau efallai'n broses esmwyth, gyda dysgwyr weithiau'n newid yn llwyr mewn cyfnod byr yn dilyn cyfnod hir o ddatblygiad sefydlog, felly efallai y bydd angen diwygio eu hanghenion a'u dyheadau. Mae hyn yn golygu bod tensiwn rhwng yr angen i gynnal dull hyblyg drwy gydol y broses o gynllunio pontio sy'n galluogi i ddysgwyr newid eu dyheadau a gadel digon o amser i sicrhau bod lleoliadau, dysgwyr a'u rhieni a'u gofalwyr yn barod ar gyfer y pontio a ddewisir.
- 5.20. Gall problemau hefyd godi pan fydd oedi, er enghraifft, wrth sicrhau cyllid ar gyfer y pontio a ddewisir, sy'n cyfyngu ar yr amser sydd ar gael ar gyfer paratoi (gweler e.e. Townsley et al., 2013). Yn yr un modd, mae natur gystadleuol ceisiadau myfyrwyr i'r coleg neu'r brifysgol yn gallu ei gwneud yn anodd cynllunio ymlaen llaw. Cododd prifysgolion, er enghraifft, yr anawsterau

sy'n gallu codi pan dderbynnir person ifanc drwy glirio, ond mae'r holl lety addas i rywun â'i anghenion eisoes wedi'i ddyrannu.

Cydweithio rhwng ysgolion, lleoliadau ôl-16 a gwasanaethau

Arfer effeithiol

5.21. Fel yr amlinellwyd yn Adran 4, mae pontio o reidrwydd yn cynnwys newid, ac mae cydweithio rhwng ysgolion, lleoliadau dysgu ôl-16 a darparwyr gwasanaeth eraill felly'n un o nodweddion allweddol arfer effeithiol (Kaehne a Beyer, 2009; Sloper et al., 2010). Mae cydweithio'n galluogi'r gwaith paratoadol angenrheidiol i gynllunio ar gyfer pontio'r person ifanc a'i ddilyniant mewn dysgu (pwnc yr adran nesaf), eu hwyluso ac wedyn eu cynnal.

Materion i'w hystyried ac enghreifftiau o arfer effeithiol

5.22. Mae enghreifftiau da (gan gynnwys y rhai a amlinellir yn yr adran hon) o ysgolion a sefydliadau AB neu AU yn gweithio gyda'i gilydd i rannu gwybodaeth a pharatoi at bontio (gweler hefyd Estyn, 2015a). Serch hynny, mae peryglon lle mae cydweithio rhwng dau sefydliad yn golygu bod dysgwyr yn cael eu sianelu o un i'r llall heb roi ystyriaeth ddigonol i ddewisiadau eraill. Mae cydweithio effeithiol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol cael partneriaid gweithredol, ac efallai y bydd angen arweinyddiaeth systemau, a drafodir isod, lle na fydd un partner yn mynd ati'n weithredol i gymryd rhan ac yn methu cyflawni ei gyfrifoldebau.

Arweinyddiaeth Systemau

Arfer effeithiol

5.23. Mae ymchwil a dadansoddiad yr astudiaeth hon yn pwysleisio pwysigrwydd “arweinyddiaeth systemau”: arweinyddiaeth sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau sefydliadau unigol (fel ysgolion, colegau neu wasanaethau pontio) (Hopkins, 2007; Yr Uned Arloesedd, et al, 2007). Mae arweinyddiaeth systemau'n nodwedd allweddol o arfer effeithiol oherwydd y canlynol:

- mae pontio o reidrwydd yn cynnwys symudiadau rhwng sefydliadau ac yn ei gwneud yn ofynnol cael cydweithio rhyngddyn nhw er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn pontio'n esmwyth ac yn llwyddiannus;
- mae arfer ar draws y system yn amrywiol (ac mae gan arweinwyr systemau rôl a allai fod yn allweddol wrth wella safonau mewn sefydliadau ac ar eu traws);
- nid yw strwythur y cyfleoedd pontio sy'n agored i ddysgwyr yn sefydlog ac mae gan “arweinwyr systemau” rôl allweddol wrth wella cyfleoedd ac ehangu dewisiadau pobl ifanc.

5.24. Yn yr un modd, fel mae Estyn yn nodi yn adroddiad blynyddol 2013-2014:

...mae gallu arweinwyr i feddwl y tu hwnt i'w sefydliad eu hunain yn nodwedd allweddol o'r hyn sydd ei angen o hyd er mwyn gwella addysg a hyfforddiant yng Nghymru.... (Estyn, 2015a, t.16).

Materion i'w hystyried ac enghreifftiau o arfer effeithiol

- 5.25. Gall amrywiaeth o bobl weithredu fel arweinwyr systemau. Gallent gynnwys arweinwyr ysgol a choleg, cydlynwyr AAA, cydlynwyr rhwydwaith 14-19, swyddogion ymgynghorol addysgol neu gynhwysiant a gweithwyr allweddol awdurdod lleol.
- 5.26. Ar lefel dysgwr unigol, mae cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion yn annog arweinyddiaeth systemau. Mae'n gallu canolbwyntio sylw ar y person ifanc (yn hytrach na'i leoliad/wasanaeth) a'r "darlun mawr", a galluogi cyfranwyr i edrych y tu hwnt i'w rôl unigol a'r cam nesaf i ddeilliannau tymor hir.
- 5.27. Lle nad yw un partner yn y broses bontio'n cyflawni ei gyfrifoldebau, mae'n bwysig bod partneriaid eraill yn arfer "arweinyddiaeth systemau" ac yn cymryd cyfrifoldeb i geisio gwella'r sefyllfa (yn hytrach na'i derbyn). Er enghraifft, gallai hyn gynnwys colegau'n arwain wrth wella cynllunio pontio mewn ysgolion lle mae hyn yn wan. Serch hynny, yn aml mae terfynau i ba raddau y mae unigolion sy'n cael eu cynnwys wrth gynllunio pontio'n gallu arfer arweinyddiaeth systemau. Er enghraifft, efallai na fydd ganddynt yr awdurdod ffurfiol neu anffurfiol sydd ei angen i arwain newid. Mae mentrau strategol fel Cyfleoedd Gwirioneddol, a drafodir isod, yn gallu bod yn hanfodol wrth feithrin y weledigaeth a rennir, gan greu'r cyfleoedd ar gyfer cydweithio a meithrin y gallu angenrheidiol i alluogi arweinyddiaeth systemau.

Cyfleoedd Gwirioneddol

Darparodd y *Prosiect Cyfleoedd Gwirioneddol* (2010-2014) fodel arweinyddiaeth systemau gyda gweithwyr allweddol pontio'n darparu rôl gydlynu a oedd yn cynnwys: "rheoli cyfathrebu rhwng staff sy'n ymwneud â'r

teulu; gwaith uniongyrchol ar ddatblygu cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion ac mewn adolygiadau pontio; cynllunio gweithredu a chyfeirio i wasanaethau eraill; cynorthwyo ymweliadau ag opsiynau ôl-ysgol fel colegau; a hyfforddiant teithio" (Beyer a Kaehne, 2013a). (Beyer et al., 2014, t.11).

Cydlynodd gweithwyr allweddol pontio wasanaethau a chymryd cyfrifoldeb am waith dilynol i sicrhau bod pobl yn gwneud yr hyn roeddent wedi'i addo. Roedden nhw'n canolbwyntio ar y teulu a'r dysgwr.

<https://www.cyfleoeddgwirioneddol.org.uk>

- 5.28. Mae targedau, sy'n bwysig wrth wella safonau a darparu atebolrwydd, hefyd yn gallu bod yn rhwystr i feddwl drwy systemau pan maent yn creu cymhellion (gwrthnysig) i ganolbwyntio'n llwyr ar bontio ôl-ysgol, neu gyrhaeddiad mewn lleoliadau penodol, ar draul deilliannau i bobl ifanc dros y tymor hir ac ar draws y system gyfan. Rydyn ni'n trafod hyn ymhellach yn Adran 7.

6. Cynorthwyo dilyniant dysgwyr ar ôl pontio

- 6.1. Fel yr amlinellwyd yn yr adran flaenorol, mae cyfnewid gwybodaeth am anghenion a dewisiadau person ifanc yn bwysig. Mae hyn yn cyfrannu at asesiadau o anghenion person ifanc (a fydd efallai'n ei gwneud yn ofynnol cael cymorth dysgu, ymarferol a/neu fugeiliol) a nodi rhwystrau posibl i ddilyniant dysgwyr mewn addysg bellach neu uwch y mae'r adran hon yn canolbwyntio arno. Mae elfennau allweddol o arfer effeithiol, materion i'w hystyried, ac enghreifftiau o arfer effeithiol wedi'u hamlinellu yn yr adran hon a cheir crynodeb ohonynt yn Nhabl 5 yn yr atodiad.

Nodi, asesu a diwallu anghenion dysgwyr (ar ôl pontio)

Arfer effeithiol

- 6.2. Mae anghenion pobl ifanc yn gallu newid, (e.e. o ganlyniad i bontio) a nododd rhieni a darparwyr fod asesiad anghenion parhaus a chyfannol sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd ac yn canolbwyntio ar y person ifanc cyfan (yn cynnwys anghenion dysgu a phersonol⁴⁵) yn nodwedd allweddol o arfer effeithiol. Mae'n nodwedd allweddol o arfer effeithiol oherwydd os nad yw anghenion academaidd a bugeiliol person ifanc yn cael eu nodi ac os na chynllunnir ar eu cyfer, bydd ei obeithion ar gyfer dilyniant yn lleihau. Bydd y perygl y bydd yn ymddieithrio rhag dysgu'n cynyddu a bydd ei brofiadau o addysg bellach ac uwch yn llawer mwy tebygol o fod yn negyddol.

Asesiadau anghenion cyfannol: materion i'w hystyried ac enghreifftiau o arfer effeithiol

⁴⁵ Gall fod gan bobl ifanc ag anawsterau neu anabledau dysgu sy'n pontio amrywiaeth o anghenion eraill, fel anghenion cymdeithasol ac emosiynol, sy'n gysylltiedig ag ymdopi â phontio ac anghenion ymarferol, sy'n gysylltiedig, er enghraifft, â'r pontio tuag at fyw'n annibynnol.

- 6.3. Mae ymchwil i'r cynlluniau peilot ADY⁴⁶ yn nodi bod y Cynlluniau Datblygu Unigol a dreialwyd yn gallu gwneud cyfraniad pwysig at asesiadau cyfannol (LIC, 2013b). Roedd y cynlluniau datblygu unigol a ddatblygwyd gan y cynlluniau peilot yn cynnwys proffil un dudalen sy'n crynhoi'r hyn sy'n bwysig i'r dysgwr. Gwerthfawrogwyd hyn gan ei fod e'n gallu rhoi trosolwg cyflym i staff addysgu a chymorth newydd. Lle roedd cynlluniau unigol, wedi'u modelu ar y Cynlluniau Dysgu Unigol⁴⁷ a ddatblygwyd gan y cynllun peilot, yn cael eu defnyddio gan yr astudiaeth hon, dywedodd cyfweleion eu bod yn werthfawr oherwydd eu bod nhw'n canolbwyntio ar bob agwedd ar anghenion person ifanc a'i alluogi i nodi'n glir y cymorth a ddymunwyd.
- 6.4. Yn yr un modd, soniodd un coleg ei fod yn datblygu proffiliau cymdeithasol ac academaidd o'r bobl ifanc er mwyn cael dealltwriaeth o'r hyn maen nhw'n ei hoffi a'r hyn nad ydynt yn ei hoffi, a'u hadolygu ar gyfer amgylchedd y coleg.
- 6.5. Mae asesiadau Adran 140 yn arbennig o bwysig lle mae diffyg arbenigedd gan leoliadau dysgu ôl-16, a/neu mae cysylltiadau â gwasanaethau AAA arbenigol yn gallu nodi ac asesu anawsterau neu anabledau dysgu mwy cymhleth. Mae ymgynghorwyr Gyrfa Cymru, sy'n llunio'r asesiadau, yn dibynnu'n fawr ar ansawdd y wybodaeth a roddwyd gan yr ysgolion. Gall fod problemau pan fo asesiadau, er enghraifft, yn seiliedig ar ddatganiadau AAA, sy'n hen, neu nad ydynt yn rhoi digon o fanylion am y math o ddarpariaeth y mae ei hangen i ddiwallu anghenion y person ifanc. Mynegodd rhai rhieni bryderon penodol pan nad yw'r sawl sy'n ysgrifennu'r asesiad hyd yn oed yn cwrdd â'r person ifanc dan sylw.

Addasu darpariaeth i ddiwallu anghenion: enghreifftiau o arfer effeithiol

- 6.6. Er mwyn diwallu anghenion, mae lleoliadau'n mabwysiadu amrywiaeth o strategaethau, gan gynnwys:

⁴⁶Cyhoeddwyd yr ymchwil yn <http://llyw.cymru/statistics-and-research/programme-action-research-additional-learning-needs-pilot/?lang=cy>

⁴⁷ Nid yw cynnwys a diben Cynlluniau Datblygu Unigol wedi'u cytuno eto ac nid ydynt yn ddogfennau a gydnabyddir yn swyddogol eto.

- defnyddio asesiadau Adran 140 a'r Cynllun Dysgu a Sgiliau i sicrhau bod y cymorth iawn yn ei le a, lle y bo angen, y ceisir cyllid ychwanegol;
- rhannu gwybodaeth yn y sefydliad (i sicrhau bod yr holl bobl sy'n gweithio gyda dysgwyr yn deall eu hanghenion a'u dewisiadau), er enghraifft, drwy ddefnyddio cronfa ddata coleg sy'n rhoi manylion am anghenion pob dysgwr a strategaethau addysgu effeithiol i'w diwallu;
- datblygu sgiliau a gwybodaeth arbenigol (lle y bo angen), er enghraifft, mae gan rai colegau rwydwaith o ddarlithwyr arbenigol sy'n gweithio gydag AAD penodol a/neu'n defnyddio gwasanaethau arbenigol lle y bo angen;
- drwy addasiadau (gwneud 'addasiadau rhesymol') a defnyddio technoleg⁴⁸.

Nodi a chynorthwyo pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio

Arfer effeithiol

6.7. Mewn rhai achosion, nid yw anghenion dysgwyr yn cael eu nodi cyn iddynt bontio neu maent yn newid ar ôl pontio, gan gynyddu'r perygl y byddant yn ymddieithrio rhag dysgu⁴⁹. Er enghraifft, efallai na fydd anghenion sy'n cael eu diwallu'n ddigonol yn yr ysgol yn codi fel problem i'w datrys nes i newidiadau mewn cefnogaeth a darpariaeth ar ôl pontio olygu eu bod yn dod i'r amlwg. Mae methu nodi a diwallu anghenion yn debygol o gynyddu'r perygl o ymddieithrio, yn gallu amharu ar ddilyniant ac yn debygol o gael effaith negyddol ar brofiadau dysgwyr. Mae nodi a chynorthwyo anghenion dysgwyr, ac yn benodol, mae nodi'r rhai mewn perygl o ymddieithrio, felly'n nodwedd allweddol arall o arfer effeithiol.

Enghreifftiau o arfer effeithiol

⁴⁸ Er enghraifft, mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru'n defnyddio darlennydd sgrîn JAWS, chwyddo testun, nodiant cerdd Sibelius a dilyniannu a recordio sonar fel rhan o 'Cyflwyniad i Dechnoleg Cerdd i Gerddorion â Nam ar y Golwg': drwy Campws Cyntaf.

⁴⁹ Er enghraifft, efallai y bydd colli strwythur pan fo pobl ifanc yn pontio o'r ysgol yn golygu eu bod nhw'n cael trafferth ymdopi ac mae anghenion newydd yn dod i'r amlwg.

- 6.8. Mae gan fentrau fel Y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (Llywodraeth Cymru, 2013d) sy'n ceisio nodi a chynorthwyo pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio, neu sydd eisoes wedi ymddieithrio, rhag addysg neu hyfforddiant rôl allweddol i'w chwarae yma. Bydd canllawiau gan Lywodraeth Cymru ar arfer effeithiol ym maes gwaith arweiniol yn cael eu cyhoeddi'n fuan.

Cynorthwyo dilyniant dysgwyr

Arfer effeithiol

- 6.9. Pwysleisiodd y rhan fwyaf o rieni a gofalwyr a gweithwyr proffesiynol y cyfwelwyd â hwy ar gyfer yr astudiaeth hon y dylai pontio alluogi a chynorthwyo dilyniant dysgwyr mewn dysgu, (h.y. galluogi dysgwyr i barhau ac ehangu dysgu blaenorol, yn hytrach na'i ailadrodd). Dadleuodd rhai fod atgyfnerthu dysgu a sgiliau, er enghraifft, drwy barhau ar yr un lefel academaidd, hefyd yn ddilys a gellid ei ystyried yn ffurf ar ddilyniant lle roedd sgiliau'n cael eu sefydlu ac yn weithredol mewn lleoliadau gwahanol⁵⁰. Mae dilyniant yn nodwedd allweddol o arfer effeithiol oherwydd gellir cwestiynu beth yw gwerth parhau ag addysg heb ddilyniant ac, mewn rhai achosion, bydd yn briodol stopio oherwydd nad yw dysgwr bellach yn gwneud cynnydd.

Materion i'w hystyried ac enghreifftiau o arfer effeithiol

- 6.10. Gellir deall dilyniant fel canlyniad tri ffactor:
- 'cynnig' y cwricwlwm, (e.e. lefel a math y cyrsiau sy'n agored i ddysgwr a'r cysylltiadau neu'r llwybrau rhwng cyrsiau ac ar eu traws);
 - y dewisiadau mae dysgwyr – a'u rhieni a'u gofalwyr – yn eu gwneud am ddilyniant, (e.e. y lleoliadau a'r cyrsiau maent yn eu dewis);

⁵⁰ Yn yr un modd, yn ôl adroddiad Kaehne a Beyer (2009a, t139): "One criticism of the strong push to further education after leaving school for this group is that skills acquired during school years are not being developed further in further education institutions. Indeed there is a widespread concern amongst teachers that skill levels of young people leaving special school actually decrease in further education ... This is significant as acquired skills require continuous reinforcement for many young people with learning disabilities in order to be readily available in employment contexts."

- gallu cynhenid dysgwyr, (e.e. eu gallu i fodloni gofynion academaidd a chymdeithasol cwrs a symud ymlaen i'r lefel nesaf).
- 6.11. Mae'r ffactorau'n gysylltiedig (e.e. gall gallu cynhenid y dysgwr a chynnig y cwricwlwm ddylanwadu ar ddewisiadau dysgwyr) a gall 'gwendid' mewn unrhyw un o'r tri ffactor hyn rwystro dilyniant neu amharu arno.
- 6.12. Mae gan leoliadau dysgu a, lle y bo'n berthnasol, wasanaethau eraill fel Gyrfa Cymru, rôl allweddol wrth sicrhau bod:
- cynnig y cwricwlwm offer yn galluogi ac yn cynorthwyo dilyniant, yn unol ag anghenion a dyheadau'r person ifanc a gofynion y farchnad lafur;
 - gwybodaeth a chanllawiau yn galluogi ac yn cynorthwyo dewisiadau hyddysg;
 - anghenion dysgwyr wedi'u nodi, eu hasesu a'u diwallu, er mwyn sicrhau gallu cynhenid mwyaf posibl dysgwyr i symud ymlaen a deall dyheadau dysgwyr.
- 6.13. Roedd rhanddeiliaid y cyfwelwyd â hwy ar gyfer yr astudiaeth hon, gan gynnwys cynrychiolwyr SAB a rhieni a gofalwyr yn anghytuno ar y gwerth roedden nhw'n ei roi ar ddilyniant fertigol, (h.y. dysgwyr yn symud o gwrs lefel is i lefel uwch). Roedd rhai'n teimlo bod hyn yn bwysig ac nad oedd yn briodol iddynt barhau os nad oedd dysgwyr yn symud ymlaen yn fertigol. Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo y gallai parhau ar yr un lefel, (e.e. drwy ailadrodd cwrs) ddarparu 'dilyniant' llorweddol (neu ochrol) a bod yn briodol lle roedd dysgwr, er enghraifft, yn atgyfnerthu sgiliau a gwybodaeth a/neu fagu hyder. Ond nodwyd ei bod yn anodd sicrhau cyllid ar gyfer dilyniant llorweddol.
- 6.14. Cododd rhai rhieni a gofalwyr bryderon am ddiffyg dilyniant ymddangosiadol dysgwyr. Yn rhannol, mae hyn yn adlewyrchu pryder hirsefydlog bod dilyniant mewn darpariaeth AB, yn aml yn cael ei ganfod ei fod e'n ochrol gydag ymdeimlad o "farcio amser" yn hytrach na pharatoi go iawn at fyw'n annibynnol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2007). Mae hefyd yn adlewyrchu

gwendid ehangach ym maes cynllunio dilyniant (a chymorth) mewn AB, sy'n golygu nad oes digon o ddysgwyr yn symud ymlaen o gyrsiau mynediad a lefel 1 (Estyn, 2015a).

- 6.15. Yn fwy cadarnhaol, nododd ymchwil ar gyfer yr astudiaeth hon enghreifftiau o ddarpariaeth a oedd yn datblygu ac yn ymestyn sgiliau a gwybodaeth dysgwyr. Fel mae'r enghreifftiau isod yn dangos, yn y rhan fwyaf o achosion roedd hyn yn dibynnu ar leoliadau'n gweithio gyda'i gilydd drwy, er enghraifft, *Llwybrau Dysgu 14-19* neu brosiectau eraill.

Partneriaethau ADY

Mae'r ysgol arbennig yn grŵp partneriaeth ADY ynghyd ag ysgolion eraill a'r coleg lleol. Sefydlwyd y bartneriaeth i gynyddu nifer y bobl ifanc a lwyddodd i symud i'r coleg ac mae'r nod hwn wedi bod yn llwyddiannus gyda llawer mwy o bobl ifanc ag AAD sydd bellach yn dilyn cyrsiau prif ffrwd yn y coleg. Dyma rai o'r ffactorau allweddol a alluogodd hyn:

- defnyddiwyd cyllid drwy'r Llwybr Dysgu 14-19⁵¹ i alluogi myfyrwyr i ymgyfarwyddo ag amgylchedd y coleg lleol drwy ymweld ag ef yn wythnosol cyn iddynt benderfynu mynd yno ai peidio.
- sefydlodd y coleg gwrs 'pontio'r bwlch' yn arbennig i bobl ifanc AAD ac mae'r ysgol wedi newid ei chwricwlwm i weddu i'r cwrs, er enghraifft, rhoi mwy o bwyslais ar wella sgiliau sylfaenol myfyrwyr.
- cyfathrebu'n rheolaidd â'r coleg i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pa gamau mae'r ysgol a'r coleg yn gallu eu cymryd i gefnogi pontio llwyddiannus.

Rhwystrau i ddilyniant pobl ifanc

- 6.16. Nododd yr astudiaeth nifer o rwystrau a allai olygu nad oedd dyheadau a/neu anghenion pobl ifanc yn cael eu diwallu a'u bod wedi cael trafferth symud

⁵¹ LIC (2004b).

ymlaen (cafwyd hyn o'r gwaith maes a'r llenyddiaeth a adolygwyd). Mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu hystyried a, lle maent yn debygol o ddigwydd, gynllunio sut mae goresgyn y rhwystrau neu eu lleihau. Roedd y rhwystrau'n cynnwys:

- cynnig cwricwlwm cyfyngedig ac, yn benodol, ystod yr opsiynau ôl-16 sydd yn aml yn gyfyngedig i bobl ifanc ag anawsterau neu anableddau dysgu, gan gynnwys:
 - ystod gul o gymwysterau mynediad a lefel 1 yr oedd yn aml yn anodd symud ymlaen ohonynt;
 - y diffyg darpariaeth arall, fel dysgu seiliedig ar waith (a drafodir ymhellach isod) a rhaglenni datblygu cymdeithasol;
 - y prinder darpariaeth arbenigol ar gyfer rhai mathau o AAD, fel darpariaeth i bobl ifanc ag anawsterau dysgu difrifol neu ysgafn (Townasley et al., 2014; LIC, 2010) neu'r rhai ag anableddau corfforol;
- gwendidau wrth nodi ac asesu anghenion dysgwyr (a oedd yn cyfyngu ar allu cynhenid dysgwyr i symud ymlaen), gan gynnwys diffyg cydweithio rhwng lleoliadau, fel nad oedd anghenion dysgwyr yn cael eu deall yn llwyr a/neu nad ystyriwyd dysgu blaenorol;
- gwendidau yn y cymorth a gynigiwyd i ddysgwyr (a oedd hefyd yn cyfyngu ar allu cynhenid dysgwyr i symud ymlaen), gan gynnwys:
 - disgwyliadau isel neu gyfyngedig o ran pobl ifanc ag anableddau ar ran gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys tiwtoriaid mewn darpariaeth brif ffrwd sydd efallai â diffyg hyder yn eu gallu i gynorthwyo pobl ifanc;
 - mynediad pobl ifanc i therapïau fel therapi lleferydd ac iaith yn cael ei dorri ar ôl pontio o'r ysgol arbennig i'r coleg (Townasley et al., 2013; Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2007);
 - darparwyr a oedd yn cael trafferth addasu hen adeiladau i ddiwallu anghenion pobl ifanc, ac yr oeddent yn cael trafferth wrth gael mynediad i gyllid ar gyfer hyn (Townasley et al., 2013).
- y dewisiadau roedd dysgwyr a'u teuluoedd yn eu gwneud, gan gynnwys yn benodol, ddyheadau isel neu gyfyngedig ar ran pobl ifanc a/neu deuluoedd, weithiau'n gysylltiedig â'r diffyg modelau rôl a gwybodaeth,

cyngor a chanlyniadau gwael, ond hefyd â ffactorau fel ofnau teuluoedd am effaith dewisiadau ar y teulu cyfan.⁵²

Mynediad i gyllid: materion i'w hystyried

- 6.17. Mewn perthynas â chymorth, nodwyd hefyd nad oedd rhai darparwyr a/neu bobl ifanc wedi manteisio ar y cyllid sydd ar gael, fel y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl⁵³, neu gyllid ar gyfer gofal personol a chymdeithasol, i helpu i ddiwallu anghenion. Y prif resymau a roddwyd oedd bod dysgwyr neu eu teuluoedd naill ai ddim yn ymwybodol o'r cymorth/cyllid neu oherwydd bod y gofynion sy'n gysylltiedig â'r cyllid (fel cost asesiad diagnostig⁵⁴) wedi'u hannog i beidio â gwneud cais am hyn⁵⁵.
- 6.18. Mae'r materion sy'n ymwneud â'r Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl yn gymhleth⁵⁶. Mae'r dystiolaeth ddiagnostig bob amser wedi bod yn ofynnol at ddibenion cymhwysra Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl (h.y. nid yw hyn wedi newid) ond mae'r cyfrifoldeb am asesiadau wedi'i drosglwyddo o awdurdodau lleol i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr (a fyddai efallai wedi arwain at newidiadau yn y ffordd y cynhelir asesiadau). Hefyd, nodwyd ei bod yn ymddangos nad oes llawer o ddealltwriaeth bod angen asesiad ôl-16 ar gyfer y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl ac felly, erbyn i rai dysgwyr gael gwybod, mae'n rhy hwyr i'r cymorth fod ar waith erbyn dechrau'r cwrs. Gall sefydliad SAB neu SAU roi'r cymorth angenrheidiol ar waith wrth i ddysgwr wneud cais (dylent ystyried eu dyletswydd gofal a gofynion addasiadau rhesymol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb), ond mae'r arfer yn amrywiol.

⁵² Er enghraifft, nodwyd bod rhai teuluoedd yn ofni y gallai dilyniant gyfyngu ar gymhwysra person ifanc, a'r teulu mewn rhai achosion, ar gyfer budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd.

⁵³ Hefyd, nodwyd bod problemau'n gysylltiedig â chyllid ar gyfer gofal personol a chymdeithasol (gweler hefyd e.e. Townsley et al., 2013) a arweiniodd at rai darparwyr yn gwrthod derbyn pobl ifanc.

⁵⁴ Asesiad diagnostig ADP ôl-16 (adolygiad)

⁵⁵ Er enghraifft, nodwyd bod y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl yn mynd yn llai hyblyg, ac mae ar gael dim ond ar ôl i ddysgwr gael ei ddiagnosio ac mae'r diagnosis yn gallu cymryd hyd at flwyddyn, felly nid yw pobl ifanc a darparwyr yn gallu cael mynediad i gymorth o'r dechrau pan fo'i angen arnynt. Mae cost asesiadau (£300-500) hefyd yn bryder, yn enwedig i ddysgwyr o deuluoedd incwm is.

⁵⁶ Mae polisi'r Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl yng Nghymru wrthi'n cael ei adolygu a disgwylir ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar ddechrau 2016.

6.19. Yn ehangach, nodwyd bod toriadau cyllideb (er gwaethaf ymdrechion i ddiogelu darpariaeth AAD), a blaenoriaethau newidiol tuag at fwy o bwyslais ar ddilyniant dysgwyr⁵⁷, yn enwedig yn AB, wedi cyfyngu ar yr opsiynau sy'n agored i bobl ifanc. Ymhellach, nodwyd bod toriadau mewn gwasanaethau arbenigol fel therapi lleferydd ac iaith, gwasanaethau dydd oedolion a darpariaeth y sector gwirfoddol, wedi'i gwneud yn anoddach diwallu anghenion anacademaidd pobl ifanc (gweler hefyd NEF 2012 ar effaith toriadau).

Dysgu Seiliedig ar Waith: materion i'w hystyried

6.20. Mewn perthynas â chynnig y cwricwlwm, mae'r potensial ar gyfer darpariaeth dysgu seiliedig ar waith i gynorthwyo pobl ifanc i bontio i gyflogaeth, pan gaiff ei baru â chefnogaeth well, wedi'i nodi (gweler e.e. Beyer, et al, 2014; Kaehne a Beyer, 2013b). Fodd bynnag, nododd cyfweleion, yn enwedig o Gyrfa Cymru, fod eu gwybodaeth am ddarpariaeth dysgu seiliedig ar waith yn fwy cyfyngedig na'u gwybodaeth am fathau eraill o ddarpariaeth AB yn y coleg. Hefyd, teimlwyd bod yr amrywiaeth o ddarpariaeth a gynigiwyd yn gyfyngedig mewn rhai meysydd a chydabu rhai darparwyr dysgu seiliedig ar waith nad oedd ganddynt ddigon o arbenigedd a phrofiad o weithio gyda phobl ifanc ag AAD.

Pontio o addysg a hyfforddiant ôl-16

6.21. Mae llawer o'r deunydd darllen ar gyfer yr astudiaeth hon yn pwysleisio y dylai pontio o un lleoliad addysgol i un arall fod yn fodd o gyflawni neu wireddu dyheadau tymor hir dysgwr, gan amlygu cyflogaeth yn benodol ac, i raddau llai, annibyniaeth (Dyke et al., 2013; Dunn et al., 2012; Kaehne a Beyer, 2009b; EASNIE, 2012; Gebhardt et al., 2011; Williams, 2008; Blalock a Patton, 1996). Fodd bynnag, nodwyd bod y diffyg cefnogaeth statudol ar gyfer pontio ôl-addysg fel hyn yn achos pryder (Kaehne a Beyer, 2009b) a nodwyd

⁵⁷ Er enghraifft, nododd nifer o gyfweleion fod darpariaeth coleg wedi newid fel y gall pobl ifanc a allai aros ar gyrsiau am flynyddoedd o'r blaen bellach fynd am flwyddyn yn unig oni bai eu bod yn gallu dangos cynnydd i lefel uwch.

y gallai'r opsiynau cyfyngedig ar gyfer pontio ôl-AB danseilio'r gwaith a wneir yn AB.

- 6.22. Hefyd, nododd nifer o gyfweleion fod cynllunio i bobl ifanc nad oeddent yn mynd ymlaen i addysg neu gyflogaeth (er enghraifft, y rhai sy'n mynd i wasanaethau dydd oedolion) yn aml yn wan. Roedd ansawdd y ddarpariaeth hefyd yn bryder. Er enghraifft, i rai pobl ifanc, gallai pontio o addysg i wasanaethau dydd gael ei ystyried fel 'cam yn ôl' (Martin et al., 2011). Fel y dywedodd un cyfwelai: *"mae'n torri ein calonnau eu bod nhw'n meithrin yr holl sgiliau hyn ac maen nhw'n cael eu rhoi mewn 'gofal dydd' yn y pen draw"*.
- 6.23. Mae methu pontio'n llwyddiannus o addysg a hyfforddiant ôl-16 yn gallu golygu bod pobl ifanc yn colli'r sgiliau y maent wedi'u datblygu a bod yn fwy anabl o ganlyniad i hynny. Roedd hyn yn bryder difrifol i rai rhieni. Er enghraifft, er ei bod y tu hwnt i'r astudiaeth hon, roedd yr ymchwil hon ac astudiaethau eraill (Beyer et al., 2014; Gebhardt et al., 2011; Dunn et al., 2012) yn nodi bod deilliannau cyflogaeth i bobl ifanc ag AAD sy'n gadael addysg yn wael.⁵⁸
- 6.24. Serch hynny, roedd rhai rhieni y cyfwelwyd â hwy ar gyfer yr astudiaeth hon yn canolbwyntio mwy ar ddatblygiad cymdeithasol a chyfathrebu na sgiliau galwedigaethol, gan nad oedd y rhan fwyaf o'r bobl yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer yr astudiaeth hon yn disgwyl y byddai eu plentyn byth yn gweithio. Felly, gwerthfawrogwyd y coleg am y sgiliau cymdeithasol roedd e'n eu cefnogi, hyd yn oed os na ddisgwylwyd y byddai'n arwain at gyflogaeth. Pwysleisiodd un cyfwelai hefyd fod yr un hawl gan bobl ifanc ag AAD i addysg bellach â phobl ifanc heb AAD (gan awgrymu nad mynediad i gyflogaeth yw'r unig ddeiliant o AB y mae angen ei ystyried wrth asesu ai dyna'r opsiwn gorau i'r person ifanc).

⁵⁸ Mae rhywfaint o ymchwil yn dangos ei bod yn ymddangos bod AB felly'n cael effaith gyfyngedig ar fynediad i'r farchnad lafur i bobl ifanc ag AAD (Kaehne a Beyer, 2009b).

7. Data: monitro, gwerthuso a meincnodi

7.1. Dylai casglu a defnyddio data ar brofiadau a deilliannau pontio pobl ifanc fod yn ganolog i ymdrechion i wella profiadau a deilliannau. Mae'r adran hon yn amlinellu'r data sy'n cael eu casglu ar hyn o bryd a chynigion ar gyfer cryfhau'r broses o gasglu a/neu ddefnyddio data.

Data ar bobl ifanc ag AAD

7.2. Ar hyn o bryd, cesglir amrywiaeth o ddata ar gyfranogiad, profiadau a deilliannau pobl ifanc ag AAA/AAD yn yr ysgol, AB ac AU; mae hyn yn cynnwys:

- data ar nifer y bobl ifanc ag AAA a'r math o AAA mewn ysgolion⁵⁹;
- data ar gyfranogiad pobl ifanc ag AAD mewn AB (gan gynnwys dysgu seiliedig ar waith, eu boddhad ar gyrsiau, cyfraddau cwblhau a chyrchfannau)⁶⁰;
- data ar gyfranogiad pobl ifanc ag anabledd mewn AU⁶¹;
- data arolwg ar gyfran y bobl ifanc 16-24 oed y mae'n hysbys eu bod yn NEET, y mae ganddynt anabledd⁶².

7.3. Nodir bod gwelliannau sylweddol wrth olrhain cynnydd pobl ifanc mewn lleoliadau o ganlyniad i fentrau fel y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (a drafodwyd yn Adran 5) ond ni fu llawer o welliant wrth olrhain dilyniant pobl ifanc wrth iddynt symud o un lleoliad i'r llall (Llywodraeth Cymru 2014b). Mae systemau casglu data a chronfeydd data'n wahanol ar gyfer ysgolion ac AB, gan olygu ei bod felly'n anodd olrhain cynnydd pobl ifanc

⁵⁹ CYBLD. Ar gael ar: <https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Special-Educational-Needs>

⁶⁰ Arolwg cyrchfannau Gyrfya Cymru, CYBLD, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, Arolwg Llais y Dysgwr (ym maes AB).

⁶¹ Data HESA.

⁶² Arolwg blynyddol o'r boblogaeth. Canlyniadau ar gael yn: <http://llyw.cymru/statistics-and-research/young-people-not-education-employment-training/?skip=1&lang=cy>

unigol ag AAD wrth iddynt symud o'r ysgol i AB ac AU⁶³. Mae dau brif reswm am hyn:

- gwahaniaethau o ran diffiniadau o AAA ac AAD, a'r ffordd mae data ar AAA neu AAD pobl ifanc yn cael eu cofnodi (sy'n ei gwneud yn anodd cymharu data ar y bobl ifanc ag AAA neu AAD mewn mathau gwahanol o leoliad⁶⁴);
- gwendidau yn y data a gesglir, gan gynnwys anghysondebau wrth gofnodi AAA neu AAD a data anghyflawn (e.e. ar gyrchfannau dysgwyr, neu lle mae'n ofynnol i bobl ifanc ddatgan eu hanabledd, ac efallai'n dewis peidio â gwneud hynny) (Estyn, 2007; Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2013; LIC, 2012⁶⁵).

7.4. Mae problemau hefyd wrth nodi (neu olrhain) yr hyn sy'n digwydd i ddysgwyr ar ôl iddynt adael addysg bellach. Er bod arolygon cyrchfan Gyrfa Cymru'n rhoi darlun rhesymol o gyrchfan ar ôl Blwyddyn 11, maent dim ond cofnodi cyrchfannau uniongyrchol ymadawyr ac nid ydynt yn rhoi ymdeimlad o'u dilyniant tymor hwy (t. 9, *ibid.*). Mae data ar grwpiau oedran hŷn hyd yn oed yn wannach. Er enghraifft, ni chredir bod data cyrchfan a gesglir gan golegau AB yn arbennig o ddibynadwy (t. 10, *ibid.*; gweler hefyd Estyn, 2015a).

7.5. Yn ychwanegol, mae rhywfaint o ddata cyfyngedig ar brosesau cynllunio pontio'n cael eu casglu a'u cyhoeddi gan arolygiadau Estyn o leoliadau a gwasanaethau addysg ALI i blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, nid yw data ar drefniadau pontio'n cael eu casglu'n systematig gan Estyn. Er bod Estyn yn arolygu ysgolion a darparwyr ôl-16, nid yw arolygu trefniadau pontio ac adrodd arnynt yn nodwedd amlwg o'r Fframwaith Arolygu Cyffredin (er ei fod yn gallu bod yn rhan o dan feysydd fel darpariaeth ADY a gweithio mewn partneriaeth). At hynny, mae'r data sydd ar gael (ar drefniadau pontio) o arolygiadau Estyn, yn dameidiog ar draws sawl adroddiad, gan ei gwneud yn

⁶³ Mae Sloper et al (2010) yn cydnabod nad yw darparwyr AB, mewn llawer o achosion yn ymgymryd â'r un prosesau asesu â gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol, ac nid yw gweithwyr pontio bob amser wedi cael eu cynnwys wrth asesu AB a chynllunio ar ei chyfer. .

⁶⁴ Mae hyn yn golygu, er enghraifft, nad oes modd cymharu data'n uniongyrchol ar gyfrannau'r dysgwyr ag AAA ac AAD mewn ysgolion ac AB (er mwyn amcangyfrif cyfrannau'r bobl ifanc ag AAA sy'n pontio i AB).

⁶⁵ <http://lyw.cymru/statistics-and-research/scoping-study-collection-further-education-destinations-data/?skip=1&lang=cy>

anodd eu defnyddio ar gyfer meincnodi. Felly, mae croeso mawr i adolygiad diweddar Estyn o wasanaethau cymorth dysgwyr mewn colegau addysg bellach ar gyfer dysgwyr 16-19 oed (Estyn, 2015a).

Monitro a meincnodi data

- 7.6. Fel yr amlinellwyd yn Adran 5, mae monitro profiadau a dilyniant pobl ifanc unigol yn bwysig (ac yn un o nodweddion allweddol arfer effeithiol). Mae'n helpu i sicrhau bod problemau, sydd efallai'n amharu ar ddilyniant person ifanc a gallai hyd yn oed arwain at ymddieithrio rhag dysgu, yn cael eu nodi a'u datrys yn gyflym. Mae monitro dilyniant pobl ifanc unigol wedi gwella ond, fel yr amlinellwyd uchod, mae monitro'u dilyniant wrth iddynt symud o un lleoliad i'r llall yn parhau i fod yn llawer gwannach.
- 7.7. Mae monitro profiadau a dilyniant grwpiau o bobl ifanc yn bwysig (a hefyd yn nodwedd allweddol o arfer effeithiol). Mae'n helpu i sicrhau bod gwendidau systemig sy'n effeithio ar grwpiau o bobl ifanc yn gallu cael eu nodi a'u datrys yn gyflym.
- 7.8. Mae monitro a gwerthuso darpariaeth hefyd yn bwysig (a hefyd yn un o nodweddion allweddol arfer effeithiol) a dylai ategu monitro deilliannau. Mae'n gallu, er enghraifft, helpu i nodi gwendidau cyn iddynt gael effaith negyddol ar brofiadau a deilliannau pobl ifanc. Er enghraifft, canfu adolygiad llenyddiaeth a gynhaliwyd gan yr Asiantaeth Ewropeaidd dros Anghenion Arbennig ac Addysgu Gynhwysol mai defnyddio mesuriadau cynnydd diffiniedig i ddysgwyr a chasglu data'n unol â hyn oedd y ffactor â'r cysylltiad agosaf â darpariaeth dda gan weithwyr proffesiynol (EASNIE, 2012).
- 7.9. Dylai meincnodi helpu i amlygu sut mae arfer a deilliannau'n cymharu â'r goreuon (ac mae hefyd yn nodwedd allweddol o arfer effeithiol). Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd y dangosodd yr astudiaeth bryder ymhlith rhieni a rhai gweithwyr proffesiynol am effaith "loteri cod post" mewn perthynas â darpariaeth a phrofiadau pontio.

7.10. Er gwaethaf ei bwysigrwydd, prin iawn oedd y monitro a'r meincnodi sy'n ymwneud yn benodol â threfniadau pontio AAD (heblaw am yr hyn a gasglwyd gan Estyn ac AGGCC), neu â deilliannau a phrofiadau grwpiau o bobl ifanc a nodwyd gan yr astudiaeth hon, ond roedd yn faes yr oedd diddordeb gan leoliadau a gwasanaethau ei ddatblygu. Mae meysydd lle gellid gwella casglu data a'i ddefnydd wedi'u nodi isod ac yn Nhabl 6 yn yr atodiad.

Beth y gall y data presennol ei ddweud wrthym?

7.11. Mae'r data presennol yn rhoi gwybodaeth am brofiadau pobl ifanc ag AAD sy'n symud ymlaen i AB a rhywfaint o wybodaeth hefyd am nifer y bobl ifanc sy'n pontio mewn ffyrdd gwahanol, gan gynnwys y rhai sy'n mynd yn NEET.

Profiadau pobl ifanc o addysg bellach

7.12. Mae tystiolaeth o Arolwg Llais y Dysgwr Cymru (2013) yn dangos bod profiadau oddeutu dwy ran o dair o'r bobl ifanc ag AAD sy'n pontio i AB yn dda neu'n dda iawn mewn perthynas â'r mesurau detholedig, sy'n cwmpasu meysydd fel gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd a chymorth. Mae'r gyfran sy'n adrodd profiadau gwael neu wael iawn yn nodweddiadol fach, oddeutu 5 y cant o bobl ifanc. Mae hyn yn gyson â chanfyddiadau Estyn bod "bron pob un o'r dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn cymorth cynlluniedig, da wrth iddynt symud o'r ysgol i sefydliad addysg bellach." (t. 3, Estyn, 2015a).

7.13. Mae canlyniadau Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2013, sy'n cwmpasu myfyrwyr ag AAD yn eu blwyddyn gyntaf a'u hail flwyddyn yn y coleg, yn dangos ymateb tebyg i bob cwestiwn a'r boddhad mwyaf o ran yr help roeddent wedi'i gael i ymgysgu (roedd oddeutu 85 y cant wedi nodi 'da iawn' neu 'da') a'r boddhad lleiaf o ran y wybodaeth ac arweiniad a gynigiwyd ar gyfer opsiynau ar ôl cwblhau cwrs (roedd oddeutu 70 y cant wedi nodi 'da iawn' neu 'da'). Yn ychwanegol, roedd y rhan fwyaf (oddeutu 85 y cant) o fyfyrwyr yn y

ddau grŵp blwyddyn yn meddwl bod y cwrs neu'r hyfforddiant fel yr hyn roeddent yn ei ddisgwyl neu'n fras fel yr hyn roeddent yn ei ddisgwyl.

- 7.14. Mae'r cyfraddau cwblhau ymhlith disgyblion ag AAD yn debyg i'r holl fyfyrwyr eraill (maent yn uchel). Mae dadansoddiad manylach o gyfraddau cwblhau o ran pwnc yn dangos patrwm tebyg; er enghraifft, mae 'Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid' ymhlith y cyfraddau cwblhau uchaf (oddeutu 95 y cant) i fyfyrwyr ag AAD a myfyrwyr eraill, ac mae "Gwyddoniaeth a Mathemateg" ymhlith yr isaf (oddeutu 89 y cant). "Gwyddoniaeth a Mathemateg" ymysg yr isaf (oddeutu 89 y cant). Yn gyffredinol, prin yw'r amrywiad mewn cyfraddau cwblhau yn ôl maes pwnc.

Tabl 2: Cyfraddau cwblhau myfyrwyr ag AAD wedi'u cofrestru mewn sefydliadau AB o'u cymharu â myfyrwyr eraill

Myfyrwyr	2010/11	2011/12	2012/13
AAD	92%	91%	93%
Eraill	90%	91%	92%

Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru 2014

Pobl ifanc sy'n methu pontio'n llwyddiannus o'r ysgol

- 7.15. Mae tystiolaeth anecdotaidd (er enghraifft, gan ymgynghorwyr Gyrfa Cymru, cydlynwyr ymgysylltu a datblygu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid a gweithwyr arweiniol Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid) yn awgrymu bod cyfran y bobl ifanc ag AAD sy'n NEET yn anghymesur o uchel. Er nad yw data ar nifer y bobl ifanc ag AAD sy'n NEET yn cael eu casglu'n systematig, mae amcangyfrif o'r bobl ifanc ag anabledd (categori ehangach nag AAD), sy'n NEET⁶⁶ ar gael drwy ddata arolygon. Mae hyn yn amlygu cyfran uwch o lawer y bobl ifanc ag anabledau sy'n NEET (ac yn gyson â'r dystiolaeth anecdotaidd am gyfran gymharol y bobl ifanc ag AAD sy'n NEET):

⁶⁶ Nid data penodol ar gael ar bobl ifanc ag anhawster neu anabledd dysgu y mae'n hysbys eu bod yn NEET. <http://llyw.cymru/statistics-and-research/young-people-not-education-employment-training/?skip=1&lang=cy>

- mae cyfran y bobl ifanc 16-18 oed ag anabledd⁶⁷ sy'n NEET (18%) yn naw pwynt canran yn uwch na chyfran y bobl ifanc 16-18 oed nad oes ganddynt anabledd sy'n NEET (9%);
- mae cyfran y bobl ifanc 19-24 oed ag anabledd⁶⁸ sy'n NEET (43%) yn 26 pwynt canran yn uwch na chyfran y bobl ifanc 16-18 oed nad oes ganddynt anabledd sy'n NEET (16%).

Gwella'r broses o gasglu a defnyddio data

- 7.16. Fel yr amlinellir yn Nhabl 6 yn yr atodiad, er mwyn cryfhau monitro a gwerthuso (gan gynnwys meincnodi), dylid canolbwyntio ar:
- safonau a phrosesau (fel cydymffurfio â'r Cod Ymarfer AAA a'r elfennau o arfer da a amlinellwyd yn Nhabl 3, Tabl 4 a Thabl 5);
 - deilliannau neu ganlyniadau (fel cyflawniadau pobl ifanc);
 - profiadau rhanddeiliaid (sut roedd yn teimlo, canfyddiadau) (DoH, 2010).
- 7.17. Fel mae Tabl 6 yn yr atodiad yn dangos, mae cwmpas sylweddol i wneud defnydd gwell o'r data presennol ar ddeilliannau (er gwaethaf gwendidau a bylchau). Gallai gwelliannau, er enghraifft, mewn cywirdeb cofnodi ac adrodd am AAA/AAD ac wrth gasglu data ar gyrchfannau ar ôl addysg bellach, wella gwerth y data hwn ymhellach. Serch hynny, mae bylchau yn y data. Maent yn ymwneud yn benodol â:
- safonau a phrosesau, y gellid eu datrys o bosibl drwy ddatblygu'r ffordd mae Estyn yn arolygu trefniadau pontio;
 - profiadau rhanddeiliaid, y gellid eu datrys o bosibl drwy leoliadau'n casglu data ar brofiadau rhanddeiliaid (gweler Tabl 6 yn yr atodiad am fanylion).

⁶⁷ Nid oes data penodol ar gael ar bobl ifanc ag anhawster neu anabledd dysgu y mae'n hysbys eu bod yn NEET.

⁶⁸ Nid oes data penodol ar gael ar bobl ifanc ag anhawster neu anabledd dysgu y mae'n hysbys eu bod yn NEET.

Datblygu atebolrwydd poblogaeth

- 7.18. Her allweddol ar gyfer gwerthuso a meincnodi yw'r ystod o sefydliadau a rhanddeiliaid sy'n cyfrannu at ddeilliannau (a phrofiadau rhanddeiliaid hefyd). Mae modelau fel atebolrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau, sy'n gwahaniaethu rhwng atebolrwydd "perfformiad" a "phoblogaeth" yn gallu bod yn bwysig yma, ond yn peryglu gwneud neb yn atebol. Heb strwythurau atebolrwydd clir, gellir casglu data heb eu defnyddio'n effeithiol. Gallai ALI (neu fyrddau gwasanaethau lleol) gymryd rôl allweddol yma a bod yn atebol ar gyfer cofnodi deilliannau pobl ifanc ag AAD. Gallai strwythurau atebolrwydd wedi'u datblygu gan ALI ar gyfer adrodd am ddeilliannau plant sy'n derbyn gofal (e.e. lle mae swyddogion yn adrodd i aelodau etholedig) a phobl ifanc sy'n NEET, neu mewn perygl o fod yn NEET (e.e. lle mae canlyniadau'n cael eu hadrodd i 'fyrddau NEET'), fod yn berthnasol fel modelau y gellid eu hefelychu neu eu datblygu.
- 7.19. Byddai canolbwyntio ar boblogaeth, yn ogystal ag atebolrwydd perfformiad, yn helpu i gynorthwyo cynigion am lunio 'marchnad' a datblygu opsiynau ôl-16 i sicrhau bod y cynnig dysgu'n diwallu diddordebau a dyheadau pobl ifanc ag AAD. Byddai hefyd yn cynorthwyo ymdrechion i sicrhau nad y coleg yw'r opsiwn diodyn yn absenoldeb dewisiadau eraill, ond ei fod yn ddewis cadarnhaol.

8. Casgliadau

Arfer ledled Cymru

- 8.1. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr astudiaeth hon ac ymchwil arall yn awgrymu bod trefniadau pontio i ddysgwyr ag AAD yn dda ar y cyfan ac yn gwella, ond mae lle i wella ac mae'r arfer yn parhau'n anghyson, gan gyfrannu at brofiadau da a drwg (Estyn 2015a, 2015b).
- 8.2. Mae'r astudiaeth hon yn ei gwneud yn glir nad oes ateb i bob problem; mae gwendidau cynllunio pontio yn cael eu deall yn dda, yn hirsefydlog ac yn amryfal o ran eu natur. Yn yr un modd, mae'r enghreifftiau o arfer da hefyd yn cael eu deall yn dda ac yn amryfal o ran eu natur. Yn fras, mae pontio cadarnhaol yn gysylltiedig â'r canlynol:
- dechrau'n gynnar a datblygu prosesau cynllunio cynhwysol, sy'n canolbwyntio ar unigolion;
 - canolbwyntio ar yr hirdymor, gyda phroses effeithiol o lunio cynlluniau gweithredu a pharatoi ar gyfer pontio sy'n rhan o hyn;
 - gwasanaethau prif ffrwd ac wedi'u targedu yn addasu eu "cynnig" i ddiwallu anghenion a dyheadau pobl ifanc.
- 8.3. I'r gwrthwyneb, mae pontio negyddol yn gysylltiedig ag absenoldeb un neu ragor o'r rhain; er enghraifft, mae cyfyngiadau darpariaeth yn golygu bod rhai pobl ifanc ag AAD, yn enwedig y rhai â rhyw anabledau corfforol, awtistiaeth, anawsterau dysgu difrifol a/neu anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol, yn gallu ei chael yn anodd cael mynediad i ddarpariaeth sy'n diwallu eu hanghenion ac y gall ddarparu ar gyfer eu dyheadau.

Gwahanol brofiadau o bontio

- 8.4. Oherwydd bod arfer yn amrywio, mae profiadau dysgwyr ag AAD, a'u teuluoedd yn dibynnu'n rhannol ar y lleoliadau y maent yn pontio ohonynt ac iddynt a'r gwasanaethau cymorth y gallant gael mynediad iddynt (h.y. mae rhai lleoliadau a gwasanaethau yn fwy effeithiol nag eraill). Mae hyn yn creu'r

hyn sydd wedi'i ddisgrifio fel "loteri cod post" i ddysgwyr ag AAA/AAD (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2007).

8.5. Mae'r profiadau hefyd yn wahanol ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl ifanc. Roedd y rhai yr ystyriwyd bod eu profiadau'n waeth na phrofiadau eraill yn cynnwys:

- pobl ifanc na allai eu hanghenion lluosog gael eu diwallu'n hawdd gan wasanaethau presennol, fel rhai pobl ifanc ag awtistiaeth (gweler e.e. Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2010), anawsterau dysgu difrifol (Townesley et al., 2013) a/neu anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol;
- pobl ifanc ag anawsterau ysgafn i gymedrol nad yw eu hanghenion o bosibl yn ddigon difrifol i'w galluogi i gael mynediad i gymorth arbenigol, ond y maent yn cael trafferth ymdopi mewn darpariaeth prif ffrwd;
- plant sy'n derbyn gofal (ag AAD), gydag enghreifftiau o sut y mae pobl ifanc sy'n derbyn gofal o bosibl wedi cael profiad o symudiadau lluosog yn ystod cyfnodau hanfodol, a'r pryderon am y gwrthdaro buddiannau posibl lle byddai'n rhaid i'r rhiant corfforaethol (yr ALI) benderfynu a ddylid cyllido darpariaeth gostus ar gyfer y dysgwr.

8.6. Yn ogystal, mae'r dystiolaeth a gasglwyd gan yr astudiaeth hon⁶⁹ yn awgrymu, ar y cyfan, ei bod yn ymddangos bod profiadau rhieni a gofalwyr yn waeth na phrofiadau pobl ifanc sy'n pontio'n llwyddiannus i AB⁷⁰, oherwydd, er enghraifft, bod rhieni a gofalwyr yn cymryd mwy o ran ym miwrocratiaeth cynllunio pontio sy'n aml yn gymhleth, yn hir ac yn heriol. Mae hyn yn golygu hyd yn oed os yw'r deilliant yn gadarnhaol, bu'r broses o gyrraedd yno yn aml yn un anodd. Mae llawer o gynllunio pontio'n digwydd 'y tu ôl i'r llenni' ac yn aml mae rhieni a gofalwyr yn ceisio gwarchod pobl ifanc rhag y problemau a'r ansicrwydd maent yn eu profi, sy'n golygu efallai na fydd pobl ifanc yn wynebu'r un problemau â rhieni a gofalwyr wrth gynllunio pontio. Fodd bynnag, nid oes data digonol gan ddysgwyr, rhieni a gofalwyr i gymharu eu

⁶⁹ Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth gan rieni a gofalwyr y cyfwelwyd â hwy, gan SNAP Cymru ac o astudiaethau ac adolygiadau cynharach, sydd wedi nodi'n gyson brofiadau negyddol rhieni a gofalwyr (gweler e.e. LIC, 2013c; Sloper, et al, 2010; Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2010, 2007).

⁷⁰ Wedi'i adlewyrchu, er enghraifft, yn eu hadborth cadarnhaol mewn Arolygon Llais y Dysgwr, a drafodwyd yn adran saith. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, mae profiadau'r bobl ifanc hynny nad ydynt yn pontio'n llwyddiannus i AB yn debygol o fod yn wael.

profiadau'n gadarn. Mae'n bosibl, er enghraifft, bod rhieni a gofalwyr sydd wedi cael y profiadau mwyaf negyddol yn fwy tebygol o gyfrannu at ymchwil ac adolygiadau.

- 8.7. Dylai'r enghreifftiau o arfer effeithiol a amlinellwyd yn adrannau tri i chwech, os cânt eu gweithredu, gyfrannu at welliannau i'r holl bobl ifanc (a'u rhieni a'u gofalwyr), gan gynnwys y grwpiau sydd wedi cael profiadau gwaeth ar y cyfan. Serch hynny, efallai y bydd angen iddynt gael eu hategu gan gamau gweithredu penodol, er enghraifft er mwyn gwella opsiynau ôl-16 i bobl ifanc ag AAD a lleihau nifer y symudiadau i blant sy'n derbyn gofal (ag AAD).
- 8.8. Gellir hefyd ddod o hyd i brofiadau negyddol lle mae agweddau eraill ar bontio person ifanc, fel pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion, sy'n aml yn rhedeg ochr yn ochr â phontio addysgol, yn wael, gan "gymylu" eu profiadau o bontio addysgol. Dylai diwygiadau fel Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) helpu yn hyn o beth.

Heriau a chyfleoedd

Gweithredu arfer da

- 8.9. Fel y mae'r astudiaeth hon wedi dangos, er bod egwyddor arfer da yn cael ei deall yn dda, mae'r gweithredu wedi bod yn fylchog ledled Cymru. Felly mae deall pam nad yw polisi a chanllawiau presennol (fel y Cod Ymarfer AAA), sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o feysydd o arfer effeithiol sydd wedi'u dogfennu gan yr astudiaeth hon, yn cael eu gweithredu yn bwysig o ran gwella arfer. Er enghraifft, gallai Cydlynwyr AAA mewn lleoliadau dysgu asesu cydymffurfiaeth â'r Cod, nodi rhwystrau a gweithio gydag arweinwyr ysgolion eraill i fynd i'r afael â hwy. Bydd deall pam nad yw polisi a chanllawiau presennol wedi'u gweithredu hefyd yn bwysig o ran sicrhau bod elfennau allweddol y diwygiadau AAA arfaethedig, fel arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion (a drafodir isod) yn cael eu gweithredu.

Mae arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion (a drafodir isod) yn ganolog i arfer effeithiol, ond mae hefyd yn creu heriau penodol mewn perthynas â gweithredu arfer da. Mae'n golygu bod angen i egwyddorion arfer da (a amlinellir yn yr adroddiad) gael eu cymhwyso i unigolion (y gall eu hanghenion a'u diddordebau fod yn wahanol) a'u gweithredu mewn cyd-destunau gwahanol. Felly, gall arfer effeithiol arfer effeithiol fod yn wahanol (a dylai fod yn wahanol), yn dibynnu ar ddiddordebau a dyheadau rhanddeiliaid unigol a'r cyd-destun (sy'n golygu na all egwyddorion yr arfer effeithiol gael eu gweithredu'n 'fecanyddol').

Arfer sy'n canolbwyntio ar y person

8.10. Disgwylir i elfennau allweddol o'r diwygiadau AAA, fel cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion a datblygu Cynlluniau Datblygu Unigol helpu i fynd i'r afael â gwendidau sy'n ymwneud â chynllunio a pharatoi gwael. Cafodd yr astudiaeth lle roedd cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion a chynlluniau'n seiliedig ar Gynlluniau Datblygu Unigol a ddatblygwyd gan y cynlluniau peilot ADY, yn cael eu defnyddio (neu wedi cael eu defnyddio) roedd eu heffaith ar gynllunio pontio yn gadarnhaol. Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd Llywodraeth Cymru yn cyllido awdurdodau lleol a SAB i gyflwyno hyfforddiant cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion ac mae wedi paratoi adnoddau ar-lein i gynorthwyo hyn. Mae'n debygol y bydd ymdrechion parhaus i hyrwyddo arfer da mewn perthynas â chynllunio pontio sy'n canolbwyntio ar unigolion drwy hyfforddi a deunyddiau (fel canllawiau arfer da) yn bwysig. Rhoddir enghreifftiau yn Nhabl 3.

8.11. Serch hynny, mae'r astudiaeth hon ac astudiaethau eraill yn dangos er bod cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion yn nodwedd allweddol o arfer effeithiol, mae'r gwaith o'i weithredu yn heriol. Er enghraifft:

- erys pryderon am y galw o ran amser ar gyfer prosesau sy'n canolbwyntio ar unigolion;
- gall targedau a chyllid ei gwneud yn anodd i leoliadau a gwasanaethau ymateb mewn ffyrdd sy'n canolbwyntio ar unigolion;

- mae'r gofynion ar gyfer hyblygrwydd yn cynyddu'r risg o anghysondeb ac arfer gwael (a ystyrir yn wendidau allweddol yn y trefniadau presennol) (LIC, 2014a).

8.12. At hynny, gall fod yn haws gweithredu cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion lle mae'r arfer eisoes yn effeithiol. Lle ceir hyder i rymuso gweithwyr proffesiynol i gymryd cyfrifoldeb a defnyddio'u "crebwyll gorau", mae'n debygol y bydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion yn haws i'w weithredu ac y bydd yn fwy effeithiol. I'r gwrthwyneb, lle ceir llai o hyder mewn gweithwyr proffesiynol (oherwydd, er enghraifft, lle mae'r arfer presennol yn wael) gall fod achos dros fwy o ragnodi o ran yr hyn y dylid ei wneud, gan gyfyngu ar hyblygrwydd gweithwyr proffesiynol, er mwyn ceisio gwella safonau.⁷¹ Mae datblygu'r gweithlu (a drafodir isod), yn debygol o fod yn bwysig yma hefyd.

Arweinyddiaeth systemau a meddwl drwy systemau

8.13. Fel yr amlinellwyd yn adran pump, mae pontio o reidrwydd yn cynnwys cydweithio rhwng lleoliadau a gwasanaethau, a phan fydd un neu ragor o'r lleoliadau a gwasanaethau dan sylw yn methu bydd pontio yn fwy anodd a gall arwain at fethiant. Felly mae arweinyddiaeth systemau (arweinyddiaeth sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau sefydliadau unigol), yn hanfodol i wella pontio i bobl ifanc ag AAD (gweler [Tabl 4](#)). Er enghraifft, gallai hyn gynnwys ysgolion yn bod yn fwy rhagweithiol o ran nodi materion sydd angen i sefydliadau addysg bellach (SAB) eu hystyried a SAB yn ymwneud yn fwy rhagweithiol ag ysgolion i gynllunio ar gyfer pontio pobl ifanc a'u paratoi ar gyfer hyn.

8.14. Mae'n debygol y bydd llawer o'r heriau a'r gwendidau a nodwyd gan yr adroddiad hwn yn anodd i fynd i'r afael â hwy dim ond drwy weithredoedd gan leoliadau/gwasanaethau unigol i wella cynllunio pontio. Mae profiad cynlluniau braenaru AAA yn Lloegr (CfDC, 2011) yn pwysleisio pwysigrwydd diwygio ar lefel strategol (gan gynnwys datblygu'r gweithlu, comisiynu ar y cyd, datblygu

⁷¹ Ceir tebygrwydd yma â'r llenyddiaeth ar effeithiolrwydd ysgolion sy'n awgrymu y gall fod perthynas groes rhwng effeithiolrwydd ysgolion a graddau'r rhagnodi sydd ei angen: wrth i effeithiolrwydd ddirywio, mae lefel y rhagnodi sydd ei hangen yn cynyddu (Hopkins, 2007).

gweledigaeth a rennir a datblygu opsiynau ôl-16) er mwyn gwneud cynllunio pontio yn effeithio ar lefel yr unigolyn.

8.15. Felly mae meddwl drwy systemau (meddwl am yr holl elfennau sy'n dylanwadu ar bontio dysgwyr a'r ffordd y maent yn ymwneud â'i gilydd) hefyd yn bwysig. Mae hyn yn golygu defnyddio dull ar draws systemau i wella trefniadau pontio. Er enghraifft:

- mae prosesau sy'n canolbwyntio ar unigolion yn galw am hyblygrwydd, sy'n lleihau'r lle ar gyfer safoni a chysondeb (ac er enghraifft y defnydd o ganllawiau i ragnodi'r hyn y dylid ei wneud). O ganlyniad mae camau gweithredu fel datblygu'r gweithlu a gwelliannau o ran casglu a defnyddio da yn debygol o dyfu o ran eu pwysigrwydd wrth wella arfer ledled Cymru;
- efallai y bydd angen i gamau gweithredu ar gyfer gwella prosesau cynllunio pontio i bobl ifanc unigol (fel hyfforddiant mewn cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion a rhannu arfer da) gael eu hategu gan weithredoedd ar lefel strategol, er enghraifft i ymestyn opsiynau ôl-16 dysgwyr (gweler isod) a mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chyllido darpariaeth ôl-16 arbenigol;
- Er nad yw'n nodwedd amlwg yn y llenyddiaeth a adolygwyd ar gyfer yr astudiaeth hon, mae tystiolaeth o feysydd cysylltiedig, fel ymchwil i achosion o bobl ifanc yn ymddieithrio o addysg a hyfforddiant, yn amlygu sut y mae gwendidau o ran sgiliau cymdeithasol ac emosiynol pobl ifanc (a all fod yn gysylltiedig ag AAD), a diffyg cymorth, yn gallu rhwystro llwybrau pontio (ODPM, 2005). Felly, dylai deilliannau, darpariaeth a chymorth i bobl ifanc ag AAD gael eu hintegreiddio i ddatblygu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn genedlaethol ac yn lleol (gweler Tabl 5 er enghraifft).⁷²

⁷² Er enghraifft, gallai hyn gynnwys nodi a gwerthuso profiadau a deilliannau pobl ifanc ag AAA/AAD fel grŵp penodol sydd mewn perygl o ymddieithrio; a datblygu rôl cydlynwyr ymgysylltu a datblygu o ran nodi rhwystrau strwythurol i bontio na ellir mynd i'r afael â hwy'n hawdd drwy brosesau cynllunio unigol, ac y mae angen mynd i'r afael â hwy ar lefel strategol.

- 8.16. Dylid hefyd ystyried yr argymhellion a wnaed gan astudiaethau eraill (cynharach) i feysydd fel cyllido ôl-16⁷³ a darpariaeth addysgol ôl-19 i bobl ifanc ag anghenion cymhleth⁷⁴, nad oedd yn brif ganolbwynt ar gyfer yr astudiaeth hon, ond sydd hefyd yn gallu llywio profiadau dysgwyr a'u rhieni a'u gofalwyr o bontio, a deilliannau cynllunio pontio.
- 8.17. Wrth asesu'r cwmpas ar gyfer diwygio, mae'n bwysig ystyried y cyd-destun heriol iawn sy'n wynebu lleoliadau, darparwyr a gwasanaethau dysgu, o ystyried toriadau i gyllid AB a chynnydd yn y galw (y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, 2014). Cafodd yr astudiaeth hon enghreifftiau o lle mae nifer cynyddol o bobl ifanc ag AAD, ynghyd ag adnoddau cyfyngedig, yn gorfod gweithredu fel sbardun i arloesi (gweler hefyd NEF, 2012) i helpu i fynd i'r afael â rhwystrau strwythurol, fel camau i ddatblygu darpariaeth leol i gymryd lle lleoliadau drud "y tu allan i'r sir". Fodd bynnag, ceir hefyd lawer o enghreifftiau lle mae newidiadau, fel diwedd y prosiect *Cyfleoedd Gwirioneddol* neu newidiadau i hygyrchedd darpariaeth AB, wedi'i gwneud yn fwy anodd mynd i'r afael â rhwystrau (gweler hefyd NEF, 2012). Mae'r astudiaeth hon hefyd yn dangos bod gorfodi gwasanaethau unigol i gwtogi yn gallu arwain atynt yn canolbwyntio ar flaenoriaethau a thargedau eu gwasanaeth neu eu lleoliad eu hunain mewn ffordd sy'n rhwystro meddwl drwy systemau ac arweinyddiaeth systemau.

Monitro, gwerthuso ac atebolrwydd

- 8.18. Fel yr amlinellwyd yn adran saith, dylai casglu a defnyddio data ar brofiadau a deilliannau pontio pobl ifanc fod yn ganolog i ymdrechion i wella profiadau a deilliannau. Gallai hyn gynnwys:
- gwella'r defnydd o ddata presennol ar ddeilliannau ac ystyried sut y gellid mynd i'r afael â bylchau yn y broses bresennol o gasglu data o ran

⁷³ Gweler er enghraifft, y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Drefniadau'r Ddyfodol ar gyfer Ariannu Anghenion Dysgu Ychwanegol Ôl-16 mewn Ysgolion a Maes Addysg Bellach (LIC, 2010)

⁷⁴ Gweler, er enghraifft, yr astudiaeth i nodi Darpariaeth Addysg Ôl-19 i Bobl Ifanc ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yng Nghymru (Townsend et al., 2013).

safonau, deilliannau a phrofiadau rhanddeiliaid (gweler Tabl 6 am fanylion);

- datblygu strwythurau atebolrwydd cliriach mewn perthynas â deilliannau a phrofiadau dysgwyr ag AAD (gweler Tabl 6). Er enghraifft, gallai awdurdodau lleol gymryd cyfrifoldeb am ddeilliannau i bobl ifanc ag AAD, mewn ffordd debyg i'r hyn y mae rhai awdurdodau lleol wedi cymryd cyfrifoldeb “corfforaethol” am leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET, neu mewn perygl o fod yn NEET. Gallai hyn gynnwys meincnodi darpariaeth ar draws consortia.

Ymestyn cyfleoedd ôl-ysgol i bobl ifanc ag AAD

8.19. Mae rhai pobl ifanc nad ydynt yn “ffitio” i mewn i'r ddarpariaeth bresennol yn hawdd (ac felly maent yn cael trafferth gyda phontio). Gallant, er enghraifft, gael eu sianelu tuag at ddarpariaeth sydd ar gael ond sy'n aneffeithiol (ymateb sydd, i bob pwrpas, yn canolbwyntio ar y gwasanaeth, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr unigolyn). Gall gwella eu pontio olygu datblygu darpariaeth AB. Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd yn adran pedwar, ceir tystiolaeth bod rhai dysgwyr yn dewis pontio i addysg bellach, oherwydd eu bod hwy, neu eu rhieni/gofalwyr, yn teimlo mai prin yw'r opsiynau eraill sydd ar gael iddynt (yn hytrach nag oherwydd eu bod am fynd ati'n weithredol i barhau â'u dysgu ym maes addysg bellach). Felly, er ei fod y tu hwnt i gwmpas yr astudiaeth hon, mae'r canfyddiadau'n awgrymu'r angen i adolygu a, lle y bo angen, ddatblygu mwy o ddarpariaeth nad yw yn y coleg ar gyfer pobl ifanc ag AAD (gan gynnwys darpariaeth dysgu seiliedig ar waith nad yw yn y coleg). Gallai hyn gynnwys datblygu gwirfoddoli yn y gymuned a gweithgareddau cymdeithasol, chwaraeon a hamdden sy'n galluogi pobl ifanc ag AAD i atgyfnerthu'r sgiliau a gafodd eu meithrin yn yr ysgol ac o bosibl ymestyn y sgiliau hynny ac sy'n cynnig gweithgareddau ystyrlon a phwrpasol (gweler e.e. Beyer, et al, 2014).

9. Llyfryddiaeth

Beyer, S. a Kaehne, A. (2013a). *Real Opportunities Project: Staff views of its effectiveness and outcomes*. Caerdydd: Canolfan Anableddau Dysgu Cymru: Prifysgol Caerdydd.

Beyer, S., Kaehne, A., Meek, A., Pimm, C., a Davies, A. (2014). *Impact of the Real Opportunities Project*. Caerdydd: Canolfan Anableddau Dysgu Cymru: Prifysgol Caerdydd.

Blalock, G. a Patton, J. (1996). *Transition and students with learning disabilities: Creating Sound Futures*: yn y *Journal of Learning Disabilities*, 29, tt.7-16.

Chambers, R. (1997). *Whose Reality Counts? Putting the First Last*: ITDG.

Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (2014). *Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus: Adroddiad Llawn*: Caerdydd: Llywodraeth Cymru, ar gael ar-lein yn:

<http://llyw.cymru/docs/dpsp/publications/psgd/140120-psgd-full-report-cyv2.pdf>

Cyngor dros Blant Anabl (2011). *Information and learning from the Aiming High for Disabled Children Transition Support Programme*, ar gael ar-lein yn:

http://www.councilfordisabledchildren.org.uk/media/136244/information_and_learning_from_the_ahdc_tsp_report.pdf

Cummings, R., Maddux, C. D. a Casey, J. (2000). *Individualized Transition Planning for Students With Learning Disabilities*, yn *The Career Development Quarterly*, 49: tt.60–72.

Yr Adran Iechyd (2010). *Working together for change: using person-centred information for commissioning*, ar gael ar-lein yn:

http://www.thinklocalactpersonal.org.uk/_library/WTFC_Final.pdf

Dunn, C., Barren, K.S., Taylor, S.L., a Dotson, C.K. (2012). *Assisting students with high-incidence disabilities to pursue careers in science, technology, engineering and mathematics*. *Intervention in School and Clinic*, 48, tt.47-54.

Dyke, P., Bourke, J., Llewellyn, G. a Leonard, H. (2013). *The experiences of mothers of young adults with an intellectual disability transitioning from secondary school to adult life*: yn *Journal of Intellectual and Developmental Disability*, 38:2, tt.149-162

Estyn (2007). Arfarnu deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, ar gael ar-lein yn http://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/arfarnu-canlyniadau-ar-gyfer-plant-phobl-ifanc-ag-anghenion-dysgu-ychwanegol?_ga=1.140583290.970409200.1446240802

Estyn (2014a). *Cylch Gwaith Blynyddol Estyn 2014-15*, ar gael ar-lein yn: <http://llyw.cymru/docs/dcells/publications/140220-estyn-remit-cy.pdf>

Estyn (2014b). *Canllaw hunanarfarnu ar gyfer ysgolion uwchradd 2014*, ar gael ar-lein yn: http://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Secondary%20manual%20cy_0.pdf

Estyn (2014c). *Canllaw hunanarfarnu ar gyfer ysgolion arbennig 2014*, ar gael ar-lein yn: http://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Special%20manual%20cy_0.pdf

Estyn (2015a) *Gwasanaethau cymorth dysgwyr mewn colegau addysg bellach ar gyfer dysgwyr 16-19 oed*. Ar gael ar-lein yn: <http://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Learner%20support%20services%20in%20further%20education%20colleges%20for%20learners%20aged%2016-19%20-%20CY.pdf>

Estyn (2015b). *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru*, ar gael ar-lein yn:

http://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Adroddiad_Blynyddol_Prif_Arolygydd_Ei_Mawrhydi_dros_Addysg_a_Hyfforddiant_yng_Nghymru_2013-2014.pdf

Yr Asiantaeth Ewropeaidd dros Anghenion Arbennig ac Addysgu Gynhwysol [EASNIE] (2012). *Teacher Education for Inclusion: Profile of Inclusive Teachers Denmark*: EASNIE.

Franklin, A. (2013). *Disabled Young People's Transitions: Models and Methods for Involvement in the UK*: presentation at the Centre for Children and Families Applied Research, Coventry University.

Gebhardt, M., Tretter, T., Schwab, S., a Gasteiger Klicpera, B. (2011). *The Transition from School to the Workplace for Students with Learning Disabilities: Status Quo and the Efficiency of Pre-Vocational and Vocational Training Schemes*. *European Journal of Special Needs Education*, 26(4), 443–459.

Trysorlys ei Mawrhydi, (2011). *The Magenta Book Guidance for evaluation*, ar gael ar-lein yn:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/220542/magenta_book_combined.pdf

Hopkins, D. (2007). *Every School a Great School: realizing the potential of systems leadership*. Maidenhead: Gwasg y Brifysgol Agored.

Ipsos Mori (d.d.). *Learner Voice Wales' Further Education satisfaction survey findings*. Heb ei gyhoeddi.

Kaehne, A. a Beyer, S. (2009). *Transition Partnerships: the views of education professionals and staff in support services for young people with learning disabilities*, *British Journal of Special Education* 36:2, tt.112-119.

Kaehne, A. a Beyer, S. (2009b). *Views of professionals on aims and outcomes of transition for young people with learning disabilities*, yn *British Journal of Learning Disabilities*, 37, tt.138-144.

Kaehne, A. a Beyer, S. (2013). *Person-centred reviews as a mechanism for planning the post-school transition of young people with intellectual disability*, yn *Journal of Intellectual Disability Research*, 58:7, tt.603-611.

Martin, K., Hart, R., White, R. a Sharp, C. (2011). *Young people with special educational needs/learning difficulties and disabilities: Research into planning for adult life and services*, National Foundation for Education Research, ar gael ar-lein ar:

https://www.nfer.ac.uk/publications/SENT01/SENT01_home.cfm?publicationID=592&title=Young%20people%20with%20special%20educational%20needs/learning%20difficulties%20and%20disabilities:%20research%20into%20planning%20for%20adult%20life%20and%20services

Milsom, A., Akos, P., a Thompson, M. (2004). *A psychoeducational group approach to postsecondary transition planning for students with learning disabilities*, yn *The Journal for Specialists in Group Work*, 29:3, tt.395-412.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2007). *Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Adolygiad Polisi o Anghenion Addysgol Arbennig Rhan 3: Pontio*, ar gael ar-lein yn: <http://www.assembly.wales/Laid%20Documents/LD6596%20-%20Education,%20Lifelong%20Learning%20and%20Skills%20Committee%20Policy%20Review%20of%20Additional%20Educational%20Needs-19032007-44420/bus-GUIDE-a418a2221ff4ec27fb94740522d38822-English.pdf>

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2009). *Adroddiad ar ystyriaethau'r Pwyllgor Menter a Dysgu o'r ddeiseb ar fyfyrwyr ôl-19 sydd ag anghenion dysgu ychwanegol*, ar gael ar-lein yn: <http://www.assembly.wales/cy/bus-home/bus-third-assembly/3-committees/3-scrutiny/3-els/bus-committees-third-els-report/Pages/bus-committees-third-el-report-el3-09-r05.aspx>

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2010). *Specialist provision for young people with autism in further education May 2010*, Enterprise and Learning Committee, ar gael ar-lein yn http://dera.ioe.ac.uk/11247/1/specialist_provision_-_e.pdf

Y Sefydliad Economeg Newydd (2012). *Doing Services Differently Local innovations for disabled people and their families*, ar gael ar-lein yn: <https://www.scope.org.uk/Scope/media/Documents/Publication%20Directory/Doing-services-differently.pdf?ext=.pdf>

Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (2005). *Transitions - Young Adults with Complex Needs - A Social Exclusion Unit Final Report*, ar gael ar-lein yn: http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+http://www.cabinetoffice.gov.uk/media/cabinetoffice/social_exclusion_task_force/assets/publications_1997_to_2006/transitions_young_adults.pdf

Pawson, R. a Tilley, N. (1997). *Realistic Evaluation*, Llundain: Sage.

Sloper, P., Beecham, J., Clarke, S., Franklin, A., Moran, N. a Cusworth, L. (2010). *Models of Multi-Agency Services for Transition to Adult Services for Disabled Young People and those with Complex Health Needs: Impact and Costs*. Caerefrog: Uned Ymchwil Polisi Cymdeithasol, Prifysgol Caerefrog.

Uned Allgáu Cymdeithasol, (1999). *Bridging the Gap: New Opportunities for 16 – 18 year Olds Not in Education, Employment or Training*. Ar gael ar-lein yn: <http://dera.ioe.ac.uk/15119/2/bridging-the-gap.pdf>.

Yr Uned Arloesedd, the National College of School Leadership and Demos (2007). *System Leadership & Governance Leadership Beyond Institutional Boundaries*. Ar gael ar-lein yn: <http://www.innovationunit.org/sites/default/files/system%20governance%20and%20leadership-beyond%20boundaries.pdf>

Thornthwaite, S (2011). *Transport for Young people Aged 19-25 with Additional Needs*. Adroddiad heb ei gyhoeddi a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

Townsley, R. J., Beyer, S., Robinson, C. a Williams, V (2013). *Post-19 Education Provision for Young People with Complex Learning Difficulties Living in Wales: levels of need and current provision*. Caerdydd: Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2004a). *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru* [Ar-lein]. Ar gael ar:

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/131016-sen-code-of-practice-for-wales-cy.pdf>

Llywodraeth Cymru (2004b). *Canllawiau Llwybrau Dysgu 14-19* Caerdydd:

Llywodraeth Cymru, ar gael yn:

<http://llyw.cymru/dcells/publications/publications/circularsindex/04/learningpathways/nafwc3704-w.pdf?lang=cy>

Llywodraeth Cymru (2009) *Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd ar gyfer dysgu ôl-16 yng Nghymru Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* ar gael ar-lein yn

<http://llyw.cymru/docs/dcells/publications/090305qualityframeworkpost16cy.pdf>

Llywodraeth Cymru (2010). *Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Drefniadau'r Dyfodol ar gyfer Ariannu Anghenion Dysgu Ychwanegol ôl-16 Mewn Ysgolion a Maes Addysg Bellach*, ar gael ar-lein yn:

<http://llyw.cymru/docs/dcells/publications/101213post16learningreportcy.pdf>

Llywodraeth Cymru (2013a). *Post-19 Education Provision for Young People with Complex Learning Difficulties Living in Wales: levels of need and current provision*,

ar gael ar-lein yn: <http://dera.ioe.ac.uk/18416/1/130510-post-19-education-provision-young-people-complex-learning-difficulties-levels-need-current-provision-en.pdf>

Llywodraeth Cymru (2013b). *Programme of Action Research to Inform the Evaluation of the Additional Learning Needs Pilots: Robust Trialling Phase*, ar gael

ar-lein yn: <http://gov.wales/docs/caecd/research/130823-programme-action->

[research-inform-evaluation-additional-learning-needs-pilots-robust-trialling-phase-en.pdf](#)

Llywodraeth Cymru (2013c). *The Costs and Benefits of Transition Key Working: an analysis of five pilot projects*, accessed online yn:

<http://gov.wales/docs/caecd/research/130125-costs-benefits-transition-key-working-cy.pdf>

Llywodraeth Cymru (2013d). *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid: Cynllun gweithredu*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael ar-lein yn:

<http://llyw.cymru/docs/dcells/publications/131007-ye-framework-implementation-plan-cy.pdf>

Llywodraeth Cymru (2014a). *Cymwys am Oes. Cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*. <http://llyw.cymru/docs/dcells/publications/141001-qualified-for-life-cy.pdf>

Llywodraeth Cymru (2014b). *Gwerthusiad ffurfiannol o'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid – Canfyddiadau Dros Dro*, ar gael ar-lein yn:

<http://llyw.cymru/docs/caecd/research/2014/141216-evaluation-youth-engagement-progression-framework-interim-cy.pdf>

Llywodraeth Cymru (2014c). *Cynigion deddfwriaethol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol*, ar gael ar-lein yn: <http://llyw.cymru/docs/dcells/publications/140522-consultation-document-cy.pdf>

Llywodraeth Cymru (2015a). *Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru): Memorandwm Esboniadol Drafft*

<http://llyw.cymru/docs/dcells/consultation/150706-explanatory-memorandum-cy1.pdf>

Llywodraeth Cymru (2015b). *Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru): Dogfen Ymgynghori*:

<http://llyw.cymru/docs/dcells/consultation/150703-consultation-document-w.pdf>

Llywodraeth Cymru (2015c). *Canllawiau hunanasesu ar gyfer darparwyr ôl-16*, ar gael ar-lein yn: <http://llyw.cymru/docs/dcells/publications/150324-sar-guidance-cy.pdf>

Llywodraeth Cymru (2015d). *Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd: Thema 3: Croesawu teuluoedd i ymgysylltu â'r ysgol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael ar-lein yn:

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150729-theme3-cy.pdf>

Llywodraeth Cymru (2015e) *Pecyn cymorth adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion: Canllawiau*

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150909-reviews-toolkit-cy.pdf>

Llywodraeth Cymru (ar y gweill). *Outcome Evaluation of the Autistic Spectrum Disorders Strategic Action Plan*.

Williams, P. (2008). *Transition and people with learning disabilities*, ASLIB proceedings, 60:5, tt.474-492.

Atodiad 1: Diffiniadau

Diffiniad o anghenion addysgol arbennig

Mae Adran 312(1) o Ddeddf Addysg 1996 yn nodi bod gan blant anghenion addysgol arbennig (AAA) os:

oes ganddynt anhawster dysgu sy'n golygu bod angen darpariaeth addysgol arbennig arnynt. Mae anhawster dysgu yn cael ei ddiffinio gan adran 312(2) fel:

- a) os oes ganddo anhawster dysgu sy'n llawer mwy na'r mwyafrif o'r plant o'r un oedran;
- b) os oes ganddynt anabledd sydd naill ai'n eu hatal neu'n eu rhwystro rhag defnyddio'r math o gyfleusterau addysgol a ddarperir fel arfer i blant o'u hoedran hwy mewn ysgolion yn ardal yr awdurdod lleol; neu
- c) os ydynt yn iau na'r oedran ysgol gorfodol ac yn cael eu cwmpasu gan y diffiniad yn a) neu b) neu y byddent yn cael eu cwmpasu gan y diffiniad hwnnw pe na gwneid darpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer.

Mae Adran 312(4) yn nodi bod darpariaeth addysgol arbennig yn golygu:

- a) i blant dwy flwydd oed neu drosodd, darpariaeth addysgol sy'n ychwanegol at y ddarpariaeth addysgol a wneir fel arfer ar gyfer plant o'u hoedran hwy mewn ysgolion a gynhelir, ac eithrio ysgolion arbennig yn yr ardal, neu sydd fel arall yn wahanol i'r ddarpariaeth addysgol honno;
- b) i blant o dan ddwy flwydd oed, darpariaeth addysgol o unrhyw fath.

Diffiniad o anhawster dysgu

Mae Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn diffinio rhywun ag anhawster dysgu:

- (a) os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n llawer mwy na'r mwyafrif o'r personau o'r un oedran; neu

(b) mae ganddo anabledd sydd naill ai'n ei atal neu ei rwystro rhag defnyddio cyfleusterau o'r math sydd fel arfer yn cael eu darparu gan sefydliadau sy'n darparu addysg neu hyfforddiant ôl-16.

Mae'r Ddeddf yn mynd ymlaen i ddatgan nad ystyrir bod gan berson anhawster dysgu dim ond oherwydd bod yr iaith y bydd yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith sydd wedi'i siarad yn ei gartref ar unrhyw adeg.

Atodiad 2: Nodweddion allweddol arfer effeithiol

Tabl 3: Elfennau allweddol sy'n ymwneud â datblygu prosesau cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion⁷⁵

Elfennau allweddol arfer effeithiol	Enghreifftiau o sut i'w gyflawni	Materion i'w hystyried
Dechrau'n gynnar a chynnal y broses ar gyfer yr hirdymor	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Dechreuwch drwy nodi anghenion a dyheadau'r person ifanc o 14 oed (neu'n gynharach) drwy gynnwys pobl ifanc a'r rhai sy'n eu hadnabod. ➤ Sicrhau bod cynllunio pontio yn rhan annatod o adolygiadau blynyddol o flwyddyn naw ymlaen. Dechrau siarad am y dyfodol a darparu gwybodaeth am opsiynau, gan gynnwys ymweliadau, lle y bo'n briodol. ➤ Cynlluniwch ar gyfer yr hirdymor (ac nid dim ond y cam nesaf yn nhaith dysgwr) ➤ Cydnabyddwch er y gall eich rôl fod wedi'i chyfyngu gan amser, rhaid i bobl ifanc a rhieni/gofalwyr fyw gyda'r deilliannau. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall dyheadau, anghenion ac amgylchiadau i gyd newid dros amser.

⁷⁵ Gweler hefyd y pecyn cymorth adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion (LIC, 2015e). <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150909-reviews-toolkit-cy.pdf>

<p>Rhoi pobl ifanc yng nghanol y broses: cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Ystyriwch ffyrdd gwahanol o gynnwys pobl ifanc (e.e. yn amrywio o gyfranogiad uniongyrchol, fel eu rhan mewn cyfarfodydd cynllunio a'u cyfraniad at y rhain, i gyfranogi anuniongyrchol lle, er enghraifft, mae eiriolwyr anffurfiol yn gweithredu ar eu rhan a/neu mae pobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i gyflwyno eu dyheadau a'u diddordebau gan ddefnyddio cyfryngau eraill (fel ffilm neu lyfrynnau darluniadol). ➤ Dylech gynnwys pobl y mae'r person ifanc yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt yn y broses gynllunio, ac sy'n gallu meithrin perthynas â'r person ifanc er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig i berson ifanc ac ar ei gyfer. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Mae cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion yn gysyniad dadleuol, a gall y dehongliadau o'r hyn y mae'n ei olygu fod yn wahanol. ➤ Mae cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion yn ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr ddefnyddio'u 'crebwyll gorau'. ➤ I raddau helaeth mae gallu a pharodrwydd pobl ifanc i gyfrannu (efallai y bydd rhai yn dewis peidio â chyfrannu) yn dibynnu ar y ffyrdd y mae eu cyfranogiad yn y broses yn cael ei annog a'i alluogi ➤ Yn aml bydd angen cymorth ar bobl ifanc er mwyn iddynt allu cyfranogi.
<p>Nodi a chynnwys y rhanddeiliaid allweddol (y bobl allweddol y mae angen</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Cymerwch gamau cadarnhaol i ddod i adnabod rhanddeiliaid (os nad oes perthynas yn bodoli rhyngddynt ymlaen llaw) cyn i'r broses ddechrau. ➤ Defnyddiwch eich crebwyll gorau: nid oes un ffordd "gywir" o strwythuro cynllunio ar gyfer pontio. Byddwch yn bragmatig (ac yn realistig) ynghylch pwy y mae angen 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Bydd gallu a pharodrwydd pobl ifanc, rhieni a gofalwyr i gyfrannu yn dibynnu ar y ffyrdd y mae eu cyfranogiad yn y broses yn cael ei annog a'i alluogi. ➤ Nododd llawer o weithwyr

eu cynnwys)	<p>iddynt gyfrannu a sut gallant/sut dylent gyfrannu.</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Sicrhewch fod rhanddeiliaid wedi'u paratoi (e.e. maent yn gwybod am y broses, gan gynnwys beth fydd yn digwydd mewn cyfarfodydd, a chael amser a chymorth i gyfrannu). ➤ Nodwch rwystrau posibl i gyfranogiad rhanddeiliaid ac ymateb iddynt (e.e. cymryd y broses o ddifrif, buddsoddi ynddi, i ddangos ei phwysigrwydd i eraill; meddwl am anghenion rhanddeiliaid wrth amserlennu amseroedd/dyddiadau cyfarfod). ➤ Derbyniwch fod cynllunio pontio effeithiol yn cymryd amser (gyda chostau o ganlyniad i hynny e.e. o ran amser staff). 	proffesiynol fod cyfarfodydd yn cymryd llawer o amser ac roedd cyfranogiad rhai grwpiau, fel gweithwyr proffesiynol iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, mewn cyfarfodydd yn aml yn fylchog.
Darparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd diduedd	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Sicrhau bod y wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd yn amserol, yn gywir ac yn berthnasol⁷⁶. ➤ Sicrhewch fod gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd yn hygyrch (e.e. yn cael eu cyfathrebu mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion a diddordebau rhanddeiliaid). 	➤ Gall fod gwrthdaro buddiannau posibl (e.e. mewn perthynas â darpariaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, neu pan fydd person ifanc yn ystyried astudio naill ai mewn 6 ^{ed} dosbarth ysgol neu mewn coleg lleol)
Meithrin	➤ Sicrhewch cyn lleied o newidiadau staff â phosibl, i helpu i	➤ Gall profiadau rhieni a gofawyr yn y

⁷⁶ Er enghraifft, bydd gwybodaeth a chyngor am bontio o'r ysgol i'r coleg yn wahanol i wybodaeth a chyngor am bontio o'r ysgol i'r brifysgol neu i leoliad hyfforddi.

<p>ymddiriedaeth rhanddeiliaid yn y broses</p>	<p>ddarparu parhad ac i helpu i feithrin perthynas o ymddiriedaeth.</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Byddwch yn agored ac yn dryloyw, gan drafod opsiynau a chamau gweithredu dilynol. ➤ Dangoswch ddibynadwyedd (gwneud yr hyn y dywedoch y byddech yn ei wneud). 	<p>gorffennol ddylanwadu ar eu disgwyliadau a'u hymddiriedaeth.</p>
<p>Gwneud penderfyniadau am bontio person ifanc</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Anogwch randdeiliaid i fod yn agored ac yn onest am eu diddordebau a'u dyheadau, gan nodi'r rhai a allai wrthdaro â'i gilydd. ➤ Hwyluswch gytundeb ar y nodau a'r camau gweithredu sy'n ofynnol, gan gynnwys chwilio am ddeilliannau sy'n fuddiol i'r ddwy ochr (lle y bo'n briodol), gan awgrymu dewisiadau eraill a chyfaddawdu, tra'n sicrhau bod y canolbwynt ar wireddu dyheadau a diddordebau'r dysgwr. ➤ Ystyriwch gynnwys cynghorwyr pontio annibynnol a all ymgymryd â rôl "brocer gonest". ➤ Dylech annog meddwl yn greadigol am y ffordd orau o wireddu diddordebau a dyheadau pobl ifanc, a nodi camau gweithredu sydd eu hangen ar lefel strategol i gynyddu dewis (trafodir isod mewn perthynas ag arweinyddiaeth systemau). 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Peidiwch â thybio y bydd diddordebau a dyheadau'r holl randdeiliaid yr un peth neu'n cydfynd â'i gilydd. ➤ Mae'r dewisiadau yn aml yn gyfyngedig. ➤ Gall dysgu seiliedig ar waith fod yn briodol, ond mae gwybodaeth staff addysg a Gyrfa Cymru am ddarpariaeth dysgu seiliedig ar waith yn aml yn fwy cyfyngedig na'u gwybodaeth am fathau eraill o ddarpariaeth AB. ➤ Er bod gan bobl ifanc hawl i AB neu AU, nid dyma'r dewis gorau bob amser.

<p>Cynllunio camau gweithredu</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Canolbwyntiwch yn gyntaf ar y deilliant a fwriedir ac yna nodwch y camau gweithredu sydd eu hangen i wireddu hyn a diogelu diddordebau pobl ifanc. ➤ Nodwch a chynlluniwch ar gyfer rhwystrau a risgiau posibl (e.e. cynllun B ac C). ➤ Nodwch gyfrifoldebau gwahanol randdeiliaid ar gyfer gweithredu camau gweithredu gwahanol a chytunwch ar hyn. ➤ Nodwch a chytunwch pryd y bydd y cynllun yn cael ei adolygu nesaf. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Mae angen i'r broses o lunio cynlluniau gweithredu ystyried systemau cyllido a strwythur y cyfleoedd sydd ar gael. ➤ Efallai y bydd angen i gynlluniau newid (e.e. mae dyheadau a/neu anghenion person ifanc yn newid).
<p>Cydlynu (neu reoli) y broses cynllunio pontio</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Nodwch y person mwyaf priodol i gydlynu'r rôl. Dylai fod yn rhywun sy'n rhoi buddiannau'r person ifanc yn gyntaf, sy'n meddu ar y sgil, yr awdurdod a'r amser sydd eu hangen i gydlynu'r broses, ac sy'n cael cymorth y rhanddeiliaid allweddol yn y broses. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Efallai mai rhiant neu ofalwr fydd y person mwyaf priodol, ond eu dewis hwy ddylai hyn fod (h.y. ni ddylid ei orfodi arnynt am nad oes unrhyw un arall yn gwneud hyn) ac mae angen sgiliau, awdurdod ac amser arnynt er mwyn bod yn effeithiol.
<p>Dull gwirio posibl (monitro a gwerthuso)</p>	<p>Mae angen i'r gwerthusiad o effeithiolrwydd prosesau cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion ganolbwyntio'n bennaf ar brofiadau rhanddeiliaid a'u dyfarniadau goddrychol ar y broses a'i hallbynnau (fel y cynllun gweithredu). Gallai ddefnyddio adborth gan gyfranogwyr ar ôl, er enghraifft cyfarfodydd cynllunio/adolygu pontio, ar gwestiynau ynghylch meysydd fel:</p>	

- cynnwys rhanddeiliaid (e.e. pwy ddylai fod wedi bod yno a phwy oedd yno?);
- prosesau gwneud penderfyniadau (e.e. beth ddylai fod wedi'i drafod a beth gafodd ei drafod?);
- boddhad cyffredinol o ran y broses (e.e. a oedd digon o amser? A oedd y wybodaeth yn gywir, yn amserol ac yn berthnasol? A wnaeth y rhanddeiliaid wneud yr hyn y dywedasant y byddent yn ei wneud?) a'i allbynnau (fel y cynllun gweithredu);
- meysydd ar gyfer gwella (e.e. beth hoffent ei newid?).

Os yw'n berthnasol, gellid cynhyrchu data meintiol hefyd e.e. nifer a chanran y rhieni neu'r gofalwyr sy'n nodi eu bod yn fodlon ar y broses.

Tabl 4: Elfennau allweddol sy'n ymwneud â pharatoi pobl ifanc, rhieni a gofalwyr a lleoliadau dysgu, darparwyr a gwasanaethau ar gyfer pontio

Elfennau allweddol arfer effeithiol	Enghreifftiau o sut i'w gyflawni	Materion i'w hystyried
Paratoi pobl ifanc a rhieni/gofalwyr	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Annog pobl ifanc a'u rhieni neu ofalwyr i feddwl (a siarad) am y pontio y byddant yn ei wneud, gan gynnwys eu gobeithion a'u hofnau. ➤ Nodi rhwystrau posibl ac ymatebion priodol i fynd i'r afael â hwy fel: rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc a'u rhieni neu eu gofalwyr; gweithio gyda phobl ifanc i'w grymuso drwy feithrin eu sgiliau a'u cadernid (e.e. hyfforddiant ar deithio, gwaith i fagu hyder); a/neu y sefydliad/gwasanaethau eraill yn gwneud 'addasiadau rhesymol'. ➤ Mae gweithgareddau pontio a chysylltu yn aml yn cael eu defnyddio a gallant helpu i wella'r broses o gyfnewid gwybodaeth, a rhoi cyfle i bobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr gael profiad o leoliadau newydd, a siarad â'r rhai sydd eisoes wedi pontio. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ I bobl ifanc ag AAD, a'u rhieni neu eu gofalwyr mae'r syniad o adael yr ysgol yn gallu bod yn gythryblus iawn ac efallai y byddant yn gwerthfawrogi cymorth a sicrwydd neu y bydd angen y rhain arnynt. ➤ Hyd yn oed gyda chynllunio a pharatoi effeithiol, gall pontio fod yn anodd o hyd i bobl ifanc a/neu eu rhieni neu ofalwyr.
Paratoi	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Nodi'r ffordd orau o gyfnewid gwybodaeth â'r lleoliad sy'n 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Mae paratoi yn ei gwneud yn ofynnol

<p>lleoliadau dysgu, darparwyr a gwasanaethau</p>	<p>derbyn (e.e. drwy gynllun unigolyn, trafodaeth dros y ffôn a/neu gyfarfod).</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Nodi'r wybodaeth y mae'r lleoliad sy'n derbyn yn gofyn amdani a/neu a all fod yn werthfawr iddo. Sicrhewch fod y wybodaeth hon yn cael ei chyfnewid mewn ffordd amserol. ➤ Gwnewch baratodau, lle y bo'n bosibl, cyn i ddysgwr gyrraedd. Gallai'r rhain gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • addasiadau ffisegol; • newidiadau mewn arferion gwaith (e.e. darparu manau dysgu tawelach); a/neu • newidiadau mewn gweithluoedd (fel recriwtio a hyfforddi). 	<p>cael dealltwriaeth drylwyr o anghenion pobl ifanc.</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Mewn rhai achosion (e.e. lle mae person ifanc yn dewis peidio â datgelu gwybodaeth) efallai na fydd hyn yn bosibl. ➤ Mae cynllunio a pharatoi effeithiol yn cymryd amser a gall oedi o ran cytuno ar gyllid neu sicrhau lle yn y coleg neu'r brifysgol gymhlethu hyn. ➤ Gall anghenion dysgwyr newid, felly efallai y bydd angen i gynlluniau (a pharatodau lleoliadau) newid hefyd.
<p>Cydweithio rhwng ysgolion, lleoliadau ôl-16 a gwasanaethau</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Sicrhewch fod gan rywun gyfrifoldeb am gydlynw cynllun pontio (neu Gynllun Datblygu Unigol) ar bob cam o'r broses. ➤ Creu rhwydweithiau a phartneriaethau (e.e. gyda lleoliadau sy'n derbyn a gwasanaethau cymorth). ➤ Byddwch yn rhagweithiol, gan ymestyn allan i leoliadau a gwasanaethau eraill. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Ceir risgiau (e.e. lle mae cydweithio'n sianelu pobl ifanc o'r ysgol i'r coleg, heb adael lle ar gyfer dewisiadau eraill). ➤ Mewn rhai achosion, efallai y bydd lleoliadau a/neu wasanaethau cymorth yn cael trafferth ymgysylltu neu byddant yn amharod i wneud hynny.

<p>Arweinyddiaeth systemau</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Mae cydweithio effeithiol yn ei gwneud yn ofynnol cael dau bartner gweithredol, ac arweinyddiaeth systemau, gall fod yn angenrheidiol lle nad yw un partner yn ymwneud yn weithredol ac yn methu cyflawni ei gyfrifoldebau. ➤ Meithrin disgwyliadau uchel, meincnodi a gwerthuso perfformiad. ➤ Gall mentrau strategol helpu i feithrin y weledigaeth a rennir a'r cyfleoedd ar gyfer cydweithio sydd eu hangen i alluogi arweinyddiaeth systemau. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall amrywiaeth o bobl weithredu fel arweinwyr systemau. Gallent gynnwys, er enghraifft, arweinwyr ysgol a choleg, cydlynwyr AAA, cydlynwyr rhwydwaith 14-19, swyddogion ymgynghorol addysgol neu gynhwysiant a gweithwyr allweddol awdurdod lleol. ➤ Gall targedau, sy'n bwysig o ran gwella safonau a darparu atebolrwydd, hefyd fod yn rhwystr i feddwl drwy systemau pan fyddant, er enghraifft, yn canolbwyntio sylw ar fuddiannau sefydliadau yn hytrach na buddiannau dysgwyr.
<p>Dull gwirio posibl (monitro a gwerthuso)</p>	<p>Mae angen i werthusiad o effeithiolrwydd paratoi ar gyfer pontio ganolbwyntio'n bennaf ar brofiadau rhanddeiliaid a'u dyfarniadau goddrychol am y broses a'r newidiadau a oedd yn deillio o'r broses (e.e. hyfforddiant teithio a/neu hyfforddiant staff). Yn ddelfrydol byddai hyn yn cael ei gasglu cyn ac ar ôl pontio. Gallai casglu data, er enghraifft ar deimladau rhanddeiliaid am y pontio sydd ar y gweill, lywio gwaith paratoadol pellach, a byddai casglu data ar ôl pontio, yn rhoi mantais ôl-ddoethineb i rhanddeiliaid, a helpu i nodi gwersi ar gyfer pontio yn y dyfodol.</p> <p>Gellid gofyn cwestiynau i rhanddeiliaid, er enghraifft am:</p>	

- Eu hyder ynghylch cyfnodau pontio sydd ar y gweill;
- I ba raddau y cafodd rhwystrau posibl i bontio eu nodi ac yna mynd i'r afael â hwy;
- Eu teimladau am baratodau ar gyfer y pontio neu eu boddhad â'r rhain;
- Eu profiad o'r pontio neu eu boddhad â'r broses;
- Meysydd ar gyfer gwella (e.e. beth hoffent ei newid).

Os yw'n berthnasol, gellid cynhyrchu data meintirol hefyd e.e. nifer a chanran y rhieni neu'r gofalwyr sy'n nodi eu bod yn fodlon ar y paratodau.

Tabl 5: Elfennau allweddol yn ymwneud â sicrhau dilyniant a chyflawniad pobl ifanc ar ôl trosglwyddo

Elfennau allweddol arfer effeithiol	Enghreifftiau o sut i'w gyflawni	Materion i'w hystyried
<p>Nodi, asesu a diwallu anghenion pobl ifanc (ar ôl pontio)</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Integreiddio gwybodaeth a drosglwyddwyd o'r lleoliad blaenorol (e.e. mewn cynllun pontio neu Gynllun Dysgu a Sgiliau) â'r wybodaeth a gaiff ei pharatoi a'i chyfoethogi gan asesiadau'r lleoliad sy'n derbyn. ➤ Sicrhau bod asesiadau'n gyfannol ac yn canolbwyntio ar anghenion academaidd, personol a chymdeithasol y dysgwr. ➤ Sicrhau bod asesu yn broses barhaus - nid un digwyddiad – fel bod y cymorth yn ymatebol wrth i anghenion newid neu wrth i anghenion gael eu nodi. ➤ Sicrhau bod nodi pobl ifanc ag AAD sydd mewn perygl o ymddieithrio yn cael ei integreiddio i drefniadau er mwyn nodi dysgwyr sydd mewn perygl o ymddieithrio (fel rhan o'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid). ➤ Mae rhai lleoliadau o'r farn y bu Cynlluniau Datblygu 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Efallai na fydd gan leoliadau dysgu ôl-16 yr arbenigedd a/neu'r mynediad i wasanaethau AAA arbenigol sydd eu hangen i nodi ac asesu AAD mwy cymhleth (ac o ganlyniad maent yn ddibynnol iawn ar wybodaeth a ddarperir gan yr ysgolion ac a amlinellir mewn Asesiadau Adran 140).

	Unigol a phroffiliau un dudalen yn ddefnyddiol o ran rhoi crynodeb o ddeiliant asesiadau ac o ran rhannu'r casgliadau (asesu) â staff addysgu a chymorth.	
Diwallu anghenion pobl ifanc	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Rhannu gwybodaeth yn y sefydliad (i sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda'r bobl ifanc yn deall eu hanghenion a'u dewisiadau). ➤ Grymuso pobl ifanc i fynd i'r afael â rhwystrau eu hunain (ni ddylid eu gweld fel unigolion sy'n derbyn cymorth yn oddefol). Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, staff bugeiliol yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc i feithrin eu sgiliau a'u hyder ac, er enghraifft, eu galluogi i deithio'n annibynnol. ➤ Datblygu sgiliau a gwybodaeth arbenigol staff pryd a ble y mae eu hangen (e.e. drwy ddysgu proffesiynol ymatebol). ➤ Gwneud addasiadau ("addasiadau rhesymol") yn cynnwys y defnydd o dechnoleg. ➤ Defnyddio cyllid ychwanegol (lle y mae ar gael). 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Nid yw rhai darparwyr a/neu bobl ifanc yn manteisio ar y cymorth/cyllid sydd ar gael, fel y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl⁷⁷ ➤ Mae rhai darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith nad oes ganddynt arbenigedd a phrofiad o weithio gyda phobl ifanc ag AAD. ➤ Mae toriadau cyllid wedi rhoi pwysau ar wasanaethau cymorth i ddysgwyr o fewn lleoliadau dysgu a'r tu allan iddynt (e.e. gwasanaethau arbenigol AAA)
Cynorthwyo dilyniant	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Sicrhewch fod asesiadau o anghenion yn ystyried dysgu a chyflawniad yn y gorffennol, fel bod dysgwyr ar y lefel 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Mewn rhai achosion gall 'dilyniant' llorweddol (neu ochrol) fod yn briodol

⁷⁷ Hefyd, nodwyd bod problemau'n gysylltiedig â chyllid ar gyfer gofal personol a chymdeithasol (gweler hefyd e.e. Townsley et al., 2013) a arweiniodd at rai darparwyr yn gwrthod derbyn pobl ifanc.

	<p>gywir, ar ôl pontio.</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Sicrhewch fod llwybrau dilyniant clir (ac wedi'u deall yn dda) o gyrsiau lefel is i gyrsiau lefel uwch. ➤ Sicrhewch fod gan yr holl staff ddisgwyliadau uchel o ddysgwyr. ➤ Sicrhewch, cyn belled â phosibl, bod modd personoli dysgu i anghenion a dyheadau pobl ifanc. 	<p>(e.e. lle mae dysgwr yn atgyfnerthu sgiliau a gwybodaeth).</p>
<p>Dull gwirio posibl (monitro a gwerthuso)</p>	<p>Dylai lleoliadau sicrhau bod prosesau yn eu lle i werthuso nodi ac asesu ar gyfer anghenion dysgwyr a'r ddarpariaeth sydd yn ei lle i ddiwallu anghenion a nodwyd (gweler e.e. Estyn 2014b, 2014c, LIC, 2009). Dylai'r rhain ganolbwyntio ar brosesau (e.e. a yw dysgwyr yn cwblhau profion sgiliau sylfaenol, a ydynt yn gallu cael gfael ar gymorth) a deilliannau, o ran cyrhaeddiad a dilyniant y dysgwr. Gall hyn gael ei ategu gan adborth oddi wrth asiantaethau allanol fel Estyn a Chydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid.</p>	

Tabl 6: Gwella data

Cam	Defnydd posibl o'r data presennol (gyda'r math o fesur: safonau/prosesau; deilliannau; neu brofiadau wedi'u nodi mewn cromfachau)	Enghreifftiau o sut y gellid mynd i'r afael â bylchau yn y broses bresennol o gasglu data (gyda'r math o fesur: safonau/prosesau; deilliannau; neu brofiadau wedi'u nodi mewn cromfachau)
Datblygu prosesau cynllunio pontio a llunio cynlluniau gweithredu	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Hunanwerthuso lleoliadau (e.e. Estyn, 2014b a 2014c) neu ddata hunanasesu (LIC, 2015c) (safonau/prosesau;). 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Systemu'r broses o gasglu a chyhoeddi data arolygu Estyn ar drefniadau pontio (safonau/prosesau). ➤ Casglu data ar amserlenni ar gyfer ceisiadau am gyllid ychwanegol (fel y dyddiad cyflwyno a dyddiad y penderfyniad (safonau/prosesau). ➤ Casglu data goddrychol ar foddhad dysgwr a rhieni neu ofalwr â chynllunio pontio (profiadau).
Paratoi pobl ifanc, rhieni a gofalwyr a darparwyr ar gyfer pontio	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Hunanwerthuso lleoliadau (e.e. Estyn, 2014b) neu ddata hunanasesu (LIC, 2015c) (safonau/prosesau). ➤ Boddhad pobl ifanc ag AAD ag AB (gan ddefnyddio data Arolwg Llais y Dysgwr) ar, er enghraifft, y cymorth a roddwyd i helpu i setlo yn y coleg a'r wybodaeth a roddwyd am 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Systemu'r broses o gasglu a chyhoeddi data arolygu Estyn ar drefniadau pontio (safonau/prosesau). ➤ Casglu data goddrychol ar foddhad dysgwr neu ofalwr â pharatoadau ar gyfer pontio (profiadau).

	<p>opsiynau (profiadau).</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Canran amcangyfrifedig y bobl ifanc ag AAA sy'n mynd ymlaen i AB, cyflogaeth neu sy'n NEET ym mhob ardal ALI (gan ddefnyddio data Gyrfa Cymru) (deilliant). 	
Dysgu a dilyniant ar ôl pontio	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Hunanwerthuso lleoliadau (e.e. Estyn, 2014b) neu ddata hunanasesu (LIC, 2015c) (safonau/prosesau). ➤ Arolygiadau Estyn o ansawdd addysg a hyfforddiant ôl-16 i bobl ifanc ag ADY. (safonau/prosesau). ➤ Boddhad pobl ifanc ag AAD o ran AB (gan ddefnyddio data arolwg Llais y Dysgwr) ar fynediad i wybodaeth am wasanaethau cymorth personol a dysgu ac am wybodaeth a chyingor ynghylch opsiynau ar ôl cwblhau'r cwrs (profiadau). ➤ Canran y bobl ifanc ag AAD sy'n cwblhau cyrsiau AB ac AU (gan ddefnyddio data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a HESA) (deilliannau). ➤ Cyrchfannau pobl ifanc ag AAD sy'n cwblhau 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Sicrhau bod deilliannau i bobl ifanc ag AAD (fel grŵp penodol o bobl ifanc) yn cael eu hystyried fel rhan o'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid.

	<p>cyrsgiau AB ac AU (e.e. y nifer y mae'n hysbys iddynt symud ymlaen i gyflogaeth neu AB a hyfforddiant) (deilliannau).</p>	
--	--	--